EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales · Charity number 1155539

Details

Other names	NATIONAL EISTEDDFOD OF WALES
Status	Registered
Legal form	CIO
Registered	2014-01-29
Register	View on the Charity Commission register

Contact

Address	Eisteddfod Genedlaethol Cymru 40 Parc Ty Glas Llanishen Cardiff CF14 5DU
Phone	03454090300
Email	peter@eisteddfod.cymru
Website	www.eisteddfod.cymru

Activities

Objects: WELSH TEXT:(1) HYRWYDDO ADDYSG Y CYHOEDD YN NHREFTADAETH A DIWYLLIANT CYMRU, Y GWYDDORAU A'R IAITH GYMRAEG; A(2) HYRWYDDO, CADW A DIOGELU TREFTADAETH A DIWYLLIANT CYMRU A'R IAITH GYMRAEG, DRWY UNRHYW DDULL A MODD A WÊL YR YMDDIRIEDOLWYR YN DDA YN CYNNWYS TRWY GYNNAL GWYL GENEDLAETHOL YN FLYNYDDOL, SEF EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU.ENGLISH TEXT:(1) TO ADVANCE THE EDUCATION OF THE PUBLIC IN WELSH HERITAGE AND CULTURE, THE SCIENCES AND THE WELSH LANGUAGE; AND(2) TO ADVANCE, PRESERVE AND SAFEGUARD WELSH HERITAGE AND CULTURE AND THE WELSH LANGUAGE, BY ANY SUCH MEANS AS THE TRUSTEES SEE FIT INCLUDING THE HOLDING OF AN ANNUAL NATIONAL FESTIVAL, NAMELY THE NATIONAL EISTEDDFOD OF WALES.

Activities: (1) hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a'r iaith Gymraeg; a(2) hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, drwy unrhyw ddull a modd a wel yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gwyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

Downloaded from opencharities.uk/ew/1155539

Classification

- **How:** Makes Grants To Individuals, Provides Buildings/facilities/open Space, Provides Services
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, Religious Activities, Arts/culture/heritage/science, Amateur Sport, Environment/conservation/heritage, Economic/community Development/employment, Recreation
- **Who:** Children/young People, Elderly/old People, People With Disabilities, Other Charities Or Voluntary Bodies, The General Public/mankind

Geography

- Throughout Wales

Finances

Period end	Income	Expenditure	Assets	Employees
2025-03-31	£6,695,000	£6,503,000	£8,380,000	13
2024-03-31	£8,686,000	£7,729,000	£9,070,000	12
2022-12-31	£4,449,000	£6,440,000	£7,191,000	8
2021-12-31	£2,539,000	£1,685,000	£5,251,000	8
2020-12-31	£2,763,000	£1,542,000	£3,311,000	14

Trustees

Name	Role	Appointed
ALED WALTERS		2020-08-09
DARRAN WYN PHILLIPS		2025-01-30
DEIAN WYN RHYS		2019-08-08
Gwenno Mair Williams		2020-10-09
JOHN DAVIES		2025-05-17
LLINOS ROBERTS		2025-05-17
Nic Parry		2025-08-07
SIAN EIRIAN LEWIS		2026-02-22
TRYSTAN LEWIS		2020-08-09
WILLIAM MICHAEL STRAIN		2020-08-09
YR ATHRO CHRISTINE JAMES		2017-10-23

Downloaded from opencharities.uk/ew/1155539

Downloaded from opencharities.uk/ew/1155539

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1155539

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL
A DATGANIADAU ARIANNOL
am y flwyddyn 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025

EISTEDDFOD

Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif elusen: 1155539
www.eisteddfod.cymru

CYNNWYS

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr:

- Amcanion a Gweithgareddau'r elusen 2
- Cyflawniadau a Pherfformiad 4
- Adolygiad Ariannol 11
- Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol 14
- Strwythur, Llywodraethu a Rheoli 15
- Cynlluniau'r Dyfodol 18

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol 19

Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol 23

Mantolen 24

Datganiad o'r Llif Arian 25

Nodiadau i'r datganiadau ariannol 26

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn o 1 Ebrill 2024 i 31 Mawrth 2025. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn nodyn 1 i'r cyfrifon ac yn cydymffurfio â chyfansoddiad yr elusen, Deddf Elusennau 2011, Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP) sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Amcanion yr Eisteddfod, er budd y cyhoedd yng Nghymru a ledled y byd, yw:

- hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a'r iaith Gymraeg; a hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, drwy unrhyw ddull a modd yr ystyrir yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gŵyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

  Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddilyn yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Y Gymraeg yw iaith gweithgareddau'r Eisteddfod a'r Ŵyl. Tra'n parchu'r egwyddor hon, dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r di-gymraeg, a gweithgareddau i'r rhai hynny sy'n dysgu'r Gymraeg.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl deithiol/symudol. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol, Cymdeithas awdurdodau lleol Cymru a chyrff eraill, dylid ymdrechu i sicrhau bod yr ymweliadau'n gymorth i hyrwyddo adnewyddiad y cymunedau, a bod y budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd hynny yn sylweddol a pharhaol.
- Bwriedir i'r Eisteddfod Genedlaethol ddathlu egni a chyfoesedd yr iaith Gymraeg, ardderchowgrwydd diwylliant Cymru, a thraddodiadau gwerthfawr a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl gystadleuol yn ei hanfod. Dylid adolygu nifer a natur y cystadlaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas a pherthnasol i'r cyfnod.
- Bwriedir i'r Eisteddfod hefyd fod yn llwyfan i'r goreuon yn amrywiol agweddau'r diwylliant Cymreig a'r celfyddydau yng Nghymru, boed amatur neu broffesiynol.
- Rhaid sicrhau strwythur rheoli a threfnu effeithiol sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol ac ymarferol sy'n bodoli er mwyn sicrhau gweithredu amserol a diwastraff gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Dylai'r rheolaeth fod yn agored a thryloyw ac yn parchu egwyddorion sylfaenol priodoldeb a llywodraeth gorfforaethol yn gyffredinol.
- Dylid cydweithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol (cyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat) a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ŵyl.
- Ni ddefnyddir eiddo'r Eisteddfod at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennol wrth benderfynu ar ein gweithgareddau.

Amcanion craidd yr Eisteddfod Genedlaethol yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu iaith, hanes a thraddodiadau Cymru mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal i ddathlu popeth Cymreig ac i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn y brif ffrwd drwy:

- Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo diwylliant, bwyd, tirlun a threftadaeth Cymru sy'n adlewyrchu Cymru;
- Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
- Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r ŵyl yn hyrwyddo a'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, trwy arddangos talent o Gymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ymglymu artistiaid, cerddorion, perfformwyr, busnesau, addysg a darparwyr cymdeithasol. Mae'r holl bobl leol a'r holl fusnesau lleol yn cael eu hannog i fynd ati i gymryd rhan, gan greu cyfuniad â blas Cymreig arbennig i adlewyrchu diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd pobl Cymru.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyflawni ei hamcanion craidd trwy:

- Arddangos hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a threftadaeth Cymru; annog pobl i ddathlu hanes a diwylliant Cymru;
- Feithrin a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg pob grŵp oedran;
- Ddarparu cyfleoedd cyffrous i ysgolion a chymunedau trwy gydol Cymru i gymryd rhan ynddynt;
- Ddarparu cyfleoedd i'n hartistiaid Cymreig blaenllaw i arddangos eu talentau;
- Ddod yn hygyrch i gynulleidfa fwy eang o wahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd, trwy ddod â'r Eisteddfod i mewn i'r oes fodern;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymysg busnesau yn y sector preifat;
- Gynyddu proffil Cymru ar lefel rhyngwladol;
- Gydlyniant cymunedol trwy weithredu a chymryd rhan yn wirfoddol yn lleol;
- Weithio gyda sefydliadau lleol i gryfhau Cymru a'i chymunedau;
- Godi proffil a phoblogrwydd canu corawl yng Nghymru;
- Arloesi gyda thechnoleg newydd e.e. y cyntaf yn y Byd i we-ddarlledu'n fyw yn y Gymraeg yn 2000, a'r rhaglen Gymraeg gyntaf ar gyfer yr iPhone yn 2010;
- Annog datblygiad addysgol;
- Gryfhau llwyfan Cymru;
- Gynyddu cystadleuaeth iach a gwaith tîm;
- Annog pobl i gyfrannu o gefndiroedd di-gymraeg;
- Adeiladu pontydd rhwng pobl o ethnigrwydd a chenhedloedd amrywiol.

Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024

Yr arlwy artistig

Un o'r digwyddiadau mwyaf poblogaidd yn y **Babell Lên** eleni oedd Sesiwn Goffa Llwyd o'r Bryn, pan fu'r actores arobryn, Siân Phillips, yn sgwrsio gyda Steffan Donnelly am ei bywyd a'i gwaith. Mae hon yn datblygu i fod yn sesiwn flynyddol sy'n apelgar a phoblogaidd.

Unwaith eto eleni, roedd y Cwt Cabaret yn boblogaidd gydag amrywiaeth ddifyr o weithgareddau nos yn llenwi gofod y Babell Lên gyda'r hwyr.

Lleoliad arall sy'n denu cynulleidfa fawr gyda'r nos yw'r **Tŷ Gwerin**, ac unwaith eto eleni, roedd y rhaglen yn ddeniadol ac yn gymysgedd dda o sesiynau lleol a chenedlaethol, gydag ambell ffefryn fel y Stomp Werin a'r Gymanfa Gerdd Dant yn dychwelyd eto eleni.

Gyda churadur newydd wrth y llyw, rhoddwyd cyfle i lawer mwy o artistiaid arddangos yn **Y Lle Celf** eleni, gydag ymdeimlad o gelf mewn gŵyl yn yr oriel ac awyrgylch braf. Mae angen ystyried rôl yr arddangosfa arbennig yn Y Lle Celf, a thrafod a yw'r cysyniad o arddangosfa ar ei ffurf bresennol yn gweithio ynteu a oes angen bod yn fwy arbrofol a beiddgar.

Roedd naws braf yn **Encore** eleni gyda'r rhaglen yn apelgar ac agosatoch, gyda chymysgedd o sesiynau lleol a chenedlaethol drwy gydol yr wythnos.

Mae'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru a Dysgu Cymraeg yn mynd o nerth i nerth ac ardal y **Pentref Dysgu Cymraeg** yn elwa oherwydd hyn. Er i'r ardal gael ei leoli'n agos at y brif fynedfa ers rhai blynyddoedd bellach, y bwriad yw edrych ar leoli'r Pentref Dysgu Cymraeg mewn rhan arall o'r Maes y flwyddyn nesaf.

Ceir cymysgedd o sesiynau hwyliog a swmpus, ac mae'r ardal yn cynnwys sesiynau ar gyfer dysgwyr ar bob lefel, yn ogystal â digwyddiadau sy'n pontio rhwng siaradwyr newydd a siaradwyr hyderus.

Bu'r ardal chwarae yng nghanol Parc Ynysangharad yn ychwanegiad hyfryd i ardal y **Pentref Plant** eleni, gyda'r parc a'r gweithgareddau'n denu miloedd o blant cyn ac oedran cynradd yn ystod yr wythnos. Dyma ardal sydd wedi ennill ei blwyf dros y blynyddoedd diwethaf, gydag amserlen syml ond llwyddiannus, sy'n gadael i blant gymdeithasu a chwarae. Roedd yr Ynys Glyd, ardal synhwyraidd i blant niwro-amrywiol hefyd yn ychwanegiad pwysig i'r pentref eleni.

Gweithiodd yr **arlwy theatrig** o amgylch y Maes yn dda iawn eleni, gyda chynyrchiadau mwy ffurfiol yn cael eu cynnal yng nghanolfan YMa yng nghanol y dref. Mae cynnal gweithgareddau theatrig mewn gwahanol rannau o'r Maes yn apelio at ein cynulleidfa, gydag arlwy dawns fel rhan o theatr stryd yn genre sy'n cynyddumewn poblogrwydd yn flynyddol.

Rhoddwyd ffocws ar ddatblygu sgwennwyr newydd eleni. Cafwyd ymateb ardderchog i *Corn Gwlad* a *Brên. Calon. Fi.* dau gydgynhyrchiad gyda'r Eisteddfod a berfformiwyd yn gyntaf fel gwaith mewn datblygiad ar y Maes cyn dychwelyd fel cynyrchiadau llawn yn ddiweddarach.

Gweithiodd y berthynas gyda'r Gwasanaeth Cerdd a'r cyngor yn dda ar y **bandstand** gan roi cyfle i artistiaid lleol yn ystod y dydd. Defnyddiwyd y bandstand ar gyfer perfformiadau golau cannwyll gyda'r nos.

Mae **Caffi Maes B** yn lleoliad poblogaidd ar gyfer perfformiadau theatrig. Mae comedi yn parhau yn boblogaidd, gyda galw am slot gomedi dyddiol yn y dyfodol.

Eleni, roedd dwy ganolfan oddi ar y Maes, y **Muni** ac **YMa** yng nghanol y dref. Defnyddiwyd y Muni ar gyfer rhagbrofion a pherfformiadau min nos, ac roedd YMa yn leoliad gwych ar gyfer perfformiadau theatrig mwy ffurfiol. Cymerodd rhain le yr ail bafiliwn eleni, gyda'r Muni yn arbennig yn dangos y byddai gofod hyblyg ar gyfer rhagbrofion hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio'r greadigol gyda'r nos wrth edrych i'r dyfodol.

Cyngerdd y Côr

Addasiad cwbl newydd o stori eiconig Nia Ben Aur oedd sioe fawr yr Eisteddfod eleni. Gyda chystadlu'n parhau gyda'r nos am ran helaeth o'r wythnos, dim ond un cyngerdd a gynhaliwyd yn y Pafiliwn.

Hanner canrif ar ôl premiere y sioe roc Gymraeg eiconig yn Eisteddfod Bro Myrddin, 1974, rhoddodd Patrick Rimes a Sam Humphreys wedd werinol ac electro i'r caneuon, a chrëwyd sgript newydd sbon gan Fardd Plant Cymru, Nia Morais. Crëwyd y trefniannau corawl gan Richard Vaughan, gyda Angharad Lee yn cyfarwyddo'r sioe. Roedd y côr yn un o elfennau cymunedol mwyaf y prosiect eleni, gyda thros 300 o bobl leol, yn siaradwyr Cymraeg hyderus, dysgwyr ac yn ddi-gymraeg yn cael cyfle i berfformio. Roedd yr addasiad yn hynod arbrofol a'r sioe yn ei chyfanrwydd yn wahanol i'r hyn roedd ein cynulleidfa'n ei ddisgwyl.

Y Maes

Dychwelodd yr Hwb Trydydd Sector eleni, mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwirfoddol Cenedlaethol Cymru ac Interlink, gan sicrhau presenoldeb i dros 30 o elusennau lleol a chenedlaethol.

Bu'n rhaid torri i lawr ar nifer yr arlwywr a ddaeth i'r Maes eleni, oherwydd bod gofod yn brin, ac o'r herwydd roedd safon y bwyd yn well. Golygodd hyn hefyd fod llawer o bobl wedi gadael y Maes i brynu bwyd a chyfrannu i'r economi leol. Roedd nifer o'r arlwywyr yn cynnig prydau fforddiadwy am `5, ac mae'n rhaid sicrhau fod y rhain ar gael drwy gydol yr wythnos.

Un o amcanion mawr y cyngor sir a ninnau wrth gynnal yr ŵyl ym Mhontypridd oedd creu Eisteddfod werdd gyda phwyslais amlwg ar drafnidiaeth gyhoeddus. Gorffennwyd y gwaith lleol ar y Metro, a bu tîm aml-asiantaeth yn gweithio ar gynllun trafnidiaeth am fisoedd, gan annog pobl i ddefnyddio'r bws a'r trên a pheidio â gyrru i ganol y dref. Gweithiodd hyn yn wych, gyda threnau rheolaidd a thocynnau bws am £1 o amgylch yr ardal, a chrëwyd glasbrint ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn rhan bwysig o'n polisi amgylcheddol a fydd yn dod yn elfen fwy amlwg o'n gwaith wrth i ni weithio tuag at statws sero-garbon dros y blynyddoedd nesaf.

Roedd nifer o heriau wrth gynnal yr Eisteddfod drefol mewn cwm, ac un o'r rheini oedd sicrhau fod gennym ni ddigon o dir addas ar gyfer y maes carafanau yn ogystal â'r Maes ei hun. Ni fu hyn yn hawdd a chafwyd rhai cwynion am y pellter o'r Maes (0.4 milltir).

Gosodwyd yr hwb hygyrchedd wrth ymyl y llecyn llonydd, a symudwyd Byw Bywyd yno er mwyn i bobl allu gollwng eu sgwteri mewn ardal benodol ar ôl 18:00. Bu'r gwasanaeth bygi'n boblogaidd gydag ymwelwyr ag anghenion hygyrchedd ychwanegol, yn arbennig wrth fynd o'r Pafiliwn i'r brif fynedfa. Bu'r cyfieithu BSL yn fwy poblogaidd eleni, a chynhyrchwyd fideo penodol ymlaen llaw er mwyn ei hyrwyddo.

Gweithiodd y Maes yn arbennig o dda yn ystod yr wythnos, ond bu gosod y strwythurau a'r cyfleusterau'n llawer mwy heriol na'r arfer. Roedd rhaid ystyried pa strwythurau fyddai'n ffitio yn y gwahanol ofodau ac o amgylch yr adeiladau parhaol ar y safle. Roedd cael dim ond un fynedfa i gerbydau hefyd yn heriol, ond gweithiodd ein system rheoli cerbydau'n dda, a byddwn yn parhau i ddilyn y drefn hon y flwyddyn nesaf.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Bu'n rhaid cyfyngu stondinwyr i ddwy uned yr un eleni, er mwyn sicrhau bod lle i bawb a digon o amrywiaeth ar y Maes. Yn ogystal, cyflwynwyd stondinau llai o faint (3m x 3m) am y tro cyntaf, gyda'r rhain yn cael eu hyrwyddo i fusnesau bach a lleol. Cynhaliwyd dwy sesiwn galw draw i drafod stondinau ym Mharc Ynysangharad ddiwedd Chwefror ar gyfer busnesau lleol, gyda dwy arall yn cael eu cynnal ar Zoom ar gyfer darpar stondinwyr cenedlaethol. Gweithiodd y system archebu amser i stondinwyr gyrraedd y Maes i osod i fyny yn dda, a byddwn yn dilyn yr un drefn eto y flwyddyn, er mwyn torri i lawr ar nifer y cerbydau ar y Maes cyn yr ŵyl.

Yn dilyn llwyddiant y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg dros y blynyddoedd diwethaf, eleni penderfynwyd arbrofi drwy greu Pentref Celf, gan osod clwstwr o stondinau a chytiau pren wrth ymyl Y Lle Celf. Bu hyn yn llwyddiant a byddwn yn parhau gyda'r arbrawf hwn y flwyddyn nesaf.

Unwaith eto eleni, roedd y Maes yn edrych yn ddeniadol a lliwgar ac mae hyn yn ychwanegu cymaint at naws gŵyl yn ystod yr wythnos.

Cyfathrebu a digidol

Gan nad oedd yr Eisteddfod wedi'i chynnal yn ardal Rhondda Cynon Taf ers cynifer o flynyddoedd, roedd codi ymwybyddiaeth o'r brand a chyflwyno elfennau o'r ŵyl mewn ffordd ddeniadol a syml yn hollbwysig.

Cafodd hyn ei wneud drwy ymgyrch farchnata eang ar draws yr ardal a oedd yn cynnwys hysbysebion ar fysiau, fflagiau ar y stryd, baneri cymunedol ar draws y dalgylch ynghyd â defnydd deniadol o'r brand o amgylch adeilad y llyfrgell wrth i ymwelwyr gyrraedd y Maes.

Defnyddiwyd y brand yn ofalus drwy gydol y flwyddyn er mwyn i drigolion lleol ddod i'w adnabod, gyda defnydd cryf o'r brand hefyd yn rhan allweddol o'n hymgyrch genedlaethol i hyrwyddo'r ŵyl, tocynnau a'r rhaglen artistig.

Defnyddiodd y cyngor elfennau cryf o'n brandio ni wrth hyrwyddo'r ŵyl o amgylch y dalgylch hefyd, gan ein helpu ni godi ymwybyddiaeth ymhellach.

Mae cynhyrchu rhaglen ar ffurf cofrodd, gyda chyfres o erthyglau nodwedd yn gweithio'n dda, a byddwn yn parhau gyda hyn y flwyddyn nesaf.

Mae gennym berthynas dda iawn gyda newyddiadurwyr lleol a chenedlaethol gyda llawer iawn o sylw positif drwy gydol y flwyddyn ac yn ystod yr ŵyl ei hun. Yn naturiol, nid yw pob stori'n bositif, ac rydyn ni'n derbyn ein bod ni am gael sylw negyddol pan fo stori ddilys yn torri.

Un o lwyddiannau mawr wythnos yr Eisteddfod oedd y teithiau tywys a oedd yn cael eu cynnal ddwywaith y dydd. Denodd y rhain gannoedd o bobl dros yr wythnos, gyda chymysgedd o drigolion lleol a oedd yn dod yn mynychu am y tro cyntaf ynghyd â nifer dda o ymwelwyr o wahanol rannau o'r byd. Mae'r rhain wedi'u targedu at ymwelwyr a'r rheini sy'n dysgu Cymraeg, ac yn cael eu cynnal gan ddysgwr sy'n hyderus erbyn hyn.

Cafodd y teithiau ganmoliaeth mawr gan rai o staff Croeso Cymru eleni, a byddwn yn eu cynnwys yn rhaglen y Pentref Dysgu Cymraeg o hyn ymlaen fel gweithgaredd ffurfiol.

Rydyn ni'n parhau i ddatblygu ein defnydd o'n gwefan a'r app, ac mae gwefan yr Eisteddfod ymysg y gwefannau Cymraeg mwyaf poblogaidd.

Eleni, gwnaethpwyd gwell defnydd o'r digwyddiadur ar-lein a byddwn yn edrych ar sut y gellir ehangu ar hyn y flwyddyn nesaf. Byddwn hefyd yn datblygu system hysbysebion ar y wefan fel ffordd syml o gynyddu incwm, yn arbennig yn ystod y cyfnodau prysur.

Mae app yr Eisteddfod yn parhau i fynd o nerth i nerth, ac eleni cafwyd dyluniad newydd glân i gyd-fynd â'r wefan.

Cafodd yr app ei ddefnyddio gan dros 30,000 o unigolion yn ystod yr wythnos, gyda thua 20% o'r rhain yn ddefnyddwyr newydd. Cyflwynwyd system hysbysiadau ar yr app a oedd yn ddefnyddiol iawn ddydd Iau pan oedd angen symud a chanslo sesiynau oherwydd y tywydd, a byddwn yn edrych ar ei wneud yn fwy strwythuredig i flwyddyn nesaf.

Y Gronfa Leol a nawdd

Erbyn bore cyntaf yr Eisteddfod, roedd y Gronfa Leol wedi cyrraedd £0.305m, ac wrth ychwanegu cyfraniadau mewn da gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac eraill, cyhoeddwyd fod y cyfanswm wedi cyrraedd y nod.

Rydyn ni'n ddiolchgar i bawb a weithiodd mor galed ym mhob rhan o'r dalgylch yn codi arian, yn enwedig gan nad oes unrhyw gynghorau cymuned yn yr ardal fel sy'n bodoli mewn rhannau eraill o Gymru, ac sy'n barod iawn i gefnogi'r Eisteddfod yn lleol.

Gweithiodd y tri chwm mewn ffordd wahanol i'w gilydd, gydag aelodau'r pwyllgorau lleol yn dewis sut roedden nhw am weithio. Roedd Rhondda a Chynon yn ffafrio un pwyllgor codi arian ar gyfer yr ardal ac ardal Taf wedi'i rhannu'n wardiau tebycach i'r arfer.

Am y tro cyntaf, gweinyddwyd system archebu gwobrau ar ein gwefan, a gweithiodd hyn yn dda, yn enwedig er mwyn annog pobl o'r tu allan o'r dalgylch i gyflwyno gwobr yn ogystal â'r rheini a oedd yn byw yn lleol. Roedd yr wybodaeth yn cael ei uwch lwytho'n awtomatig ar gyfer y rhaglen ac roedd hyn yn help mawr yn ystod cyfnod prysur.

Llwyddodd y gronfa nawdd i gyrraedd ei nod hefyd ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn i noddwyr hen a newydd am eu cefnogaeth unwaith eto eleni. Rydyn ni wedi datblygu nifer o becynnau nawdd newydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mae'n braf gweld bod rhain yn apelgar gan noddwyr o'r sector preifat yn ogystal â'r rheini sydd yn y sector cyhoeddus.

Cystadlu

Llwyddwyd i gwblhau'r gwaith o greu'r rhaglen gystadlu ddrafft yn gynnar eleni fel bod modd ei chyhoeddi cyn y dyddiad cau a helpu cystadleuwyr i wneud trefniadau teithio ac aros ar gyfer yr wythnos, a byddwn yn parhau gyda'r drefn hon eleni.

Nodwedd newydd arall oedd bod y rhaglen yn gweithio tuag at uchafbwynt ddiwedd yr wythnos gyda'r brif gystadleuaeth unigol ym mhob adran yn cael eu cynnal ar y dydd Sadwrn olaf, gan wella llif a siâp yr wythnos.

Gweithiodd y nosweithiau cystadlu'n dda, gan ddenu cynulleidfa newydd i wylio'r cystadlu, yn enwedig gyda pherfformiadau eraill yn ystod y nosweithiau. Bu'r sŵn o Lwyfan y Maes yn broblem, ond cafwyd cydweithio da rhwng y tîm cystadlaethau a rheolwyr Llwyfan y Maes, yn enwedig yn ystod ail hanner yr wythnos er mwyn ceisio cytuno ar gyfaddawd a oedd yn gweithio i bawb. Bydd yr arbrawf o gynnal cystadlaethau gyda'r hwyr yn parhau yn Wrecsam y flwyddyn nesaf.

Cafodd y gystadleuaeth côr newydd i'r Eisteddfod groeso brwd gyda 14 o gorau newydd yn cymryd rhan gydag amryw o'r dalgylch gan roi cyfle i dros 750 o unigolion berfformio mewn

côr ar lwyfan cenedlaethol am y tro cyntaf. Eto, bydd y gystadleuaeth yma'n parhau yn 2025. Mae cynnal rhagbrofion y gwahanol adrannau yn yr isbafiliynau perthnasol i'w crefft (Tŷ Gwerin, Encore a'r Babell Lên) yn y bore hefyd yn gweithio'n dda, ac eleni, cynhaliwyd y rhagbrofion cyffredinol yn y Muni yng nghanol y dref. Roedd niferoedd cystadlu eleni'n ardderchog ac mae gwaith eisoes ar droed i hyrwyddo cystadlaethau 2025 yn eang er mwyn denu cynifer o gystadleuwyr â phosibl.

Gwirfoddoli

Agorodd ein porth gwirfoddoli ym mis Mawrth eleni, a derbyniwyd dros 500 o geisiadau i stiwardio'n syth. Diolch i bawb ddaeth atom ni ym Mhontypridd eleni, ynghyd â phawb sy'n rhoi o'u hamser i weithio gyda ni ar draws pob maes yn ystod y flwyddyn.

Yn ôl amcangyfrifon gan gyrff sy'n cynnig grantiau, mae amser ein gwirfoddolwyr ni werth dros £0.120m yn ystod wythnos yr ŵyl yn unig. Wrth gwrs, mae eu gwerth i'r Eisteddfod ei hun yn llawer mwy na hyn gan na fyddai modd cynnal yr ŵyl na rhedeg ein prosiectau heb eu gwaith a'u cefnogaeth. Mae cyfraniad y rheini sy'n rhan o'n pwyllgorau amrywiol drwy gydol y prosiect yn ychwanegol at hyn.

Un o'n prosiectau gwaddol ni eleni oedd i gydweithio gyda grwpiau lleol er mwyn ceisio sicrhau bod rhai o'n gwirfoddolwyr lleol ni'n parhau i ddefnyddio'u Cymraeg i wirfoddoli gydag elusennau a grwpiau gwirfoddol eraill yn Rhondda Cynon Taf ar ddiwedd yr ŵyl.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r fenter iaith leol, Interlink, Strategaeth Bryncynon, Ymbweru Bro a'r cyngor sir ar brosiect gwaddol gwirfoddoli, gyda ffair wirfoddoli a digwyddiad arbennig i gyflwyno tystysgrifau a diolch i'n gwirfoddolwyr lleol ddiwedd Tachwedd eleni. Dyma'r tro cyntaf i ni gynnal digwyddiad fel hyn.

Rydyn ni hefyd wedi penodi Cydlynydd Gwirfoddoli i weithio gyda ni ar wahanol brosiectau am ddiwrnod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn. Rydyn ni'n edrych ar ddatblygu'r cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal ag edrych ar sut y gallwn ni ehangu apêl yr Eisteddfod i wirfoddolwyr ar bob lefel.

Rydyn ni eisoes yn trafod sut y gallwn ni ffurfioli'r berthynas gyda Chyngor Gwirfoddoli Cenedlaethol Cymru dros y misoedd nesaf ac mae nifer o gynlluniau eraill ar y gweill i adeiladu ar y gwaith gwaddol gwirfoddoli sydd wedi'i wneud yn ardal Rhondda Cynon Taf wrth symud ymlaen at 2025 a 2026.

Cymunedol

Dechreuodd y gwaith cymunedol yn gynharach na'r arfer yn ardal Rhondda Cynon Taf, diolch i grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, lle bu modd cyflogi swyddog cymunedol i weithio fel rhan o'r tîm am dair blynedd.

Cynhaliwyd dros ddeuddeg o brosiectau meicro-leol gan roi blas o'n hiaith a'n diwylliant yn enw'r Eisteddfod. Roedd yn bwysig ein bod ni'n creu prosiectau yn Rhondda, Cynon a Thaf, a bod yr Eisteddfod a threftadaeth a diwylliant lleol yn rhan bwysig o'r prosiectau.

Roedd rhai'n edrych yn ôl ar eisteddfodau'r gorffennol ac yn dysgu am yr hyn a fu yn ddiwylliannol ac yn yr ŵyl, ac eraill yn edrych ar yr Eisteddfod heddiw, ac yn creu cyfleoedd diwylliannol newydd ac i'r dyfodol.

Roedd hefyd yn bwysig ein bod ni'n gweithio gyda phobl o bob oed a phob cefndir, a phenderfynwyd canolbwyntio ar gynulleidfaoedd newydd ac anghyfarwydd i'r Eisteddfod yn ystod y prosiect. Hefyd, roedd gweithio gydag ysgolion yn amcan pwysig o'r prosiect, ond

roeddem yn awyddus i gamu y tu hwnt i ysgolion Cymraeg yn unig a chreu cyfleoedd i blant mewn ysgolion lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith addysgu'n allweddol.

Roedd hefyd yn bwysig i ni weithio gydag ysgolion mewn ardaloedd difreintiedig ac ysgolion nad ydynt yn derbyn llawer o gyfleoedd, fel ein bod ni'n mynd â'n hiaith a'n diwylliant - a'r Eisteddfod - allan i'r gymuned ac yn cyrraedd teuluoedd a chynulleidfaoedd newydd.

Braf yw nodi fod nifer fawr o'r rheini fu'n cydweithio gyda ni fel rhan o'r prosiect allymestyn wedi archebu stondinau yn yr Eisteddfod yn ystod yr wythnos, ac wedi dod yn rhan o'r gwaith o drefnu'r Eisteddfod ei hun, yn union fel yr oeddem ni wedi'i obeithio.

Un o'r prosiectau oedd grŵp Cwm Taf People First, grŵp o oedolion gydag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cyfarfod yn Ferndale yn y Rhondda. Cawsom gyfle i ymweld â hwy i sôn am yr Eisteddfod ac erbyn diwedd ein hymweliad, roedden nhw wedi penderfynu eu bod nhw eisiau cyfansoddi cân ar gyfer yr Eisteddfod gyda'u therapydd. Cafodd y gân ei chyfieithu i'r Gymraeg a ffilmiwyd y grŵp yn ei pherfformio, ac yna fe ddaethon nhw i'r Maes i ganu fel rhan o raglen Encore. Mae'r grŵp wedi cysylltu'n ôl gyda ni ers yr Eisteddfod yn dweud eu bod nhw wedi mwynhau'r profiad yn arw a'u bod nhw wrthi'n creu cân newydd, ac yn gofyn a oes modd iddyn nhw ddod i fyny i Wrecsam i'w perfformio y flwyddyn nesaf.

Dyma enghraifft o sut rydyn ni'n ymgysylltu ar lawr gwlad a sut mae'r Eisteddfod, ein hiaith a'n diwylliant yn gallu ysbrydoli pobl ar lefel meicro-leol.

Mae gadael gwaddol ar ddiwedd yr ŵyl yn rhan bwysig o'n cenadwri, ac eleni rydyn ni wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau, gan gynnwys y fenter iaith leol, Ymbweru Bro, y cyngor sir a Llywodraeth Cymru er mwyn gwneud hyn.

Un o'r prosiectau hyn yw Gwobrau Busnes Ardal yr Eisteddfod sy'n cael eu harwain gan y fenter, a fydd yn gwobrwyo'r busnesau yn Rhondda Cynon Taf a aeth ati i ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd newydd ac effeithiol yn y cyfnod hyd at, yn ystod ac ers yr Eisteddfod. Cyflwynir y gwobrau dros frecwast yn y Lido ddydd Iau 5 Rhagfyr.

Gwaddol arall a adawyd yn lleol oedd y murlun arbennig i ddathlu dyfodiad yr Eisteddfod ar dalcen cartref Evan a James James a gyfansoddodd ein hanthem genedlaethol. Roedd dathlu'r anthem yn rhan bwysig o weledigaeth yr wythnos, gyda premiere gwaith newydd gan Eilir Owen Griffiths yn cloi'r ŵyl ym Mhontypridd, ac mae cynlluniau ar waith i ail-berfformio'r gwaith hynod hwn yn Wrecsam y flwyddyn nesaf.

Unwaith eto eleni, comisiynwyd Tudur Phillips i greu sioe am yr Eisteddfod ar gyfer cyfnod pontio blwyddyn 6 a 7, gyda'r sioe yn cael ei chynnig i ysgolion Cymraeg a'r ysgolion lle nad yw'r Gymraeg yn brif iaith y dysgu.

Yn ogystal, anfonwyd pecyn o weithgareddau digidol i bob ysgol gynradd yn y sir ynghyd â gwahoddiad i fod yn rhan o gystadleuaeth arlunio arbennig. Denodd y gystadleuaeth bron i 300 o geisiadau a chafodd y gwaith buddugol ei osod ar baneli finyl yn ffenestri Llyfrgell Pontypridd yn y cyfnod cyn ac yn ystod yr ŵyl.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Yr Orsedd
Eleni oedd blwyddyn gyntaf yr Archdderwydd Mererid wrth y llyw, a chafodd groeso brwd yn yr Eisteddfod yn Rhondda Cynon Taf ynghyd ag yn ei seremoni gyntaf yn Cyhoeddi Eisteddfod Wrecsam fis Ebrill.

Yn anffodus, bu'n rhaid cynnal seremonïau urddo aelodau newydd o'r Orsedd yn y Pafiliwn eleni oherwydd tywydd anffafriol fore Llun a Gwener. Er hynny, gweithiodd y Pafiliwn yn arbennig o dda gyda digon o le i gynulleidfa fawr fwynhau'r ddwy seremoni.

Mae'r rhain yn seremonïau lliwgar sy'n apelgar i bawb, yn deuluoedd a ffrindiau'r rheini sy'n cael eu hurddo, yn ogystal ag ymwelwyr anghyfarwydd a newydd. Mae'r apêl yma'n cael ei golli drwy gynnal y seremoni y tu mewn, er ein bod yn gwerthfawrogi'r angen i wneud hyn os yw'r tywydd yn wael.

Tocynnau
Cyflwynwyd system waith ar-lein newydd yn ei chyfanrwydd eleni, a hynny ar ôl ei datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn wedi trawsnewid ein ffordd o weithio wrth baratoi ar gyfer yr ŵyl ei hun, gan fod popeth yn cael ei fwydo i mewn i un system ganolog.

Mae hyn yn cynnwys tocynnau noddwyr, perfformwyr ac artistiaid, a byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith o sicrhau fod y system hon a'n system docynnau'n gallu cysylltu 'i gilydd er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu.

Rydyn ni'n ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth er mwyn gallu darparu tocynnau ar gyfer teuluoedd ar incwm isel ar draws y dalgylch.

Rydyn ni hefyd yn cynnig talebau bwyd ar gyfer plant fel rhan o'r cynllun hwn, a weithiodd yn well nag erioed eleni. Braf oedd clywed am gymaint o'r teuluoedd yn mwynhau'r ŵyl ac yn dychwelyd yn nes ymlaen yn yr wythnos. Dyma gynllun pwysig sy'n ein galluogi ni i sicrhau fod yr Eisteddfod yn ŵyl i bawb.

Roedd y shifft rhwng prynu ar y giât ac ymlaen llaw yn amlwg i'w weld eleni, gyda chyfradd uwch nag erioed yn dewis prynu tocynnau ar-lein cyn cyrraedd y Maes. Roedd nifer fawr yn amlwg yn prynu wrth deithio ar y bws neu'r trên i'r Maes, a'r gobaith yw y bydd hyn yn parhau i dyfu ymhellach dros y blynyddoedd er mwyn hwyluso gwaith yr uned docynnau.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Adroddir ar ganlyniadau'r elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025 yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol ar dudalen 23. Mae'r ffigyrau cyfatebol ar gyfer 2024 yn adlewyrchu cyfnod ariannol o 15 mis, sef 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024. Cafodd y cam hwn i wneud y llynedd am nifer o resymau ymarferol, rheoleiddiol a strategol ac o hyn allan bydd yr adroddiadau blynyddol yn diweddu ar 31 Mawrth. O ganlyniad i'r newid hwn, nid oes modd cymharu'r symiau a gyflwynir yn y cyfrifon yn llwyr.

Derbyniwyd cyfanswm o £6.695m o incwm i mewn yn ystod y cyfnod i gymharu gyda £8.686m yn 2024 a gwariwyd cyfanswm o £6.503m (£7.729m yn 2024). Gan gynnwys hefyd y gostyngiad o £0.042m yng ngwerth y buddsoddiadau (cynnydd o £0.080m yn 2024), mae hyn yn gadael gweddill (cyn y lleihad yng ngwerth y cynllun pensiwn) ar ddiwedd y cyfnod o £0.150m (2024: Gweddill o £1.037m).

Ar 31 Mawrth 2025 roedd yr asedau net yn £8.380m (£9.070m yn 2024).

Cronfeydd

Mae'r Eisteddfod yn cadw cronfeydd ariannol mewn nifer o gategorïau:

Cronfeydd cyffredinol (anghyfyngedig) - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyfanswm y gronfa ar 31 Mawrth 2025 oedd £5.018m (2024 - £2.362m).

Cronfeydd Cyfyngedig - arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw. Cyfanswm y gronfa ar 31 Mawrth 2025 oedd £0.560m (2024: £1.039m).

Cronfeydd Penodol - yn cynrychioli incwm a dderbynnir ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol. Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd cyfanswm o £0.960m ar gyfer Eisteddfod Wrecsam 2025 a £0.046 tuag at Eisteddfod Y Garreg Las 2026. Yn ogystal rhyddhawyd swm o £0.610m yn ôl mewn perthynas ag arian a godwyd ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf cyn 2024. Dangosir y symudiadau i'r gronfa yn nodyn 16 o'r cyfrifon. Roedd cyfanswm y gronfa ar 31 Mawrth 2025 yn £1.007m (31 Mawrth 2024 - £0.610m).

Cronfeydd Gwaddol - cronfeydd sydd i'w cadw er budd yr elusen fel Cronfa Cyfalaf. Cyfanswm y gronfa yma ar 31 Mawrth 2025 oedd £1.795m (£1.769m ar 31 Mawrth 2024).

Cronfa Bensiwn – Ar 31 Mawrth 2024 roedd gwarged yn y gronfa bensiwn o £3.290m. Cafodd y cynllun pensiwn budd diffiniedig ei gau ar 31 Mai 2024, gan ryddhau'r gwarged ymadael, ar ôl prisiad actiwaraidd terfynol, o £2.45m i gronfeydd cyffredinol yr elusen.

Polisi Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddiffyg dros dro (e.e. colled mewn Eisteddfod benodol neu gynnydd anrhagweladwy yn y gwariant) fel y gall yr elusen parhau i weithredu ar unrhyw adeg.

Oherwydd natur ansicr nifer o ffynonellau incwm a gwariant, fel y gronfa leol, grantiau, nawdd, gwerthiant tocynnau a chostau ychwanegol o ran tywydd drwg, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar bolisi lle dylai'r cronfeydd anghyfyngedig fod yn werth 100% o leiaf o gyfanswm y gwariant (yn seiliedig ar gyfrifon eleni), sy'n cyfartalu i dua £6.5m mewn cronfeydd wrth gefn. Ar y lefel yma, teimlai'r ymddiriedolwyr y bydd yr elusen yn gallu parhau i weithredu mewn achos o ddiffyg sylweddol naill ai oherwydd amgylchiadau fel y pandemig Covid-19 neu fod un o wyliau'r Eisteddfod yn gwneud colled ariannol. Nid yw'r cronfeydd rhydd, llai yr Eiddo Parhaol, o £4.573m (2024: £1.887m) yn cyrraedd y nod ar hyn o bryd. Mae'r strategaeth yn parhau i gynyddu'r arian rhydd drwy greu gwarged blynyddol ar ei weithgareddau.

Arferion codi arian

Rydym yn ffodus ac yn hynod ddiolchgar am bob rhodd a chyfraniad ariannol, rhai a dderbynnir yn flynyddol ac eraill ar gyfer Eisteddfodau penodol. Mae'r ymddiriedolwyr, gan gynnwys swyddogion y pwyllgorau cyllid ar draws Cymru, yn ymdrechu bob amser i sicrhau y safonau uchaf, llywodraethu da ac adolygiad parhaus mewn perthynas â'n gweithgareddau codi arian.

Cronfeydd Lleol a Chyffredinol - Mae'r mwyafrif o'r rhoddion a dderbyniwyd gan yr elusen yn cael eu derbyn trwy bwyllgorau apêl leol i godi arian i'r Eisteddfod sydd yn ymweld â'u hardal. Hwn yw gyfraniad dalgylch yr Eisteddfod i'r gost o gynnal yr ŵyl ac yn arferol mae'r pwyllgorau apêl yn codi arian am gyfnod o ddwy i dair blynedd hyd at gynnal yr Eisteddfod. Mae'r derbyniadau yma'n cynnwys rhoddion gan unigolion i ddigwyddiadau codi arian cyffredinol.

Mae pob pwyllgor apêl newydd yn derbyn cyfarwyddiadau gweithredu gan yr elusen. Mae cynrychiolwyr o bob pwyllgor apêl yn cyfarfod yn rheolaidd i adrodd yn nôl i'r Pwyllgor Cyllid Canolog.

Mae swyddogion y pwyllgor cyllid hefyd yn sicrhau:

- Dim ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd unigolyn;
- Dim ymagweddau parhaus at ddiben cyfreithloni neu gaffael arian neu eiddo arall ar ran yr elusen;
- Bod neb yn rhoi pwysau gormodol ar rywun i roi arian neu eiddo arall.

Yn ystod 2024/25, derbyniwyd £0.305m (2024: £0.328m) ar gyfer y cronfeydd lleol a chyffredinol. Mae'r swm a godwyd yn flynyddol yn gallu amrywio gan ei fod yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae pwyllgorau'r apêl yn codi arian.

Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli derbyn arian o £0.158m yn y flwyddyn ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf a £0.148m a gasglwyd yn ystod y cyfnod tuag at Eisteddfodau Wrecsam 2025 ac Eisteddfod Y Garreg Las 2026.

Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys incwm o £0.860m a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod i Incwm o'r Ŵyl sydd yn cynrychioli gwerthiant tocynnau Maes B, stondinau, nawdd a cheisiadau maes carafanau a gwersylla gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025. Cyfrifwyd am yr incwm yma trwy'r Cronfeydd Penodol a dangosir y symudiadau yn nodyn 16.

Rhoddion trwy ewyllys – Derbyniwyd bedair rhodd eleni, gwerth cyfanswm o £0.299m, lle mae cefnogwr yr Eisteddfod wedi dewis rhoi rhodd yn eu ewyllys (2024: naw rhodd – gwerth £0.534m). Derbyniwyd hefyd un gymynrodd, gwerth £0.043m (2024: £0.233m) i'r Cronfeydd Gwaddol Parhaol lle bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi i'w ddefnyddio at ddiben penodol.

Ymgyrchoedd eraill - Ymgymerir â phob marchnata uniongyrchol arall gan staff yr Eisteddfod i sicrhau nad yw'n afresymol ymwthiol na pharhaus. Gwneir cyswllt trwy farchnata uniongyrchol *mailchimp* ar gyfartaledd tua unwaith y mis. Mae'r holl ddeunydd marchnata yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut y gellir tynnu person oddi ar restrau postio.

Nid yw'r Eisteddfod yn defnyddio unrhyw gorff proffesiynol i godi arian. Ni fu unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod am weithgaredd codi arian yr elusen.

Polisi Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu buddsoddi arian am y tymor hir mewn portffolio risg canolig – cyfuniad o stoc y llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi er mwyn cwrdd â gofynion am gynhyrchu incwm a thyfiant cyfalaf. Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Brewin Dolphin sydd yn buddsoddi cronfeydd yr Eisteddfod ar ei rhan. Caiff y cronfeydd hyn eu hadolygu'n gyson.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu na ddylid buddsoddi mewn cwmnïau sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu neu ddosbarthu arfau a thybaco. Roedd gwerth y buddsoddiadau hir dymor ar ddiwedd y cyfnod yn £4.395m o gymharu â £1.869m ar 31 Mawrth 2024.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad eu gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddi-dâl, o godi arian i stiwardio ar faes yr Eisteddfod . Nid ydym yn gallu rhoi gwerth ariannol ar yr holl waith yma ac felly, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

Rheoli risg

Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'w meysydd busnes, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol briodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus ac yn cofnodi risgiau materol yn y gofrestr risg.

Mae'r Panel Archwilio a'r Bwrdd Rheoli yn arolygu'r gofrestr risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau yn cynnwys parhad yr Eisteddfod, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd.

Rhagdybiaeth Busnes Byw

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr Elusen mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd a bod disgwyliad rhesymol gan yr Eisteddfod bod yr adnoddau yn ddigonol i barhau i weithredu'n hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail busnes sy'n fyw wrth baratoi'r cyfrifon.

GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Enw'r elusen:	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Cyfansoddiad:	Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif yr elusen:	1155539
Swyddfa gofrestredig:	40 Parc Tŷ Glas Llanisien Caerdydd CF14 5DU
Bwrdd Rheoli ac Ymddiriedolwyr:	Nic Parry (Llywydd y Llys – Penodwyd ar 07/08/2025) Gethin Thomas (Cadeirydd y Cyngor) Heulwen Jones (Is-gadeirydd y Cyngor) Gwenno Williams (Trysorydd) Christine James (Gorsedd y Beirdd) Llinos Roberts (Cadeirydd 2025 – Penodwyd 17/05/2025) John Davies (Cadeirydd 2026 – Penodwyd 17/05/2025) Aled Walters Aneurin Brown Darran Phillips (Penodwyd ar 30/01/2025) Deian Rhys Elin Jones Michael Strain Trystan Lewis Ashok Ahir (Hyd at 07/08/2025) Elin Haf Gruffydd Jones (Hyd at 07/08/2025) Gwerfyl Pierce Jones (Hyd at 07/08/2024) Heledd Bebb (Hyd at 07/08/2024) Helen Prosser (Hyd at 07/08/2025) Rhian Huws Williams (Hyd at 07/08/2024)
Ysgrifennydd	Catrin Jones
Prif Weithredwr:	Betsan Moses
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo SA19 6AH
Bancwyr:	HSBC 56 Heol y Frenhines Caerdydd CF10 9NA
Brocer Buddsoddiadau:	Brewin Dolphin 5 Sgwâr Callaghan Caerdydd CF10 5BT
Cyfreithwr Mygedol:	Aled Walters

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Cyfansoddiad

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau ar 29 Ionawr 2014. Trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau *Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru* (rhif elusen 219171) i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig ar 1af Ionawr 2015. Mae'r elusen newydd yma'n weithredol o'r dyddiad hwn.

Y Llys

Mae'r Llys yn cynnwys holl aelodau'r Elusen, gyda holl hawliau arferol i'w gweithredu trwy Gyfarfodydd Cyffredinol. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) yr hawl i benodi ac i ddiswyddo Swyddogion, Ymddiriedolwyr, ac aelodau'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, Rheolau Sefydlog yr elusen ac yn unol â Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llys, mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn ystyried ac yna'n derbyn neu wrthod adroddiadau'r Ymddiriedolwyr, y Cyngor a Bwrdd yr Orsedd, ac mae'r hawl gan y Llys i sicrhau fod yr amcanion a'r ymrwymiadau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn unol â dymuniad y Llys ac yn unol â'r Ddeddf. Mae'r Prif Weithredwr llawn amser yn rheoli gweithgareddau'r elusen gyda chymorth aelodau staff. Mae aelodaeth o'r Llys yn agored i bawb.

Y Cyngor

Swyddogaeth y Cyngor ydi gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol sydd yn cymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod. Mae'r Cyngor yn cynnwys 36 aelod ynghyd a'r Cymrodyr a Chyn-Lywyddion– caiff 24 o aelodau eu hethol gan y Llys, 6 gan yr Ymddiriedolwyr, a hawl gan y Cyngor i gyfethol hyd at 6 aelod. Rhaid i aelodau o'r Cyngor a'r Bwrdd Rheoli fod yn aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn cynnal o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn.

Mae gan y Cyngor ddau bwyllgor, sef

1. Pwyllgor Archwilio;
2. Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg – i arolygu ac adrodd ar weithredu'r Rheol Gymraeg ym mhob Gŵyl.

Bwrdd Rheoli/Ymddiriedolwyr

Y Bwrdd Rheoli sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel ymddiriedolwyr. Disgwylir i Brif Weithredwr a phrif staff yr elusen fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ond heb hawl pleidleisio gan nad ydynt yn ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf wyth gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn cyflawni gwaith yr elusen sefydlwyd y Pwyllgorau a ganlyn:

Pwyllgor Llywio/Pwyllgor Gwaith ar gyfer pob Gŵyl.

Pwyllgor Diwylliannol – i gydlynu gwaith panelau sefydlog i gynnig cyngor arbenigol ar feysydd cystadleuol penodol ac i gymryd cyfrifoldeb am y rhestr gystadlaethau.

Pwyllgor Technegol – i gynnig cyngor arbenigol am y maes, adeiladau, trafnidiaeth, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r Ŵyl.

Pwyllgor Marchnata – i gynnig cyngor arbenigol ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod a'r Ŵyl.

Pwyllgor Adnoddau Dynol – i gynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â staffio a chyflogau.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Pwyllgor Cynhwysedd ac Amrywiaeth – i edrych ar holl weithdrefnau a gweithgareddau'r Eisteddfod i sicrhau eu bod yn agored a chynhwysol.

Pwyllgor Artistig - i gynnig cyngor arbenigol ar raglenni hwyr; a phrosiectau artistig mawr.

Panel Enwebu – i argymell enwau Ymddiriedolwyr, aelodau'r Cyngor ac aelodau Pwyllgorau a phanelau sefydlog er mwyn cyflawni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo – i gwrdd yn ôl yr angen i ystyried unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbynnir am Swyddogion yr elusen a chwynion am Ymddiriedolwyr yr elusen a'r staff.

Penodi Ymddiriedolwyr

Mae cymalau 12 ac 13 o'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer penodi/ethol ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

1. Penodir tri ymddiriedolwr yn rhinwedd eu swyddi, sef:
   Llywydd y Llys; Cadeirydd y Cyngor; Is-gadeirydd y Cyngor.
2. Dim llai na phedwar na mwy nag wyth ymddiriedolwr enwebedig wedi eu henwebu fel a ganlyn:
   (i) Bwrdd yr Orsedd (1);
   (ii) Pwyllgorau Gwaith y tair eisteddfod gyfredol (3);
   (iii) Cyngor (4).
3. Dim llai na phedwar na mwy na chwe ymddiriedolwr etholedig i'w hethol gan y Llys gyda'r hawl i'r ymddiriedolwyr benodi i lenwi bylchau hyd y cyfarfod nesaf o'r Llys;
4. Dim mwy na dau ymddiriedolwr wedi eu cyfethol gan yr ymddiriedolwyr eraill.

Bwriedir sicrhau y bydd ystod eang o sgiliau a phrofiad o fewn y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys sgiliau a phrofiad diwylliannol, marchnata, technegol, busnes, ariannol, cyfreithiol a rheolaeth, ynghyd â phrofiad blaenorol o waith Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr allu cyfathrebu'n rhugl drwy'r Iaith Gymraeg;

Bwriedir hefyd geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws yr holl Ymddiriedolwyr o safbwynt rhyw, oedran a chysylltiadau lleol;

Hyfforddiant ac anwytho Ymddiriedolwyr

Mae gan yr holl Ymddiriedolwyr presennol gysylltiad hir gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Maent yn cael cynnig derbyn gwybodaeth am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Pe bai ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi fe fyddai hynny'n golygu y byddant yn cael hyfforddiant ar weithdrefnau a pholisïau'r Eisteddfod. Byddai asesiad yn cael ei wneud o'r anghenion hyfforddi, gyda darpariaeth ar gyfer hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o sefyllfa'r elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, sy'n cynnwys FRS 102, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ag eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw cyfanrwydd yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Rheoli. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gynorthwyo gan grŵp o uwch reolwyr sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli.

Betsan Moses (Prif Weithredwr)
Elen Elis (Cyfarwyddwr Artistig)
Gwenllïan Carr (Cyfarwyddwr Strategol)
Peter Davies (Cyfarwyddwr Cyllid)

Caiff tâl uwch reolwyr ei bennu gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, gyda'r Pwyllgor Staffio yn darparu'r adolygiad manwl a'r argymhellion. Mae'r Pwyllgor yn asesu lefelau cyflog gan ddefnyddio data meincnodi perthnasol a chyfrifoldebau pob rôl er mwyn sicrhau tegwch, tryloywder a llywodraethu priodol.

Polisi cyflogi

Mae'r Eisteddfod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu llawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

Cydnabyddiaeth

Mae pob ymddiriedolwr yn rhoi o'u hamser am ddim. Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y cyfnod.

CYNLLUNIAU'R DYFODOL

Daw ein strategaeth i ben yn 2025, ac rydym wrthi'n cynnal sgyrsiau, sy'n gyfle i wyntyllu popeth, i edrych yn fanylach ar ein blaenoriaethau strategol.


Gyda'r byd wedi newid yn sylweddol ers cyfnod datblygu'r strategaeth bresennol, a ninnau yn dod at ddiwedd cyfnod y strategaeth, mae'n amserol ein bod yn cychwyn ar y broses o ymgysylltu gyda'n rhanddeiliaid a'n cymunedau er mwyn gwrando ar eu barn, cynnal trafodaeth agored ac adnabod blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Mae'n hollbwysig ein bod yn taflu'r rhwyd yn eang –gan glywed wrth ein partneriaid, ein cefnogwyr a'r rheini sydd eto i'w denu atom.

Blaenoriaethau Strategol yr Eisteddfod

- Codi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod fel prif ŵyl ddiwylliannol Cymru, adref ac yn rhyngwladol;
- Hyrwyddo'r Gymraeg, yn enwedig ymysg pobl ifanc a siaradwyr Cymraeg newydd;
- Dyfnhau ymrwymiad yr Eisteddfod i gymunedau Cymru;
- Cryfhau gwytnwch yr Eisteddfod yn ariannol a gweithredol;
- Cydweithio'n agos â phartneriaid er mwyn lledaenu cyfoeth ieithyddol a diwylliannol Cymru;
- Creu Eisteddfod sydd yn hygyrch ac yn groesawus i bobl o bob oed a chymuned;
- Anrhydeddu ein cyfrifoldeb i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu a'n cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ran yr ymddiriedolwyr



Gethin Thomas
Ymddiriedolwr (Cadeirydd y Cyngor)

23 Rhagfyr 2025

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Barn
Archwiliwyd cyfrifon Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2025; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol yr elusen ar 31 Mawrth 2025 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 8 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

Sail y farn
Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Fe wnaethom aros yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol
Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall
Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i cam-ddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rhwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ni ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- bod y wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod yr elusen heb gadw cofnodion cyfrifo derbyniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol: neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol i gyflawni ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.
Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Yn ogystal â'r uchod, roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys:

- holi rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch achosion cyfreithiol a hawliadau gwirioneddol a photensial;
- perfformio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw gysylltiadau anarferol neu annisgwyl a gallai ddangos risg o gamddatganiad sylweddol oherwydd twyll;
- adolygiad o gofnodion cyfarfodydd bwrdd yr ymddiriedolwyr a phwyllgorau gwaith lle bo'n berthnasol;
- sylwadau ysgrifenedig.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff yn unol a Rhan 4 o'r Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
SA19 6AH

Dyddiad: 23/12/2025

DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL (GAN GYNNWYS CYFRIF INCWM A GWARIANT) AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

		2025				2024			
		Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**
	Nodyn	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
INCWM									
Rhoddion a chymynroddion:	2	834	-	43	877	1,226	-	233	1,459
Gweithgareddau elusennol:									
Grantiau	3	-	1,130	-	1,130	-	1,847	-	1,847
Gŵyl yr Eisteddfod	5	4,566	-	-	4,566	5,272	-	-	5,272
Gweithgareddau masnachu	6	12	-	-	12	14	-	-	14
Incwm o fuddsoddiadau	7	81	-	29	110	36	-	58	94
Cyfanswm incwm		**5,493**	**1,130**	**72**	**6,695**	**6,548**	**1,847**	**291**	**8,686**
GWARIANT									
Gweithgraeddau codi arian	8	21	-	-	21	22	-	-	22
Gweithgareddau elusennol:									
Gŵyl yr Eisteddfod	8	4,844	1,609	29	6,482	5,919	1,788	-	7,707
Cyfanswm gwariant		**4,865**	**1,609**	**29**	**6,503**	**5,941**	**1,788**	**-**	**7,729**
Enillion/(Colledion) ar fuddsoddiadau		**(25)**	-	**(17)**	**(42)**	-	-	**80**	**80**
Incwm/Gwariant Net		**603**	**(479)**	**26**	**150**	**607**	**59**	**371**	**1,037**
Enillion cydnabyddedig eraill									
(Lleihad) / Cynnydd yn y cynllun pensiwn budd-diffiniedig		(840)	-	-	(840)	800	-	-	800
Symudiad net yn y cronfeydd		**(237)**	**(479)**	**26**	**(690)**	**1,407**	**59**	**371**	**1,837**
Cysoni'r Cronfeydd									
Balansau ddygwyd ymlaen 1 Ebrill		6,262	1,039	1,769	9,070	4,855	980	1,398	7,233
Balansau gariwyd ymlaen 31 Mawrth		**6,025**	**560**	**1,795**	**8,380**	**6,262**	**1,039**	**1,769**	**9,070**

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2025

	Nodyn	2025 £ 000	2024 £ 000
Asedau sefydlog			
Asedau anniriaethol	10	8	20
Eiddo parhaol	10	1,005	1,115
Buddsoddiadau	11	4,395	1,869
		5,408	3,004
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	12	1,002	1,022
Buddsoddiadau tymor byr	11	1,731	1,770
Banc		417	171
		3,150	2,963
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	13	(178)	(187)
Asedau cyfredol net		2,972	2,776
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		8,380	5,780
Cynllun pensiwn budd-diffiniedig		-	3,290
Asedau net		**8,380**	**9,070**
Cronfeydd Cadw			
Cronfeydd gwaddol		1,795	1,769
Cronfeydd cyffredinol		5,018	2,362
Cronfeydd penodol	16	1,007	610
Cronfeydd cyfyngedig	17	560	1,039
Cronfa bensiwn budd-diffiniedig		-	3,290
Cyfanswm Cronfeydd		**8,380**	**9,070**

Cymeradwywyd gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ar 23 Rhagfyr 2025 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:



Gwenno Williams
Trysorydd

DATGANIAD O'R LLIF ARIAN
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

	2025 £ 000	2024 £ 000
Llif arian o Weithgareddau Gweithredol	237	1,190
Llif arian o Weithgareddau buddsoddi		
Llog a dderbynnir	110	94
Taliadau am eiddo parhaol	(22)	(86)
Derbyniadau trwy werthu buddsoddiadau	739	387
Cau'r Cynllun pensiwn budd diffiniedig	2,450	-
Taliadau am fuddsoddiadau parhaol newydd	(3,307)	(597)
Symudiadau buddsoddiadau COIF Cadw ac arian buddsoddi	480	-
Mewnlif net ariannol o weithgareddau buddsoddi	687	988
Arian a chyfwerthoedd arian ar 1 Ebrill	**2,421**	**1,433**
Arian a chyfwerthoedd arian ar 31 Mawrth	**3,108**	**2,421**

Cysoniad y llif arian a'r symudiad mewn gweithgareddau gweithredol

	2025 £ 000	2024 £ 000
Incwm net	150	1,037
Dibrisiad asedau diriaethol	132	168
Amorteiddiad asedau anniriaethol	12	15
Colledion/(enillion) ar fuddsoddiadau	42	(80)
Llog a dderbynnir	(110)	(94)
Lleihad mewn dyledwyr cyfredol	20	264
Lleihad mewn credydwyr cyfredol	(9)	(120)
Mewnlif net ariannol o weithgareddau gweithredol	237	1,190

Dadansoddiad o arian a chyfwerthoedd arian

	2025 £ 000	2024 £ 000
Buddsoddiadau - COIF Cadw ac arian buddsoddi	960	480
Buddsoddiadau tymor byr - Cyfrif banc	1,731	1,770
Banc	417	171
Cyfanswm arian a chyfwerthoedd arian	**3,108**	**2,421**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

1. Polisïau Cyfrifo

a. Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2019) a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig fel y mae'n berthnasol o 1 Ionawr 2015.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Mae'r Asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod ar gost hanesyddol neu eu gwerth trafodiad oni nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifyddu(au) perthnasol.

b. Incwm

Cydnabyddir incwm pan fydd gan yr elusen yr hawl i dderbyn yr arian a bod unrhyw amod ynghlwm wrth yr eitem neu eitemau o incwm wedi cael eu bodloni, ac yn debygol y bydd yr incwm yn cael eu derbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy.
Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

Cydnabyddir incwm ewyllys a chymynroddion pan fydd gan yr elusen yr hawl i'r incwm, mae derbyn yr arian yn debygol a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Lle mae cymynroddion wedi eu hysbysu i'r elusen, neu mae'r elusen yn ymwybodol o'r profiant, a'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi heb gael eu bodloni, yna mae'r gymynrodd yn cael ei thrin fel ased wrth gefn a ddatgelir os yn berthnasol.

c. Llogau a dderbynnir

Mae llog ar gyfrifon cadw yn cael ei gynnwys pan gaiff ei dderbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy gan yr elusen; mae hyn fel arfer ar hysbysiad am y llog a delir neu yn daladwy gan y banc.

ch. Cronfeydd

Cronfeydd cyffredinol (anghyfyngedig) - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cronfeydd cyfyngedig yw'r arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw.

Mae'r cronfeydd penodol yn cynrychioli incwm anghyfyngedig lle mae'r ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn, wedi ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio at ddiben penodol.

Mae'r cronfeydd gwaddol yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr wedi nodi eu bod yn cael eu defnyddio yn unig ar gyfer pwrpas penodol o waith yr elusen neu ar gyfer prosiectau artistig penodol a wneir gan yr elusen.

d. Gwariant a TAW na ellir ei adennill

Mae gwariant yn cael ei gydnabod unwaith mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, ac yn debygol y bydd setliad yn ofynnol a swm y rhwymedigaeth yn cael ei fesur yn ddibynadwy. Mae'r gwariant wedi'i ddosbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Costau codi arian yn cynnwys costau masnachu masnachol ar gyfer loteri'r Eisteddfod.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau o berfformiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol eraill a wnaed i hyrwyddo dibenion yr elusen a'u costau cymorth cysylltiedig.
- Mae gwariant yn cael ei gyfrif ar sail groniadau ac mae'n cynnwys TAW na ellir ei adfer.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli eitemau hynny nad ydynt yn dod i mewn i unrhyw bennawd arall.

dd. Dyrannu costau cefnogi

Costau cynnal yw'r costau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nid ydynt yn uniongyrchol yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol. Maent yn cynnwys costau swyddfa, cyllid, personél, cyflogau a llywodraethu sy'n cefnogi gwaith yr elusen. Mae'r costau hyn wedi cael eu dyrannu o dan gweithgareddau elusennol.

e. Prydlesi gweithredol

Prydlesi gweithredol yw offer lle mae'r teitl i'r offer yn parhau gyda'r prydleswr. Mae taliadau rhent yn cael eu cyflwyno i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

f. Asedau treftadaeth

Cofnodir asedau treftadaeth yn ôl y gost wreiddiol. Gan fod asedau treftadaeth yr elusen wedi eu cynnal dros gyfnod o gan mlynedd a mwy mae'r gost wreiddiol yn rhy fach i gofnodi yn y Fantolen.

ff. Asedau anniriaethol

Mae'r Eisteddfod yn cyfrifo am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol. Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost hanesyddol. Mae'r asedau yma'n cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol droes eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig o bum mlynedd.

g. Asedau parhaol

Polisi'r Eisteddfod yw cofnodi asedau sefydlog ar y gost wreiddiol hyd yma, llai'r dibrisiant a grynhowyd.

ng. Dibrisiant

Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Moduron, dodrefn ac offer swyddfa	-	20%
Adeiladau parhaol	-	2%
Adeiladau ac eiddo arall	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cyffredinol)	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cylch yr Orsedd symudol)	-	Dim

h. Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad. Mae hyn yn golygu cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fydd buddsoddiadau yn cael eu gwerthu nid oed enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Cydnabuwyd unrhyw enillion neu golled yn eu gwerth yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

i. Stoc

Mae stoc yn cael ei gynnwys ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth gwireddadwy net.

j. Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod ar y swm sy'n ddyledus ar ôl setlo unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Mae rhagdaliadau wedi eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw, net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

l. Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif.

ll. Credydwyr

Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti ac mae'r swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei fesur neu amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, mae credydwyr ac unrhyw ddarpariaethau eraill yn cael eu cydnabod fel y swm setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau dyledus.

m. Tanysgrifiadau am Oes

Trosglwyddir tanysgrifiadau aelodau newydd y Llys, sy'n dymuno ymaelodi am oes, sef £100, i gyfrif Tanysgrifiadau am Oes yn y credydwyr. Rhyddheir un rhan o ddeg pob blwyddyn i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

n. Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod ar werth trafodiad ac wedyn mesur ar eu gwerth anheddiad.

o. Costau pensiwn budd diffiniedig

Yn ystod 2023/2024 trafododd yr elusen delerau gyda chynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro i adael y cynllun hwn ar 31 Mai 2024. Mae hyn wedi arwain at warged ymadael o £2.45m i'r elusen a dderbyniwyd ar 2 Rhagfyr 2024.

p. Costau pensiwn cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Eisteddfod hefyd wedi trefnu cynllun pensiwn gyda chyfraniadau wedi'u diffinio. Mae cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn gynllun pensiwn lle mae'r Eisteddfod yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Rheolwyd y cynllun yn annibynnol ac mae'r elusen yn cyfrannu 6% o gyflog pensiynadwy. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw'r Eisteddfod dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol. Mae'r symiau nas talwyd i'w gweld yn credydwyr eraill, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

p. Costau pensiwn cyfraniadau diffiniedig (parhad)

Cafwyd tâl pensiwn o £0.135m ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Mawrth 2025 (cyfnod 1 Ionawr o 31 Mawrth 2024 - £0.018m).

ph. Treth

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac felly, nid yw'n gorfod talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

r. Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn derbyn cymorth gwerthfawr gan wirfoddolwyr, sydd yn cefnogi gweithgareddau yr Eisteddfod, e.e., cynnal digwyddiadau a chodi arian, stiwardio a gwaith gweinyddol. Nid yw gwerth ariannol y cymorth hwn wedi'i gofnodi yn y cyfrifon.

2. Rhoddion

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	2025 £ 000	2024 £ 000
Y Cronfeydd Lleol a Chyffredinol	158	148	-	305	328
Ymddiriedolaeth Edwin Griffiths, UDA	247	-	-	247	337
Rhoddion trwy ewyllys	256	-	43	299	767
Rhoddion gan sefydliadau eraill	20	-	-	20	20
Tanysgrifiadau aelodaeth	5	-	-	5	7
	686	148	43	**877**	**1,459**

3. Grantiau

Mae'r grantiau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2025 £ 000	2024 £ 000
Llywodraeth Cymru - Grant craidd 2024/25	-	1,000	1,000	1,000
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	99	99	168
Grantiau eraill	-	31	31	28
Llywodraeth Cymru - Cynllun fforddiadwy 2024	-	-	-	350
Llywodraeth Cymru - Isadeiledd 2023	-	-	-	150
Stonewall	-	-	-	65
Llywodraeth Cymru - Dydd Miwsig Cymru 2024	-	-	-	44
British Council Cymru	-	-	-	22
Llywodraeth Cymru - Dydd Miwsig Cymru 2023	-	-	-	20
Cyfanswm y grantiau	-	**1,130**	**1,130**	**1,847**

4. Cymynroddion gwaddol parhaol

Derbyniwyd un gymynrodd yn ystod 2024/25:	2025	2024
	£ 000	£ 000
Cronfa Ysgoloriaeth Eira Francis Davies	43	200
Cronfa John Harry, Pontarddulais	-	28
Tlws Coffa Leah Owen	-	5
Cyfanswm	**43**	**233**

5. Gweithgareddau elusennol:

Gŵyl yr Eisteddfod:	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2025 £ 000	2024 £ 000
Incwm o'r Ŵyl	2,323	216	-	2,539	2,697
Incwm o'r Maes	710	340	-	1,050	1,375
Awdurdodau a chynghorau Lleol	404	-	-	404	404
Cynlluniau nawdd	218	15	-	233	244
Incwm arall ar weithgareddau elusennol	27	-	-	27	63
Maes Carafanau	24	289	-	313	489
Cyfanswm	3,706	860	-	**4,566**	**5,272**

6. Gweithgareddau masnachu

	2025	2024
	£ 000	£ 000
Cynllun loteri	**12**	**14**

7. Incwm o fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	2025	2024
	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
Llog y buddsoddiadau	43	29	72	70
Llog buddsoddiadau byr	38	-	38	24
	82	29	**110**	**94**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

8. Gwariant

	Gwariant Uniongyrchol £ 000	Costau Cynnal £ 000	2025 £ 000	2024 £ 000
Gweithgareddau codi arian				
Cynllun loteri	11	-	11	12
Ffi broceriaid buddsoddiadau	9	-	9	10
Cyfanswm	21	-	21	22
Gweithgareddau elusennol				
Gŵyl yr Eisteddfod	5,911	572	6,483	7,707
Cyfanswm	5,931	572	**6,503**	**7,729**

Dadansoddiad o'r costau cynnal		
Rheolaeth (Swyddfa a gwasanaethau TG)	316	288
Dibrisiad adnoddau	132	168
Costau cyllid	51	106
Llywodraethu	72	90
Cyfanswm	572	652

Mae'r costau llywodraethu yn cynnwys tâl i'r archwiliwyr am wasanaethau archwilio cyfrifon 2025 o £9,875 (2024: £9,500).

9. Costau staff

Mae costau staff yn cynnwys cyflogau, cyfraniadau i'r cynllun pensiwn, yswiriant cenedlaethol a buddion eraill.

	2025 £ 000	2023/24 £ 000
Cyflogau gros (gan gynnwys gwerth trethadwy nwyddau mewn da)	515	611
Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y cyflogwr	48	61
Cost pensiwn y cyflogwr	175	134
	738	806

Ar gyfartaledd, cyflogwyd 13 aelod o staff craidd llawn amser (2023/24 - 12) yn ystod y flwyddyn.

Personél Rheoli Allweddol

Y personél rheoli allweddol yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ymddiriedolwyr ynghyd â'r Tîm Rheoli sydd yn gweithredu trwy'r Bwrdd Rheoli.

Mae aelodau'r Tîm Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Artistig, Cyfarwyddwr Strategol a'r Cyfawyddwr Cyllid. Cyfanswm y tâl gros a buddion i weithwyr y personél rheoli allweddol oedd £386,184 - 4 aelod. (2024: am y cyfnod o 15 mis £435,125 - 4 aelod).

Nifer o gyflogeion yr oedd eu taliadau, yn cynnwys gwerth trethadwy nwyddau mewn da ond heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o fewn yr ystodau canlynol:

	2025	2024
£90,000 - £99,000	-	1
£80,000 - £89,000	-	-
£70,000 - £79,000	1	2
£60,000 - £69,000	1	1

Ymddiriedolwyr

Ni chafodd yr ymddiriedolwr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn (2023/24: £ dim).

Cafodd treuliau gwerth £709 eu had-dalu i ddau ymddiriedolwr (2023/24: £45) am gostau teithio ac i ad-dalu costau wrth gyflawni eu dyletswyddau.

10. Eiddo parhaol

Asedau treftadaeth

Gan nad oes cost ar gyfer regalia'r Orsedd (sydd yn cynnwys y Cleddyf Mawr a'r Corn Hirlas) nid ydym yn cynnwys yr eitemau hyn fel eiddo. Amcangyfrif gwerth ariannol y regalia ar gyfer pwrpas yswiriant yw £222,000 (Mehefin 2016).

Asedau anniriaethol	Gwefan £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost		
1 Ebrill 2024	68	68
Ychwanegiadau	-	-
Gwarediadau	-	-
31 Mawrth 2025	68	68
Amorteiddiad		
1 Ebrill 2024	48	48
Cost am y flwyddyn	12	12
Gwarediadau	-	-
31 Mawrth 2025	60	60
Gwerth net yr asedau		
31 Mawrth 2025	**8**	**8**
31 Mawrth 2024	20	20

Asedau parhaol	Adeiladau Parhaol £ 000	Adeiladau Eraill £ 000	Peiriannau/ Offer Maes £ 000	Dodrefn Llwyfan £ 000	Dodrefn Swyddfa £ 000	Eiddo i'r Orsedd £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost							
1 Ebrill 2024	570	1,023	863	30	130	33	2,649
Ychwanegiadau	4	-	13	-	5	-	22
Gwarediadau	-	(17)	-	-	(20)	-	(37)
31 Mawrth 2025	574	1,006	876	30	115	33	2,634
Dibrisiad							
1 Ebrill 2024	307	254	839	22	103	9	1,534
Cost am y flwyddyn	11	101	9	2	9	-	132
Gwarediadau	-	(17)	-	-	(20)	-	(37)
31 Mawrth 2025	318	338	848	24	92	9	1,629
Gwerth net yr eiddo							
31 Mawrth 2025	**256**	**668**	**28**	**6**	**22**	**24**	**1,005**
31 Mawrth 2024	263	769	24	8	27	24	1,115

Mae adeiladau parhaol yr elusen yn cael eu dal yn enw'r ymddiriedolwyr ar ran yr elusen. Er bod y teitl yn gyfreithiol yn nwylo'r ymddiriedolwyr, dim ond at ddibenion elusennol y sefydliad y cedwir yr asedau. Yr elusen yw perchennog buddiol yr eiddo hyn, ac maent wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn unol â hynny.

11. Buddsoddiadau

Dewiswyd y buddsoddiadau i gwrdd â gofynion yr Eisteddfod am logau sylweddol, diogelwch cyfalaf, a'r rhwyddineb i droi rhai ohonynt yn arian yn ôl gofynion y llif arian.

Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	Gwerth y Farchnad 31.03.25 Cyfanswm £ 000	Gwerth y Farchnad 31.03.24 Cyfanswm £ 000	Y Gost 31.03.25 Cyfanswm £ 000	Llog 2024/25 £ 000
CCLA						
Cyfrif Cadw COIF	863	87	950	472	950	29
Cronfa Fuddsoddi Foesegol COIF	-	500	500	-	500	-
Llog Sefydlog	465	323	788	362	806	16
Cyfranddaliadau	1,041	724	1,765	856	1,741	22
Nwyddau	64	44	108	38	84	-
Eiddo	88	61	150	60	154	2
Buddsoddiadau eraill	73	51	124	73	142	4
Arian ar gyfer dibenion buddsoddi	6	4	10	8	20	-
Cyfanswm Buddsoddiadau parhaol	2,601	1,795	**4,395**	1,869	4,397	73
Buddsoddiadau Tymor Byr	1,731	-	**1,731**	1,770	1,731	37
Cyfanswm Buddsoddiadau	4,331	1,795	6,126	3,639	6,128	110

Mae'r arian yng ngyfrif COIF Cadw yn arian hylifol iawn ar gyfer buddsoddi yn y tymor hwy.

Mae'r arian a gynhwysir fel Buddsoddiadau Tymor Byr yn cynrychioli'r arian a dderbyniwyd i'w ddefnyddio ar gyfer yr Eisteddfodau a gynhelir yn y dyfodol agos.

Symudiadau yn y Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cyfanswm £ 000
Gwerth y Farchnad - 31 Mawrth 2024	1,869
Gwerthu buddsoddiadau (Gwerth y farchnad)	(739)
Prynu buddsoddiadau newydd (Cost)	3,307
Colledion ar fuddsoddiadau	(42)
Gwerth y Farchnad - 31 Mawrth 2025	**4,395**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

12. Dyledwyr

	2025	2024
	£ 000	£ 000
Dyledwyr - Masnachol	755	341
Dyledwyr - Eraill	16	10
Ad-daliad Treth Incwm a TAW	2	483
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	229	188
	1,002	1,022

Mae'r Rhagdaliadau ac incwm cronedig uchod yn cynnwys gwariant o £191,241 ar gyfer blaendaliadau am wasanaethau i Eisteddfod Wrecsam 2025 ac £8,883 ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las 2026 (2024 - £144,902 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol RCT 2024).

13. Credydwyr: Dyledus mewn llai na blwyddyn

	2025	2024
	£ 000	£ 000
Credydwyr Masnachol	120	115
Credydwyr eraill	39	43
Croniadau	9	18
Tanysgrifiadau am Oes	10	11
	178	187

14. Dadansoddiad o'r Asedau net

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	2025	2024
	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
Eiddo anniriaethol	8	-	-	8	20
Eiddo Parhaol	445	560	-	1,005	1,115
Buddsoddiadau	2,600	-	1,795	4,395	1,869
Asedau cyfredol	3,150	-	-	3,150	2,963
Credydwyr cyfredol	(178)	-	-	(178)	(187)
Cynllun pensiwn	-	-	-	-	3,290
	6,025	560	1,795	8,380	9,070

15. Cytundebau prydles

Dadansoddiad o'r rhent sydd i'w dalu o dan gytundebau prydles am y ceir swyddogol:

	2025	2024
Y cytundeb yn dod i ben:	£ 000	£ 000
Mewn llai na blwyddyn	4	4
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	-
Rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
	4	4

Mae taliadau rhentu wedi'u cynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

16. Symudiadau yn y Cronfeydd Penodol

	2024/25 £ 000	£ 000
Balans 1 Ebrill 2024		610
(Rhyddhau incwm) / incwm a dderbyniwyd ar gyfer yr Eisteddfod gyfredol:		
Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024		
Cronfeydd lleol a chyffredinol	(129)	
Incwm o'r Ŵyl	(78)	
Incwm o'r Maes	(276)	
Awdurdodau a Chynghorau lleol	(1)	
Nawdd	(33)	
Meysydd Carafanau a Gwersylla	(94)	(610)
Incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol:		
Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025		
Cronfeydd lleol a chyffredinol	101	
Incwm o'r Ŵyl	216	
Incwm o'r Maes	340	
Nawdd	15	
Meysydd Carafanau a Gwersylla	289	961
Eisteddfod Genedlaethol Y Garreg Las 2026		
Cronfeydd lleol a chyffredinol	46	46
Balans 31 Mawrth 2025		**1,007**

17. Symudiadau yn y Cronfeydd Cyfyngedig

	01.04.24 £ 000	Derbyniwyd £ 000	Gwariwyd £ 000	Arall £ 000	31.03.25 £ 000
Llywodraeth Cymru:					
- Grant cyfalaf - Stondinau newydd	640	-	(80)	-	560
- Cynllun tocynnau fforddiadwy i deuluoedd	350	-	(350)	-	-
- Cynllun dathlu Dydd Miwsig Cymru	27	-	(27)	-	-
British Council:					
- Prosiect cerddorion o Gymru a Llydaw	22	-	(22)	-	-
Llywodraeth Cymru:					
- Grant gweithgareddau craidd	-	1,000	(1,000)	-	-
- Hybu gweithgareddau ieuenctid		6	(6)		
Cyngor Celfyddydau Cymru:					
- Gweithgareddau ar Faes yr Eisteddfod	-	99	(99)	-	-
Grant Ffyniant Cymunedol					
- Prosiect cymunedol 'Anthem'	-	15	(15)	-	-
Media Cymru					
- Ffilmio Cynaliadwy Deallusrwydd Artiffisial	-	10	(10)	-	-
Cyfanswm	1,039	1,130	(1,609)	-	560

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2025

18. Symudiadau yn y Cronfeydd Cadw

Cronfa	01.04.24 £ 000	Incwm £ 000	Gwariant £ 000	Symudiad net £ 000	Enillion/ Colledion £ 000	31.03.25 £ 000
Cronfeydd Gwaddol	1,769	72	(29)	43	(17)	1,795
Cronfeydd Cyffredinol	5,652	4,486	(5,095)	(609)	(25)	5,018
Cronfeydd Penodol	610	1,007	(610)	397	-	1,007
Cronfeydd Cyfyngedig	1,039	1,130	(1,609)	(479)	-	560
Cyfanswm	9,070	6,695	(7,343)	(648)	(42)	8,380

19. Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Cafodd un ymddiriedolwr dâl o £350 (2023/24: £ dim) am lunio cerddi a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024, sef gwasanaeth y tu allan i'w ddyletswyddau fel ymddiriedolwr.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1155539

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL
A DATGANIADAU ARIANNOL
am y cyfnod 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024

EISTEDDFOD

Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif elusen: 1155539
www.eisteddfod.cymru

CYNNWYS

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr:

- Amcanion a Gweithgareddau'r elusen 2
- Cyflawniadau a Pherfformiad 4
- Adolygiad Ariannol 11
- Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol 14
- Strwythur, Llywodraethu a Rheoli 15
- Cynlluniau'r Dyfodol 18

Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol 19

Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol 22

Mantolen 23

Datganiad o'r Llif Arian 24

Nodiadau i'r datganiadau ariannol 25

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Adroddiad yr ymddiriedolwyr am y cyfnod 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen am y cyfnod o 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn nodyn 1 i'r cyfrifon ac yn cydymffurfio â chyfansoddiad yr elusen, Deddf Elusennau 2011, Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP) sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Amcanion yr Eisteddfod, er budd y cyhoedd yng Nghymru a ledled y byd, yw:

- hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a'r iaith Gymraeg; a hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, drwy unrhyw ddull a modd yr ystyrir yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gŵyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

  Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddilyn yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Y Gymraeg yw iaith gweithgareddau'r Eisteddfod a'r Ŵyl. Tra'n parchu'r egwyddor hon, dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r di-gymraeg, a gweithgareddau i'r rhai hynny sy'n dysgu'r Gymraeg.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl deithiol/symudol. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol, Cymdeithas awdurdodau lleol Cymru a chyrff eraill, dylid ymdrechu i sicrhau bod yr ymweliadau'n gymorth i hyrwyddo adnewyddiad y cymunedau, a bod y budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd hynny yn sylweddol a pharhaol.
- Bwriedir i'r Eisteddfod Genedlaethol ddathlu egni a chyfoesedd yr iaith Gymraeg, ardderchowgrwydd diwylliant Cymru, a thraddodiadau gwerthfawr a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl gystadleuol yn ei hanfod. Dylid adolygu nifer a natur y cystadlaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas a pherthnasol i'r cyfnod.
- Bwriedir i'r Eisteddfod hefyd fod yn llwyfan i'r goreuon yn amrywiol agweddau'r diwylliant Cymreig a'r celfyddydau yng Nghymru, boed amatur neu broffesiynol.
- Rhaid sicrhau strwythur rheoli a threfnu effeithiol sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol ac ymarferol sy'n bodoli er mwyn sicrhau gweithredu amserol a diwastraff gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Dylai'r rheolaeth fod yn agored a thryloyw ac yn parchu egwyddorion sylfaenol priodoldeb a llywodraeth gorfforaethol yn gyffredinol.
- Dylid cydweithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol (cyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat) a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ŵyl.
- Ni ddefnyddir eiddo'r Eisteddfod at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennol wrth benderfynu ar ein gweithgareddau.

Amcanion craidd yr Eisteddfod Genedlaethol yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu iaith, hanes a thraddodiadau Cymru mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal i ddathlu popeth Cymreig ac i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn y brif ffrwd drwy:

- Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo diwylliant, bwyd, tirlun a threftadaeth Cymru sy'n adlewyrchu Cymru;
- Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
- Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r ŵyl yn hyrwyddo a'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, trwy arddangos talent o Gymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ymglymu artistiaid, cerddorion, perfformwyr, busnesau, addysg a darparwyr cymdeithasol. Mae'r holl bobl leol a'r holl fusnesau lleol yn cael eu hannog i fynd ati i gymryd rhan, gan greu cyfuniad â blas Cymreig arbennig i adlewyrchu diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd pobl Cymru.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyflawni ei hamcanion craidd trwy:

- Arddangos hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a threftadaeth Cymru; annog pobl i ddathlu hanes a diwylliant Cymru;
- Feithrin a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg pob grŵp oedran;
- Ddarparu cyfleoedd cyffrous i ysgolion a chymunedau trwy gydol Cymru i gymryd rhan ynddynt;
- Ddarparu cyfleoedd i'n hartistiaid Cymreig blaenllaw i arddangos eu talentau;
- Ddod yn hygyrch i gynulleidfa fwy eang o wahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd, trwy ddod â'r Eisteddfod i mewn i'r oes fodern;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymysg busnesau yn y sector preifat;
- Gynyddu proffil Cymru ar lefel rhyngwladol;
- Gydlyniant cymunedol trwy weithredu a chymryd rhan yn wirfoddol yn lleol;
- Weithio gyda sefydliadau lleol i gryfhau Cymru a'i chymunedau;
- Godi proffil a phoblogrwydd canu corawl yng Nghymru;
- Arloesi gyda thechnoleg newydd e.e. y cyntaf yn y Byd i we-ddarlledu'n fyw yn y Gymraeg yn 2000, a'r rhaglen Gymraeg gyntaf ar gyfer yr iPhone yn 2010;
- Annog datblygiad addysgol;
- Gryfhau llwyfan Cymru;
- Gynyddu cystadleuaeth iach a gwaith tîm;
- Annog pobl i gyfrannu o gefndiroedd di-gymraeg;
- Adeiladu pontydd rhwng pobl o ethnigrwydd a chenhedloedd amrywiol.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023

Y Cronfeydd lleol a nawdd: Llwyddodd y Gronfa Leol i gyrraedd £522,000, diolch i gymunedau Llŷn, Eifionydd ac Arfon. Yn ogystal â chodi arian, Pwyllgor y Gronfa Leol fu'n arwain y gwaith o harddu'r ardal, ac unwaith eto eleni, roedd y dalgylch yn lliwgar ac yn hwyliog iawn.

Rydyn ni'n ddiolchgar i gadeiryddion Bangor a Chaernarfon am gytuno i gymryd rhan mewn prosiect peilot i gynnig cefnogaeth a chyngor i rai o bwyllgorau Rhondda Cynon Taf, fel ffordd o rannu arbenigedd a syniadau rhwng ardaloedd. Mae hyn yn ffordd o ddefnyddio ein gwirfoddolwyr i ddatblygu sgiliau ei gilydd. Braf hefyd oedd gweld cydweithio rhwng pwyllgorau testun a'r pwyllgorau cronfa leol, gyda gweithgareddau'n cael eu cynnal ar y cyd, wedi'u hysbrydoli gan syniadau'r pwyllgorau testun.

Roedd y gronfa nawdd yn dalcen caled ar adegau, ond llwyddwyd i gyrraedd y nod, a diolch i Michael Strain am ein helpu i sicrhau hyn. Rydyn ni'n gweithio ar gyfres o becynnau nawdd ar gyfer y ddwy flynedd nesaf er mwyn cychwyn ar y gwaith o sicrhau nawdd yn Wrecsam yr un pryd â'r Gronfa Leol.

Cystadlu: Eleni, am y tro cyntaf, roedd rhaid i bawb gofrestru i gystadlu ar-lein. Diolch i Iwan Standley am ddatblygu system sy'n unigryw i'r Eisteddfod, sy'n gofalu am ein cystadleuwyr o'r diwrnod maen nhw'n penderfynu cystadlu hyd at dderbyn tystysgrif, gwobr a beirniadaeth yn electronig. Mae angen mireinio'r system, ac rydyn ni'n gweithio ar fersiwn 2.0 ar gyfer 2024.

Rydyn ni'n parhau i gael trafferthion gyda chystadleuwyr yn peidio â chyflwyno copïau perfformio mewn pryd. Mae hon yn broblem oesol, ac unwaith eto eleni, rydyn ni'n argymell ein bod yn cadw at y dyddiadau cau'n fwy haearnaidd, er mwyn ceisio torri i lawr ar y pwysau ar feirniaid, cyfeilyddion a staff.

Problem oesol arall yw'r ffaith fod unigolion yn tynnu'n ôl yn hwyr yn y dydd, ac rydyn ni'n awyddus i gael gwybod pam. Rydyn ni'n ymwybodol bod rhai pobl yn tynnu'n ôl oherwydd nad ydyn nhw wedi ymarfer digon, ac rydyn ni'n bwriadu cynnal ymarferiad i weld beth yw'r ganran o gystadleuwyr yn tynnu'n ôl neu ddim yn troi i fyny i ragbrawf ar ôl derbyn eu tocyn maes drwy e-bost.

Gweithiodd yr egwyddor o gynnal rhagbrofion yn y canolfannau sy'n ymwneud â'r genre'n dda, a byddwn yn dymuno parhau â hyn, er nad yw'n sicr y bydd modd gwneud pob blwyddyn oherwydd gofod ar y Maes.

Eleni, arbrofwyd gyda chystadlaethau dawns, gan gynnal Gŵyl Ddawns yn y Pafiliwn Mawr nos Lun. Roedd hyn yn gyfuniad o gystadlaethau dawnsio cyfoes a gwerin, gan roi gwell ffocws i ddawnsio yng Nghymru. Gweithiodd elfennau o'r ŵyl, gydag awyrgylch hyfryd yn y Pafiliwn a chynulleidfa dda ar gyfer y rhan fwyaf o'r noson. Crëwyd ecstrafagansa ddawns-perfformiad uchelgeisiol yn cyfuno'r cyfoes a'r gwerin-a gorffennodd y noson gyda thwmpath arbennig ar lwyfan y Pafiliwn. Yn gyffredinol, roedd yr ymateb yn bositif, ond bydd angen edrych ar y cystadlaethau i'w cynnwys, er mwyn sicrhau nad oes disgwyl i'r un cystadleuwyr ddawnsio gormod mewn un noson, ynghyd â pha noson y dylid cynnal yr ŵyl.

Rydyn ni'n ymwybodol nad yw ein gwobrau wedi codi ers blynyddoedd, ac mae'r tal cystadlu cyfredol yn ei le ers degawd a mwy. Mae angen edrych ar ein grantiau teithio ac ystyried ai creu bwrsariaethau lle mae'n rhaid ymgeisio'n ffurfiol amdanyn nhw.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Darlledu: Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i'r darlledu'n bositif, er bod y cystadleuwyr dawns yn siomedig gyda'r ffaith na ddangoswyd yr Ŵyl Ddawns yn ei chyfanrwydd. Roedd y darlledwyr yn fodlon gyda'r ymateb i'r rhaglenni, gyda S4C a BBC yn canmol nifer y gwylwyr a'r gwrandawyr, gan nodi mai dyma'r nifer mwyaf dros y ddegawd ddiwethaf, a bod ffigurau gwylio'r rhaglenni'n uwch na ffigurau unrhyw ddigwyddiadau byw eraill ar y sianel.

Cyngherddau: Gwerthodd y cyngerdd agoriadol, Y Curiad: Ddoe, Heddiw, Fory a dwy noson Cabarela o fewn ychydig oriau. Doedd dim modd gynnal berfformiad arall o gyngerdd y Côr yn y Pafiliwn felly roedd dau berfformiad ychwanegol wedi'u trefnu yng Nghanolfan Pontio, Bangor ar 20 - 21 Ionawr 2024.

Roedd y Pafiliwn yn llai na hanner llawn ar gyfer Gig y Pafiliwn, ac ni fyddwn yn trefnu digwyddiad tebyg yn y dyfodol agos.

Penderfynwyd cynnal ymarferion y cyngherddau cyn i'r cystadlu gychwyn yn y boreau, er mwyn lleihau cyfnod llogi'r pafiliynau a'r offer. Yn sgil hyn, cododd costau goramser ein staff technegol yn arw, gan effeithio ar wir gostau'r cyngherddau.

Yr incwm darlledu sy'n sicrhau fod ein rhaglen gyngherddau'n hyfyw, ac eleni, dim ond dwy noson a brynwyd gan S4C (y cyngerdd agoriadol a'r Gymanfa). Rydyn ni'n ymwybodol bod llai o bobl yn fodlon talu i ddod i gyngerdd ar ôl talu am fynediad i'r Maes. Gyda chymaint o weithgareddau amrywiol o amgylch y Maes tan yn hwyr, mae angen cwestiynu nifer y cyngherddau a drefnir, os nad dyfodol y rhaglen gyngherddau yn ei chyfanrwydd.

Eleni, penderfynodd y tîm artistig arbrofi gyda fformat gwahanol ar Lwyfan y Maes nos Lun, drwy ddilyn patrwm Proms yn y Parc a chynnal noson gyda *Welsh of the West End* ar y Llwyfan yn hytrach nag yn y Pafiliwn. Gweithiodd hyn yn dda gyda miloedd yn gwylio, heb orfod talu am docyn ychwanegol. Rydyn ni'n awyddus i arbrofi gyda'r cysyniad 'cyngerdd' ar Lwyfan y Maes ymhellach yn y dyfodol, gan gymharu costau noson o'r fath gyda chyngerdd traddodiadol yn y Pafiliwn.

Is-bafilynau: Yn dilyn beirniadaeth bod gormod o ddigwyddiadau nos ar y Maes y llynedd, penderfynwyd torri i lawr eleni, gan greu rhaglen boblogaidd a deniadol. Rhannwyd y Cwt Cabaret rhwng y Babell Lên ac Encore, gyda'r noson reggae a noson hwyr Mei Gwynedd yn boblogaidd.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r arlwy theatrig yng Nghaffi Maes B, gan ddenu cynulleidfaoedd o bob oed i gael blas ar berfformiadau amrywiol. Roedd y Tŷ Gwerin yn orlawn bob noson, gyda nifer fawr yn galw am adeilad mwy, gan fod cannoedd heb allu cael lle.

Roedd y niferoedd a arhosodd ar y Maes yn hwyr eleni'n uwch nag erioed o'r blaen, a'r cyfuniad o'r lleol a'r cenedlaethol yn y rhaglen nos wedi apelio at y gynulleidfa graidd yn arbennig.

Tân yn Llŷn: Tân yn Llŷn oedd y 'sbectacl' mawr ar ddiwedd yr ŵyl eleni, yn sioe dân gweledol, gan ddatblygu'r hyn a gafwyd gyda Dadeni yn 2022. Roedd y sioe'n edrych yn wych, ond roedd y trefniadau'n heriol iawn. Yn ogystal â pherfformiad gweladwy, roedd Tân yn Llŷn, fel Dadeni y llynedd, yn cynnwys elfen gref o fentora a datblygu sgiliau perfformwyr a thechnegwyr. Cafodd cwmni Cimera brofiad gwerthfawr wrth fod ynghlwm â phrosiect ar raddfa mor eang, a bydd hyn yn eu galluogi nhw i ddatblygu perfformiadau mwy uchelgeisiol yn y dyfodol.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Mae cynnal sbectacl yn rhan bwysig o'r weledigaeth artistig, ac yn ddibynnol ar ddenu arian ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, ac felly mae'r gallu i drefnu digwyddiad gweladwy ar raddfa'n ddibynnol ar gyllid o flwyddyn i flwyddyn.

Maes B: Gyda'r tocynnau cyfnod wedi'u gwerthu cyn dechrau'r ŵyl, a thocynnau gig Bwncath ar y nos Sadwrn olaf wedi gwerthu allan, eleni oedd gwerthiant gorau Maes B ers dros ddegawd.

Gwerthwyd y rhan fwyaf o'r tocynnau i bobl ifanc o dan 18 oed, a chan gyplysu hyn gyda'r ffaith fod miloedd yn fwy na'r disgwyl wedi cyrraedd wrth i Faes B agor y giatiau amser cinio dydd Mawrth, bu'n rhaid i rai pobl ifanc giwio am oriau. Rhoddwyd y tîm lles i oruchwylio'r ciw er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw broblemau.

Pafiliwn Mawr a'r Pafiliwn Bach: Gyda llai o gyngherddau'n cael eu gwerthu i S4C, a dim angen adnoddau ffilmio a goleuo mor gymhleth ar gyfer y cystadlu, eleni roedd dau bafiliwn llai ar y Maes, gan arbed costau sylweddol. Cyhoeddwyd hyn yr un pryd â'r penderfyniad i newid trefn cystadlaethau torfol, ac felly, roedd yr ymateb i'r pafiliynau newydd hefyd yn negyddol, gyda rhai'n cwyno na fyddai digon o le i'r gynulleidfa.

Serch hynny, erbyn diwedd yr wythnos, roedd y farn wedi newid a nifer yn croesawu'r drefn newydd, gan deimlo bod awyrgylch gysurus yn y ddau adeilad. Anaml oedd y Pafiliwn Mawr yn hollol lawn, gyda phobl yn ciwio y tu allan. Roedd y gofod y tu ôl i'r llwyfan yn rhy gyfyng, heb ddigon o le i gystadleuwyr newid, yn enwedig ar ddyddiau seremonïau'r Orsedd.

Y Babell Lên: Gweithiodd yr arlwy'n dda, ac un o lwyddiannau'r wythnos oedd y rhaglen 'Llên ar hyd y lle', gyda gweithgareddau llenyddol mewn gwahanol leoliadau, yn denu cynulleidfaoedd amgen. Ni weithiodd y sesiynau llenyddiaeth yn y Pentref Plant, ac ni fyddwn yn eu cynnal eto, gan ganolbwyntio ar sesiynau chwarae yn y pentref.

Braf oedd defnyddio'r Babell Lên ar gyfer gweithgareddau amgen gyda'r nos, a denodd hyn gynulleidfa dda drwy gydol yr wythnos, ac rydyn ni'n ddiolchgar i'r pwyllgor lleol, dan arweiniad Esyllt Maelor am fod mor agored i syniadau newydd ac am fod mor awyddus i gydweithio gyda phwyllgorau eraill.

Encore: Roedd Encore mewn lleoliad canolog, gyda rhaglen lawn gan gydweithio gyda nifer o bartneriaid. Roedd sesiynau Tŷ Cerdd yn llwyddiannus, ac mae'r berthynas hon yn rhan bwysig o apêl Encore. Gweithiodd cynnal y rhagbrofion cerddorol unigol yn Encore yn dda, gyda mwy yn cael cyfle i fwynhau'r perfformiadau. Hefyd, gweithiodd y cyfuniad o feinciau a chadeiriau'n dda. Rydyn ni hefyd yn bwriadu ystyried cynnal ambell gig 'agos atoch' yn Encore gyda'r nos yn y dyfodol. Cafwyd problemau gyda'r llawr a chaed llifogydd yn yr adeilad ar y Sadwrn cyntaf.

Tŷ Gwerin: Y gŵyn fwyaf am Tŷ Gwerin eleni oedd bod yr yurt yn rhy fach, ac mae'n amlwg na fydd yurt o'r maint hwn yn ddigonol pan fyddwn yn dychwelyd i faes traddodiadol yn 2025. Rydyn ni eisiau sicrhau ein bod ni'n cadw'r naws agos-atoch, ynghyd â'r cyfle i eistedd neu sefyll i fwynhau sesiwn, ac mae cael adeilad diddorol megis yurt hefyd yn elfen bwysig o apêl Tŷ Gwerin.

Roedd canmoliaeth i'r cymysgedd o'r lleol a'r cenedlaethol a gweithiodd y sesiynau hwyr am 22:30 yn dda. Ychwanegiad difyr arall i'r rhaglen oedd Brwydr y Bandiau Tŷ Gwerin, a gynhaliwyd am y tro cyntaf eleni.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Y Lle Celf: Gweithiodd y panel canolog a'r pwyllgor lleol yn dda gyda'i gilydd. Roedd dwy ran i Y Lle Celf, sef yr arddangosfa a'r ardal Cymry ar Gynfas, a oedd hefyd yn ardal ar gyfer gweithdai a gweithgareddau llai ffurfiol, er roedd y sŵn yn cario i'r oriel. Roedd teimlad fod Y Lle Celf wedi colli'r 'wow factor' a'i statws fel oriel gelf genedlaethol.

Mae angen trafod y curadu. Mae'r tîm a fu wrthi am y ddwy flynedd ddiwethaf wedi ymddiswyddo, ac mae gennym gyfle i edrych ar sut y gallwn wireddu'r prosiect. Rydyn ni'n ymwybodol bod diffyg curaduron sy'n siarad Cymraeg, a byddwn yn sgwrsio gyda Chyngor Celfyddydau Cymru i weld a oes cyfle i gydweithio er mwyn meithrin curaduron newydd drwy ddefnyddio Y Lle Celf.

Cymdeithasau: Nid oedd gofodau Cymdeithasau'n ddigon da. Er bod maint y ddwy babell yn iawn, gwael iawn oedd eu hansawdd, gyda sŵn yn broblem. Effeithiodd hyn ar nifer o sesiynau a rhagbrofion.

Ffilmiwyd y cyflwyniadau, gyda'r rhan fwyaf yn gweithio'n dda ac ar gael ar sianel YouTube yr Eisteddfod, fel adnodd gwerthfawr. Arbrawf oedd hyn, ac yn 2024, bydd angen sicrhau bod gennym ni ddau gamera bach yn y ddau ofod, a chyflwyno canllaw ar gyfer ffilmio.

Caffi Maes B: Gweithiodd Caffi Maes B yn dda, gyda lleoliad ardderchog yn agos at y brif fynedfa a bar Syched. Llwyfannwyd nifer o'r perfformiadau theatrig yn y caffi, gyda naws agos-atoch y gofod yn ychwanegu at y profiad.

Maes D – Pentre Dysgu Cymraeg: Roedd Maes D yn un o lwyddiannau'r Maes, gyda'r cysyniad o Bentref Dysgu Cymraeg yn cael ei wireddu'n llwyddiannus, diolch i'r bartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru. Yn hytrach nag adeilad mawr, roedd gan y Llywodraeth babell gyda rhaglen o weithgareddau a weithiodd yn dda, gyda chynnydd o 900% yn nifer yr ymwelwyr arferol a hynny'n cael ei gyrraedd ar y dydd Sadwrn cyntaf yn unig. Cafwyd canmoliaeth i'r rhaglen amrywiol o weithgareddau.

Pentref Plant: Gweithiodd y Pentref Plant yn dda iawn, ac mae'n rhaid canmol y cydlynydd, Ross, am ei frwdfrydedd. Mae angen llefydd bwydo plant a newid clytiau mewn rhannau eraill o'r Maes hefyd. Mae trafodaethau i greu ardal synhwyraidd ar gyfer y dyfodol wedi cychwyn ar y cyd gyda Pontio, Prifysgol Bangor.

Llwyfan y Maes: Un o atyniadau mwyaf poblogaidd y Maes unwaith eto eleni. Mae angen rhagor o amser rhwng y bandiau er mwyn osgoi problemau gyda pherfformwyr yn rhedeg dros amser. Hefyd, mae angen gwella'r elfen diogelwch yn ardal y Llwyfan, gan fod maint y gynulleidfa'n gallu bod yn beryglus ar adegau, yn enwedig yn ystod sesiynau hwyr.

Gweithiodd y 'stretch tents' yn yr ardal, gan adael digon o le i'r gynulleidfa fod yn agos at y bandiau a'r perfformwyr.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Mae trafodaethau'n parhau ynglŷn â churadu Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn y dyfodol. Roedd rhai yn teimlo bod y darlithoedd yn rhy fyr, ond yn gyffredinol, cafwyd ymateb da iawn i'r pentref, er bod y lleoliad yn broblematig gan ei fod yn rhy agos at Lwyfan y Maes.

Arlwy Dawns: Yn dilyn gwerthusiad y llynedd, penderfynwyd fod arlwy dawns o amgylch y Maes wedi datblygu cymaint, fel nad oes angen adeilad, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r panel dawns, penderfynwyd cynnal Gŵyl Ddawns yn y Pafiliwn er mwyn rhoi ffocws newydd i'r cystadlaethau.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Arlwy Theatr: Roedd y rhan fwyaf o gwmnïau'n awyddus i arbrofi a pherfformio mewn gofodau amgen ac felly, penderfynwyd hepgor adeilad Theatr y Maes am eleni, gan nodi bod rhaid trafod hyn yn flynyddol. Roedd ymateb y gynulleidfa'n gadarnhaol gan fwyaf, gyda'r cysyniad o theatr ar hyd y Maes wedi gweithio.

Roedd nifer o'r perfformiadau theatr stryd yn rhai statig eleni, ac mae'n rhaid sicrhau fod perfformiadau o'r fath yn cychwyn o rywle amlwg ac wedi'i nodi yn ein deunyddiau hyrwyddo. Nodwyd nad oedd Caffi'r Theatrau ar y Maes eleni, a byddwn yn trafod a oes angen ail-gyflwyno'r caffi dros y flwyddyn nesaf.

Arlwy Mas ar y Maes: Roedd diffyg sgyrsiau a sesiynau trafod eleni, gyda'r pwyslais wedi'i osod yn bendant ar berfformiadau. Rydyn ni'n croesawu bod amryw o artistiaid Mas ar y Maes wedi perfformio yn y Gymraeg am y tro cyntaf, ac yn edrych ymlaen at nodi canmlwyddiant pryddest enwog Prosser Rhys, 'Atgof', mewn amrywiol ffyrdd yn 2024, gan gynnwys datblygu'r sioe 'Corn Gwlad' ymhellach.

Rydyn ni hefyd yn awyddus i greu panel canolog ar gyfer Mas ar y Maes fel ein bod yn gallu elwa o arbenigedd y gymuned o flwyddyn i flwyddyn.

Arlwy Llefaru: Cynhaliwyd bob math o weithgareddau llefaru, gyda hashnod #llwyd@60 yn cysylltu popeth. Cafodd hyn ei yrru gan y pwyllgor llefaru lleol, dan arweiniad Siân Teifi. Yn ogystal â gweithgareddau ar hyd y Maes, croesawyd cyn-enillwyr Gwobr Goffa Llwyd o'r Bryn yn ôl i Lwyfan y Pafiliwn mewn seremoni arbennig, a chyhoeddwyd diweddariad o gyfrol boblogaidd R Alun Evans fel rhan o ddathliadau'r wythnos.

Y Maes: Roedd y Maes yn hyfryd, gydag ardal Cerrig yr Orsedd yn agor allan i'r Pentref Bwyd a Llwyfan y Maes, gan gynnig digonedd o le i bawb yn yr ardaloedd prysuraf.

Cyflwynwyd trefn archebu newydd ar gyfer archebu stondin gan ddefnyddio'r system docynnau. Bwriad y system oedd torri i lawr ar waith gweinyddol, a sicrhau bod popeth ar gael mewn un lle i'r stondinau. Gweithiodd hyn yn hwylus i nifer fawr o stondinau, ond roedd rhaid prosesu stondinau sefydliadau mwy yn y ffordd draddodiadol gan fod angen eu hanfonebu yn hytrach na disgwyl iddyn nhw dalu gyda cherdyn ar y dydd neu mewn rhandaliadau fel pawb arall.

Hwb elusennol: Roedd yr Hwb Elusennol yn cynnig gofod i elusennauam bris gostyngol, mewn partneriaeth gyda Mantell Gwynedd a CGGC, gyda18 o sefydliadau trydydd sector wedi'u lleoli yno. Rydyn ni'n bwriadu parhau gyda'r gofod, ac mae Interlink (Rhondda Cynon Taf) a CGGC eisoes wedi datgan diddordeb i reoli'r trefniadau.

Cyfathrebu a digidol: Cyhoeddwyd y rhaglen ar ei newydd wedd, a chafodd groeso gan y mwyafrif o'r darllenwyr. Roedd y gyfrol yn cynnwys nifer o erthyglau nodwedd eleni, gan greu llyfryn mwy deniadol a difyr. Byddwn yn dilyn y fformat hwn eto, a diolch i Eryl Crump am ei gymorth yn ysgrifennu nifer o'r erthyglau.

Cafodd yr App ei lawrlwytho i 12,000 o declynnau unigol, gyda thros 290,000 o sesiynau defnydd unigol yn ystod yr wythnos. Rydyn ni wedi treulio'r flwyddyn yn datblygu gwefan newydd, ac wedi symud draw yn raddol, gan gyflwyno elfennau dros gyfnod o fisoedd.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Mae'r system gystadlu newydd yn rhan greiddiol o'r prosiect, ynghyd â'r system archebu gwobrau, sy'n golygu fod pobl yn gallu archebu a thalu am wobrau ar-lein, gan dorri i lawr ar waith gweinyddol. Mae'r diwyg yn gliriach ac mae'n haws cael hyd i wybodaeth. Bydd yr app yn dilyn yr un diwyg y flwyddyn nesaf.

Gyda'r wefan newydd yn llawer mwy hygyrch, byddwn yn arwain ein dilynwyr i amserlenni ar-lein yn hytrach nag amserlenni static ar gyfryngau cymdeithasol, gan arbed oriau lawer o waith i staff a chostau dylunio.

Hygyrchedd: Cawsom grant i benodi Oliver Griffith-Salter fel Swyddog Hygyrchedd am bythefnos ar y safle. Yn dilyn adolygiad y llynedd, cafodd ein darpariaeth ar gyfer ymwelwyr anabl ei chanmol gan 'siopwr cudd' ar ran Attitude is Everything eleni, gan ddatgan ein bod ni wedi llwyddo i gynnig yr un profiad i bawb a ddaeth i'r Maes.

Gweithiodd lleoliad y Llecyn Llonydd, swyddfa hygyrchedd, Byw Bywyd a'r ardal orffwys ar gyfer cŵn gofal yn dda, ac roedd sicrhau bod modd dychwelyd sgwteri i Byw Bywyd ar ddiwedd y noson hefyd yn ddatblygiad pwysig.

Arlwyo: Roedd cymysgedd dda o fwyd ar y Maes, gyda'r arlwywyr wedi cael wythnos lwyddiannus iawn. Cafwyd ymateb derbyniol i'r ddarpariaeth newydd yn Platiad ar y cyfan.

Partneriaethau: Trawsnewidiwyd y Pentref Dysgu Cymraeg ac ardal Maes D yn sgil ein partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, gan greu rhaglen ddeinamig a difyr a ddenodd fwy o ymwelwyr i'r ardal nag erioed. Roedd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol hefyd yn rhan allweddol o'r berthynas, ac mae'r ardal yn enghraifft dda o sut y gall sefydliadau gydweithio'n llwyddiannus.

Roedd y bartneriaeth gyda Frân Wen yn rhan bwysig o'r Eisteddfod a'r prosiect cymunedol. Cafodd pobl ifanc y dalgylch gyfle arbennig i fod yn rhan o brosiect artistig cyffrous, a hynny'n rhad ac am ddim yn y cyfnod hyd at yr Eisteddfod, gyda chyfle ar y diwedd i fod yn rhan o'r perfformiad theatrig cyntaf ym Maes B.

Mae Merched yn Gwneud Miwsig, partneriaeth gyda Chlwb Ifor Bach, Maes B ac yn fwy diweddar, yr Urdd, yn mynd o nerth i nerth gyda dwy o gyfranogwyr y prosiect, Frances Rees ac Alis Glyn, wedi cyrraedd rownd derfynol Brwydr y Bandiau eleni.

Roedd gennym berthynas dda gyda Menter Iaith Gwynedd, a phan aethpwyd ati i lansio ein hapêl am wirfoddolwyr eleni, roedd y fenter yn rhan o'r prosiect, wrth i ni gynnwys apêl am wirfoddolwyr lleol i ymwneud â gweithgareddau Cymraeg yng Ngwynedd.

Perthynas arall sydd wedi datblygu dros y blynyddoedd diwethaf yw honno gyda Tŷ Cerdd, ac yn 2024, byddwn yn cyflwyno cystadleuaeth Tlws y Cerddor ar ei newydd wedd, fel Tlws y Cyfansoddwr, a hynny mewn partneriaeth gyda Tŷ Cerdd. Mae Tŷ Cerdd hefyd yn trefnu amryw o weithgareddau ar y Maes fel rhan o arlwy Encore.

Rydyn ni'n gweithio gyda chyrff a grwpiau amrywiol ar brosiectau Cysylltu a Ffynnu, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau, ac eleni, bu dau ohonyn nhw'n llwyddiannus.

Mae prosiect Talent mewn Tafarn, wedi grymuso'r byd stand yp mewn tafarndai cydweithredol yng ngogledd a gorllewin Cymru, ar y cyd gyda Chanolfan yr Egin, gan gynnal nosweithiau comedi ahyfforddiant i'r rheini sydd eisiau dechrau perfformio.

Prosiect arall a fu'n llwyddiant yw Twmpdaith, rhan o gynllun Wyth, sy'n bartneriaeth gyda Menter Iaith Maldwyn, Cwlwm Celtaidd a nifer o artistiaid llawrydd, yn dathlu dawnsio gwerin a chlocsio, gan fynd ar daith oamgylch Cymru gyda'r pinacl ar y Maes yn ystod yr Eisteddfod. Mae'r berthynas gyda Stonewall Cymru, fel rhan o brosiect Mas ar y Maes gyda Balchder wedi newid dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r ddealltwriaeth a'r awydd i fod yn ymwneud â'r

Gymraeg wedi pylu, ac mae hyn wedi creu problemau wrth i ni weithio ar ddatblygu Mas ar y Maes, prosiect sydd â'r iaith yn greiddiol iddo. Yn anffodus, mae'r agwedd yma hefyd wedi dylanwadu ar ein perthynas gyda'r partneriaid eraill yn y prosiect.

Rydyn ni'n awyddus i ddatblygu'r berthynas gyda chyrff fel Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Yr Ŵyl Gerdd Dant a'r corau dros y flwyddyn nesaf hefyd.

Dangosyddion gweithgareddau wyneb yn wyneb

Allbynnau	Nifer	
Nifer o weithgareddau i blant	270	
Nifer o blant yn mynychu	5,400	
Nifer o weithgareddau i bobl ifanc (11-25 oed)	175	
Nifer o bobl ifanc (11-25 oed) yn mynychu	10,000	
Nifer o weithgareddau i deuluoedd	270	
Nifer o oedolion a nifer o blant yn mynychu gweithgareddau i deuluoedd	Plant 5,400	Oedolion 700
Nifer o weithgareddau i oedolion	1050	
Nifer o oedolion yn mynychu	100,000	

Yr Orsedd: Er yn sefydliadau ar wahân, mae'r berthynas rhwng yr Orsedd a'r Eisteddfod yn un bwysig, gyda chydweithio agos dros y blynyddoedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyhoeddwyd adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cyhoeddi, gan argymell bod y Cyhoeddi'n cael ei symud i ddechrau Mai a hynny am gyfnod o dair blynedd i gychwyn.

Gweithiodd y berthynas rhwng yr Eisteddfod a'r Orsedd yn dda wrth hyrwyddo cyfleoedd seremoniol yr Orsedd yn Rhondda Cynon Taf, ac rydyn ni'n ddiolchgar i Christine a Beti Wyn, ac yn edrych ymlaen at gychwyn y broses yn ardal Wrecsam yn fuan.

Stiwardiaid: Ar hyn o bryd, mae'r ffocws i gyd ar ddenu stiwardiaid ar gyfer cyfnod yr ŵyl, ac mae angen datblygu strategaeth wirfoddoli, sy'n cynnwys cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys cyfleoedd cymunedol, artistig (ar ein panelau canolog), ar ein Cyngor a'r Bwrdd. Rydyn ni hefyd yn awyddus i ddatblygu ymgyrchoedd cyfathrebu fel ein bod yn cysylltu gyda'r rheini sydd eisoes yn rhan o'r tîm a denu gwirfoddolwyr newydd. Yn sgil hyn, rydyn ni'n teimlo y dylai'r rôl o gydlynu gwirfoddolwyr ddychwelyd i ofal uniongyrchol staff.

Trefnwyd cyfres o sesiynau hyfforddi ar faterion iechyd a diogelwch, hygyrchedd, gofal cwsmer a'r polisi parch, ynghyd â thrafod cyfrifoldebau penodol. Gweithiodd y rhain yn dda a byddwn yn dda a byddwn yn dilyn y fformat eto yn y dyfodol.

Staff: Braf yw nodi bod Lliwen Williams, Llŷr Jones, Martha Rhys, Rhys Edwards a Steffan Prys wedi ymuno â'r tîm i sicrhau strwythur staffio addas i wireddu gŵyl.

Mae'r adroddiad eleni yn adlewyrchu cyfnod ariannol o 15 mis, sef 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024. Mae'r cam hwn wedi'i wneud am nifer o resymau ymarferol, rheoleiddiol a strategol ac o hyn allan bydd yr adroddiadau blynyddol yn diweddu ar 31 Mawrth. Mae gan yr elusen yr hawl i newid ei chyfnod cyfrifyddu yn unol â'r deddfau a'r rheoliadau cymwys, yn benodol Deddf Elusennau 2011. Derbyniwyd y newid yng Nghyfarfod y Llys ar 9 Awst 2024 a nodwyd gan y Comisiwn Elusennau ar 2 Medi 2024. O ganlyniad i'r newid hwn yn y cyfnod cyfrifyddu, nid oes modd cymharu'r symiau a gyflwynir yn y cyfrifon yn llwyr.

Derbyniwyd cyfanswm o £8.686m o incwm i mewn yn ystod y cyfnod i gymharu gyda £7.080m yn 2022 a gwariwyd cyfanswm o £7.729m (£6.434m yn 2022). Gan gynnwys hefyd y cynnydd o £80,000 yng ngwerth y buddsoddiadau (lleihad o £143,000 yn 2022), mae hyn yn gadael gweddill (cyn y cynnydd yng ngwerth y cynllun pensiwn) ar ddiwedd y cyfnod o £1.037m (2022: Gweddill o £0.503m).

Ar 31 Mawrth 2024 roedd yr asedau net yn £9.070m (£7.233m yn 2022).

Cronfeydd

Mae'r Eisteddfod yn cadw cronfeydd ariannol mewn nifer o gategorïau:

Cronfeydd Anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol. Cyfanswm y gronfa ar 31 Mawrth 2024 oedd £2.362m (2022 - £1.867m).

Cronfeydd Cyfyngedig - arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw. Cyfanswm y gronfa ar 31 Mawrth 2024 oedd £1.039m (2022: £0.980m).

Cronfeydd Penodol - yn cynrychioli incwm a dderbynnir ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol. Yn ystod y cyfnod, derbyniwyd cyfanswm o £589,000 ar gyfer Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024 a Wrecsam 2025. Yn ogystal rhyddhawyd swm o £477,000 yn ôl mewn perthynas ag arian a godwyd ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd cyn 2023. Dangosir y symudiadau i'r gronfa yn nodyn 16 o'r cyfrifon. Roedd cyfanswm y gronfa ar 31 Mawrth 2024 yn £610,000 (31 Rhagfyr 2022 - £498,000).

Cronfeydd Gwaddol - cronfeydd sydd i'w cadw er budd yr elusen fel Cronfa Cyfalaf. Cyfanswm y gronfa yma ar 31 Mawrth 2024 oedd £1.769m (£1.398m ar ddiwedd 2022).

Cronfa Bensiwn – Ar 31 Mawrth 2024 roedd gwarged yn y gronfa bensiwn o £3.290m (2022 – Gwarged o £2.490m).

Polisi Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddiffyg dros dro (e.e. colled mewn Eisteddfod benodol neu gynnydd anrhagweladwy yn y gwariant) fel y gall yr elusen parhau i weithredu ar unrhyw adeg.

Oherwydd natur ansicr nifer o ffynonellau incwm a gwariant, fel y gronfa leol, grantiau, nawdd, gwerthiant tocynnau a chostau ychwanegol o ran tywydd drwg, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar bolisi lle dylai'r cronfeydd anghyfyngedig fod yn werth 50% o leiaf o gyfanswm y gwariant (yn seiliedig ar gyfrifon eleni), sy'n cyfartalu i dua £4m mewn cronfeydd wrth gefn. Ar y lefel yma, teimlai'r ymddiriedolwyr y bydd yr elusen yn gallu parhau i weithredu mewn achos o ddiffyg sylweddol naill ai oherwydd amgylchiadau fel y pandemig Covid-19 neu fod un o wyliau'r Eisteddfod yn gwneud colled ariannol. Nid yw'r cronfeydd rhydd o £2.362m (2022: £1.867m) yn cyrraedd y nod ar hyn o bryd. Er mwyn cyflawni hyn, ar ddiwedd 2024, mae'r elusen wedi gwireddu gwarged o £2.45m ar ei chynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Ar gyfer y tymor hwy, mae'r strategaeth yn parhau i gynyddu'r arian rhydd drwy greu gwarged blynyddol ar ei weithgareddau.

Arferion codi arian

Rydym yn ffodus ac yn hynod ddiolchgar am bob rhodd a chyfraniad ariannol, rhai a dderbynnir yn flynyddol ac eraill ar gyfer Eisteddfodau penodol. Mae'r ymddiriedolwyr, gan gynnwys swyddogion y pwyllgorau cyllid ar draws Cymru, yn ymdrechu bob amser i sicrhau y safonau uchaf, llywodraethu da ac adolygiad parhaus mewn perthynas â'n gweithgareddau codi arian.

Cronfeydd Lleol a Chyffredinol - Mae'r mwyafrif o'r rhoddion a dderbyniwyd gan yr elusen yn cael eu derbyn trwy bwyllgorau apêl leol i godi arian i'r Eisteddfod sydd yn ymweld â'u hardal. Hwn yw gyfraniad dalgylch yr Eisteddfod i'r gost o gynnal yr ŵyl ac yn arferol mae'r pwyllgorau apêl yn codi arian am gyfnod o ddwy i dair blynedd hyd at gynnal yr Eisteddfod. Mae'r derbyniadau yma'n cynnwys rhoddion gan unigolion i ddigwyddiadau codi arian cyffredinol.

Mae pob pwyllgor apêl newydd yn derbyn cyfarwyddiadau gweithredu gan yr elusen. Mae cynrychiolwyr o bob pwyllgor apêl yn cyfarfod yn rheolaidd i adrodd yn nôl i'r Pwyllgor Cyllid Canolog.

Mae swyddogion y pwyllgor cyllid hefyd yn sicrhau:

- Dim ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd unigolyn;
- Dim ymagweddau parhaus at ddiben cyfreithloni neu gaffael arian neu eiddo arall ar ran yr elusen;
- Bod neb yn rhoi pwysau gormodol ar rywun i roi arian neu eiddo arall.

Yn ystod 2023/24, derbyniwyd £328,000 (2022: £264,000) ar gyfer y cronfeydd lleol a chyffredinol. Mae'r swm a godwyd yn flynyddol yn gallu amrywio gan ei fod yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae pwyllgorau'r apêl yn codi arian.

Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli derbyn arian o £206,000 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023 a £122,000 a gasglwyd yn ystod y cyfnod tuag at Eisteddfodau Rhondda Cynon Taf 2024 a Wrecsam 2025.

Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys incwm o £467,000 a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod i Incwm o'r Ŵyl sydd yn cynrychioli gwerthiant tocynnau Maes B, stondinau, nawdd a cheisiadau maes carafanau a gwersylla gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024. Cyfrifwyd am yr incwm yma trwy'r Cronfeydd Penodol a dangosir y symudiadau yn nodyn 16.

Rhoddion trwy ewyllys – Derbyniwyd naw rhodd eleni, gwerth cyfanswm o £534,000, lle mae cefnogwr yr Eisteddfod wedi dewis rhoi rhodd yn eu ewyllys (2022: tair rhodd – gwerth £100,000). Derbyniwyd hefyd tri gymynrodd, gwerth £233,000 (2022: Dim) i'r Cronfeydd Gwaddol Parhaol lle bydd yr arian yn cael ei fuddsoddi i'w ddefnyddio at ddiben penodol.

Ymgyrchoedd eraill - Ymgymerir â phob marchnata uniongyrchol arall gan staff yr Eisteddfod i sicrhau nad yw'n afresymol ymwthiol na pharhaus. Gwneir cyswllt trwy farchnata uniongyrchol *mailchimp* ar gyfartaledd tua unwaith y mis. Mae'r holl ddeunydd marchnata yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut y gellir tynnu person oddi ar restrau postio.

Nid yw'r Eisteddfod yn defnyddio unrhyw gorff proffesiynol i godi arian. Ni fu unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod am weithgaredd codi arian yr elusen.

Polisi Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu buddsoddi arian am y tymor hir mewn portffolio risg canolig – cyfuniad o stoc y llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi er mwyn cwrdd â gofynion am gynhyrchu incwm a thyfiant cyfalaf. Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Brewin Dolphin sydd yn buddsoddi cronfeydd yr Eisteddfod ar ei rhan. Caiff y cronfeydd hyn eu hadolygu'n gyson.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu na ddylid buddsoddi mewn cwmnïau sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu neu ddosbarthu arfau a thybaco. Roedd gwerth y buddsoddiadau hir dymor ar ddiwedd y cyfnod yn £1.869m o gymharu â £1.599m ar 31 Rhagfyr 2022.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad eu gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddi-dâl, o godi arian i stiwardio ar faes yr Eisteddfod . Nid ydym yn gallu rhoi gwerth ariannol ar yr holl waith yma ac felly, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

Trafodion partïon cysylltiol

Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024 gan yr ymddiriedolwyr neu unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli.

Rheoli risg

Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'w meysydd busnes, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol briodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus ac yn cofnodi risgiau materol yn y gofrestr risg.

Mae'r Panel Archwilio a'r Bwrdd Rheoli yn arolygu'r gofrestr risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau yn cynnwys parhad yr Eisteddfod, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd.

Rhagdybiaeth Busnes Byw

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr Elusen mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd a bod disgwyliad rhesymol gan yr Eisteddfod bod yr adnoddau yn ddigonol i barhau i weithredu'n hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail busnes sy'n fyw wrth baratoi'r cyfrifon.

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Enw'r elusen:	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Cyfansoddiad:	Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif yr elusen:	1155539
Swyddfa gofrestredig:	40 Parc Tŷ Glas Llanisien Caerdydd CF14 5DU
Bwrdd Rheoli ac Ymddiriedolwyr:	Ashok Ahir (Llywydd y Llys) Gethin Thomas (Cadeirydd y Cyngor) Heulwen Jones (Is-gadeirydd y Cyngor) Gwenno Williams (Trysorydd) Christine James (Gorsedd y Beirdd) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023) Helen Prosser (Cadeirydd Eisteddfod 2024 o 24/06/2023) Aneurin Brown (Penodwyd ar 08/08/2024) Heledd Bebb (hyd at 08/08/2024) Elin Jones Elin Haf Gruffydd Jones Gwerfyl Pierce Jones (hyd at 08/08/2024) Trystan Lewis Deian Rhys Aled Walters Rhian Huws Williams (hyd at 08/08/2024)
Ysgrifennydd	Catrin Jones (Penodwyd ar 08/08/2024) Heulwen Jones (Dros dro – hyd at 08/08/2024) Llyr Roberts (m) (Hyd at 28/06/2023)
Prif Weithredwr:	Betsan Moses
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo SA19 6AH
Bancwyr:	HSBC 56 Heol y Frenhines Caerdydd CF10 9NA
Brocer Buddsoddiadau:	Brewin Dolphin 5 Sgwâr Callaghan Caerdydd CF10 5BT
Cyfreithwyr Mygedol:	Emyr Lewis Aled Walters

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Cyfansoddiad

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau ar 29 Ionawr 2014. Trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau *Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru* (rhif elusen 219171) i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig ar 1af Ionawr 2015. Mae'r elusen newydd yma'n weithredol o'r dyddiad hwn.

Y Llys

Mae'r Llys yn cynnwys holl aelodau'r Elusen, gyda holl hawliau arferol i'w gweithredu trwy Gyfarfodydd Cyffredinol. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) yr hawl i benodi ac i ddiswyddo Swyddogion, Ymddiriedolwyr, ac aelodau'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, Rheolau Sefydlog yr elusen ac yn unol â Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llys, mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn ystyried ac yna'n derbyn neu wrthod adroddiadau'r Ymddiriedolwyr, y Cyngor a Bwrdd yr Orsedd, ac mae'r hawl gan y Llys i sicrhau fod yr amcanion a'r ymrwymiadau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn unol â dymuniad y Llys ac yn unol â'r Ddeddf. Mae'r Prif Weithredwr llawn amser yn rheoli gweithgareddau'r elusen gyda chymorth aelodau staff. Mae aelodaeth o'r Llys yn agored i bawb.

Y Cyngor

Swyddogaeth y Cyngor ydi gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol sydd yn cymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod. Mae'r Cyngor yn cynnwys 36 aelod ynghyd a'r Cymrodyr a Chyn-Lywyddion– caiff 24 o aelodau eu hethol gan y Llys, 6 gan yr Ymddiriedolwyr, a hawl gan y Cyngor i gyfethol hyd at 6 aelod. Rhaid i aelodau o'r Cyngor a'r Bwrdd Rheoli fod yn aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn cynnal o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn.

Mae gan y Cyngor ddau bwyllgor, sef

1. Pwyllgor Archwilio;
2. Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg – i arolygu ac adrodd ar weithredu'r Rheol Gymraeg ym mhob Gŵyl.

Bwrdd Rheoli/Ymddiriedolwyr

Y Bwrdd Rheoli sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel ymddiriedolwyr. Disgwylir i Brif Weithredwr a phrif staff yr elusen fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ond heb hawl pleidleisio gan nad ydynt yn ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf wyth gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn cyflawni gwaith yr elusen sefydlwyd y Pwyllgorau a ganlyn:

Pwyllgor Llywio/Pwyllgor Gwaith ar gyfer pob Gŵyl.

Pwyllgor Diwylliannol – i gydlynu gwaith panelau sefydlog i gynnig cyngor arbenigol ar feysydd cystadleuol penodol ac i gymryd cyfrifoldeb am y rhestr gystadlaethau.

Pwyllgor Technegol – i gynnig cyngor arbenigol am y maes, adeiladau, trafnidiaeth, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r Ŵyl.

Pwyllgor Marchnata – i gynnig cyngor arbenigol ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod a'r Ŵyl.

Pwyllgor Adnoddau Dynol – i gynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â staffio a chyflogau.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Pwyllgor Cynhwysedd ac Amrywiaeth – i edrych ar holl weithdrefnau a gweithgareddau'r Eisteddfod i sicrhau eu bod yn agored a chynhwysol.

Pwyllgor Artistig - i gynnig cyngor arbenigol ar raglenni hwyr; a phrosiectau artistig mawr.

Panel Enwebu – i argymell enwau Ymddiriedolwyr, aelodau'r Cyngor ac aelodau Pwyllgorau a phanelau sefydlog er mwyn cyflawni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo – i gwrdd yn ôl yr angen i ystyried unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbynnir am Swyddogion yr elusen a chwynion am Ymddiriedolwyr yr elusen a'r staff.

Penodi Ymddiriedolwyr

Mae cymalau 12 ac 13 o'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer penodi/ethol ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

1. Penodir tri ymddiriedolwr yn rhinwedd eu swyddi, sef:
   Llywydd y Llys; Cadeirydd y Cyngor; Is-gadeirydd y Cyngor.
2. Dim llai na phedwar na mwy nag wyth ymddiriedolwr enwebedig wedi eu henwebu fel a ganlyn:
   (i) Bwrdd yr Orsedd (1);
   (ii) Pwyllgorau Gwaith y tair eisteddfod gyfredol (3);
   (iii) Cyngor (4).
3. Dim llai na phedwar na mwy na chwe ymddiriedolwr etholedig i'w hethol gan y Llys gyda'r hawl i'r ymddiriedolwyr benodi i lenwi bylchau hyd y cyfarfod nesaf o'r Llys;
4. Dim mwy na dau ymddiriedolwr wedi eu cyfethol gan yr ymddiriedolwyr eraill.

Bwriedir sicrhau y bydd ystod eang o sgiliau a phrofiad o fewn y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys sgiliau a phrofiad diwylliannol, marchnata, technegol, busnes, ariannol, cyfreithiol a rheolaeth, ynghyd â phrofiad blaenorol o waith Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr allu cyfathrebu'n rhugl drwy'r Iaith Gymraeg;

Bwriedir hefyd geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws yr holl Ymddiriedolwyr o safbwynt rhyw, oedran a chysylltiadau lleol;

Hyfforddiant ac anwytho Ymddiriedolwyr

Mae gan yr holl Ymddiriedolwyr presennol gysylltiad hir gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Maent yn cael cynnig derbyn gwybodaeth am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Pe bai ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi fe fyddai hynny'n golygu y byddant yn cael hyfforddiant ar weithdrefnau a pholisïau'r Eisteddfod. Byddai asesiad yn cael ei wneud o'r anghenion hyfforddi, gyda darpariaeth ar gyfer hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o sefyllfa'r elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, sy'n cynnwys FRS 102, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ag eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw cyfanrwydd yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Rheoli. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gynorthwyo gan grŵp o uwch reolwyr sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli.

Mae'r Tîm yma yn cynnwys:
Betsan Moses (Prif Weithredwr)
Elen Elis (Cyfarwyddwr Artistig)
Gwenllïan Carr (Cyfarwyddwr Strategol)
Peter Davies (Cyfarwyddwr Cyllid)

Polisi cyflogi

Mae'r Eisteddfod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu llawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

Cydnabyddiaeth

Mae pob ymddiriedolwr yn rhoi o'u hamser am ddim. Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y cyfnod.

CYNLLUNIAU'R DYFODOL

Daw ein strategaeth i ben yn 2025, ac rydym wrthi'n cynnal sgyrsiau, sy'n gyfle i wyntyllu popeth, i edrych yn fanylach ar ein blaenoriaethau strategol.

Gyda'r byd wedi newid yn sylweddol ers cyfnod datblygu'r strategaeth bresennol, a ninnau yn dod at ddiwedd cyfnod y strategaeth, mae'n amserol ein bod yn cychwyn ar y broses o ymgysylltu gyda'n rhanddeiliaid a'n cymunedau er mwyn gwrando ar eu barn, cynnal trafodaeth agored ac adnabod blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Mae'n hollbwysig ein bod yn taflu'r rhwyd yn eang –gan glywed wrth ein partneriaid, ein cefnogwyr a'r rheini sydd eto i'w denu atom.


Blaenoriaethau Strategol yr Eisteddfod

- Codi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod fel prif ŵyl ddiwylliannol Cymru, adref ac yn rhyngwladol;
- Hyrwyddo'r Gymraeg, yn enwedig ymysg pobl ifanc a siaradwyr Cymraeg newydd;
- Dyfnhau ymrwymiad yr Eisteddfod i gymunedau Cymru;
- Cryfhau gwytnwch yr Eisteddfod yn ariannol a gweithredol;
- Cydweithio'n agos â phartneriaid er mwyn lledaenu cyfoeth ieithyddol a diwylliannol Cymru;
- Creu Eisteddfod sydd yn hygyrch ac yn groesawus i bobl o bob oed a chymuned;
- Anrhydeddu ein cyfrifoldeb i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bwriadwn sicrhau fod drafft cyntaf y strategaeth nesaf yn cael ei baratoi er mwyn ei lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025, a chasglu mewnbwn pellach gan ein rhanddeiliaid a'n cynulleidfaoedd am yr hyn a gynigir er mwyn sicrhau tryloywder ac er mwyn annog perchnogaeth o'r ffordd ymlaen i'r Eisteddfod wrthi iddi gefnogi Strategaeth y Gymraeg 2050.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu a'n cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ran yr ymddiriedolwyr



Gethin Thomas
Ymddiriedolwr (Cadeirydd y Cyngor)

30 Ionawr 2025

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Barn
Archwiliwyd cyfrifon Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y cyfnod 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol yr elusen ar 31 Mawrth 2024 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 8 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

Sail y farn
Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Fe wnaethom aros yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol
Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall
Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod yr elusen heb gadw cofnodion cyfrifo derbyniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol:neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoleiddiadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno (Rhan 4 o'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Rheoliadau 2008). Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
SA19 6AH

Dyddiad: 31/01/2025

DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL (GAN GYNNWYS CYFRIF INCWM A GWARIANT) AR GYFER Y CYFNOD 1 IONAWR 2023 I 31 MAWRTH 2024

		2024				2022			
		Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**
	Nodyn	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
INCWM									
Rhoddion a chymynroddion:	2 / 4	1,226	-	233	1,459	661	-	-	661
Gweithgareddau elusennol:									
Grantiau	3	-	1,847	-	1,847	-	2,594	-	2,594
Gŵyl yr Eisteddfod	5	5,272	-	-	5,272	3,768	10	-	3,778
Gweithgareddau masnachu	6	14	-	-	14	13	-	-	13
Incwm o fuddsoddiadau	7	36	-	58	94	-	-	34	34
Cyfanswm incwm		**6,548**	**1,847**	**291**	**8,686**	**4,442**	**2,604**	**34**	**7,080**
GWARIANT									
Gweithgraeddau codi arian	8	22	-	-	22	19	-	-	19
Gweithgareddau elusennol:									
Gŵyl yr Eisteddfod	8	5,919	1,788	-	7,707	4,556	1,859	-	6,415
Cyfanswm gwariant		**5,941**	**1,788**	-	**7,729**	**4,575**	**1,859**	**-**	**6,434**
Enillion/(Colledion) ar fuddsoddiadau		-	-	80	80	-	-	**(143)**	**(143)**
Incwm/Gwariant Net		**607**	**59**	**371**	**1,037**	**(133)**	**745**	**(109)**	**503**
Enillion cydnabyddedig eraill									
Cynnydd actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	18	800	-	-	800	1,540	-	-	1,540
Symudiad net yn y cronfeydd		**1,407**	**59**	**371**	**1,837**	**1,407**	**745**	**(109)**	**2,043**
Cysoni'r Cronfeydd									
Balansau ddygwyd ymlaen 1 Ionawr		4,855	980	1,398	7,233	3,448	235	1,507	5,190
Balansau gariwyd ymlaen 31 Rhagfyr		**6,262**	**1,039**	**1,769**	**9,070**	**4,855**	**980**	**1,398**	**7,233**

MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2024

	Nodyn	2024 £ 000	2022 £ 000
Asedau sefydlog			
Asedau anniriaethol	10	20	30
Eiddo parhaol	10	1,115	1,202
Buddsoddiadau	11	1,869	1,599
		3,004	2,831
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	12	1,022	1,286
Buddsoddiadau tymor byr	11	1,770	885
Banc		171	48
		2,963	2,219
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	13	(187)	(307)
Asedau cyfredol net		2,776	1,912
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		5,780	4,743
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	18	3,290	2,490
Asedau net		**9,070**	**7,233**
Cronfeydd Cadw			
Cronfeydd Gwaddol		1,769	1,398
Cronfeydd Cyffredinol		2,362	1,867
Cronfeydd Penodol	16	610	498
Cronfeydd Cyfyngedig	17	1,039	980
Cronfa Bensiwn	18	3,290	2,490
Cyfanswm Cronfeydd		**9,070**	**7,233**

Cymeradwywyd gan fwrdd yr ymddiriedolwyr ar 30 Ionawr 2025 ac fe'i llofnodwyd ar eu rhan gan:

Gwenno Williams
Trysorydd

DATGANIAD O'R LLIF ARIAN
AR GYFER Y CYFNOD 1 IONAWR 2023 I 31 MAWRTH 2024

	2024 £ 000	2022 £ 000
Llif arian o Weithgareddau Gweithredol	1,190	41
Llif arian o Weithgareddau buddsoddi		
Enillion ar fuddsoddiadau	94	34
Taliadau am eiddo parhaol	(86)	(937)
Derbyniadau trwy werthu buddsoddiadau	387	108
Taliadau am fuddsoddiadau newydd	(597)	(98)
Mewnlif/(allanlif) net ariannol o weithgareddau buddsoddi	988	(852)
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod	**1,433**	**2,285**
Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod	**2,421**	**1,433**

Cysoniad y llif arian a'r symudiad mewn gweithgareddau gweithredol

	2024 £ 000	2022 £ 000
Incwm net	1,037	503
Dibrisiad asedau diriaethol	168	125
Amorteiddiad asedau anniriaethol	15	14
(enillion)/colledion ar fuddsoddiadau	(80)	130
Llog a dderbynnir	(94)	(34)
Lleihad mewn dyledwyr cyfredol	264	(852)
Lleihad mewn credydwyr cyfredol	(120)	155
Mewnlif net ariannol o weithgareddau gweithredol	1,190	41

Dadansoddiad o arian a chyfwerthoedd arian

	2024 £ 000	2022 £ 000
Buddsoddiadau eiddo parhaol - COIF ac arian buddsoddi	480	500
Buddsoddiadau tymor byr - Cyfrif banc	1,770	885
Banc	171	48
Cyfanswm arian a chyfwerthoedd arian	**2,421**	**1,433**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y CYFNOD 1 IONAWR 2023 I 31 Mawrth 2024

1. Polisïau Cyfrifo

a. Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig fel y mae'n berthnasol o 1 Ionawr 2015.

Mae'r cyfrifon (datganiadau ariannol) wedi'u paratoi sy'n rhoi darlun 'cywir a theg' ac maent wedi ymadael o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau y mae eu hangen i ddarparu 'darlun cywir a theg'. Mae'r ymadawiad hwn wedi cynnwys dilyn Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 yn hytrach na'r Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Argymhellir Ymarferwch yn effeithiol o 1 Ebrill 2005 sydd wedi'i dynnu'n ôl ers hynny.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Mae'r Asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod ar gost hanesyddol neu eu gwerth trafodiad oni nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifyddu(au) perthnasol.

b. Incwm

Cydnabyddir incwm pan fydd gan yr elusen yr hawl i dderbyn yr arian a bod unrhyw amod ynghlwm wrth yr eitem neu eitemau o incwm wedi cael eu bodloni, ac yn debygol y bydd yr incwm yn cael eu derbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy.

Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

Cydnabyddir incwm ewyllys a chymynroddion pan fydd gan yr elusen yr hawl i'r incwm, mae derbyn yr arian yn debygol a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Lle mae cymynroddion wedi eu hysbysu i'r elusen, neu mae'r elusen yn ymwybodol o'r profiant, a'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi heb gael eu bodloni, yna mae'r gymynrodd yn cael ei thrin fel ased wrth gefn a ddatgelir os yn berthnasol.

c. Llogau a dderbynnir

Mae llog ar gyfrifon cadw yn cael ei gynnwys pan gaiff ei dderbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy gan yr elusen; mae hyn fel arfer ar hysbysiad am y llog a delir neu yn daladwy gan y banc.

ch. Cronfeydd

Cronfeydd anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cronfeydd Cyfyngedig yw'r arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw.

Mae'r cronfeydd penodol yn cynrychioli incwm anghyfyngedig lle mae'r ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn, wedi ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio at ddiben penodol.

Mae'r cronfeydd gwaddol yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr wedi nodi eu bod yn cael eu defnyddio yn unig ar gyfer pwrpas penodol o waith yr elusen neu ar gyfer prosiectau artistig penodol a wneir gan yr elusen.

d. Gwariant a TAW na ellir ei adennill

Mae gwariant yn cael ei gydnabod unwaith mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, ac yn debygol y bydd setliad yn ofynnol a swm y rhwymedigaeth yn cael ei fesur yn ddibynadwy. Mae'r gwariant wedi'i ddosbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Costau codi arian yn cynnwys costau masnachu masnachol ar gyfer loteri'r Eisteddfod.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau o berfformiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol eraill a wnaed i hyrwyddo dibenion yr elusen a'u costau cymorth cysylltiedig.
- Mae gwariant yn cael ei gyfrif ar sail groniadau ac mae'n cynnwys TAW na ellir ei adfer.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli eitemau hynny nad ydynt yn dod i mewn i unrhyw bennawd arall.

dd. Dyrannu costau cefnogi

Costau cynnal yw'r costau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nid ydynt yn uniongyrchol yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol. Maent yn cynnwys costau swyddfa, cyllid, personél, cyflogau a llywodraethu sy'n cefnogi gwaith yr elusen. Mae'r costau hyn wedi cael eu dyrannu o dan gweithgareddau elusennol.

e. Prydlesi gweithredol

Prydlesi gweithredol yw offer lle mae'r teitl i'r offer yn parhau gyda'r prydleswr. Mae taliadau rhent yn cael eu cyflwyno i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

f. Asedau treftadaeth

Cofnodir asedau treftadaeth yn ôl y gost wreiddiol. Gan fod asedau treftadaeth yr elusen wedi eu cynnal dros gyfnod o gan mlynedd a mwy mae'r gost wreiddiol yn rhy fach i gofnodi yn y Fantolen.

ff. Asedau anniriaethol

Mae'r Eisteddfod yn cyfrifo am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol. Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost hanesyddol. Mae'r asedau yma'n cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol droes eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig o bum mlynedd.

g. Asedau parhaol

Polisi'r Eisteddfod yw cofnodi asedau sefydlog ar y gost wreiddiol hyd yma, llai'r dibrisiant a grynhowyd.

ng. Dibrisiant

Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Moduron, dodrefn ac offer swyddfa	-	20%
Adeiladau parhaol	-	2%
Adeiladau ac eiddo arall	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cyffredinol)	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cylch yr Orsedd symudol)	-	Dim

h. Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad. Mae hyn yn golygu cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fydd buddsoddiadau yn cael eu gwerthu nid oed enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Cydnabuwyd unrhyw enillion neu golled yn eu gwerth yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

i. Stoc

Mae stoc yn cael ei gynnwys ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth gwireddadwy net.

j. Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod ar y swm sy'n ddyledus ar ôl setlo unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Mae rhagdaliadau wedi eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw, net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

l. Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif.

ll. Credydwyr

Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti ac mae'r swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei fesur neu amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, mae credydwyr ac unrhyw ddarpariaethau eraill yn cael eu cydnabod fel y swm setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau dyledus.

m. Tanysgrifiadau am Oes

Trosglwyddir tanysgrifiadau aelodau newydd y Llys, sy'n dymuno ymaelodi am oes, sef £100, i gyfrif Tanysgrifiadau am Oes yn y credydwyr. Rhyddheir un rhan o ddeg pob blwyddyn i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

n. Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod ar werth trafodiad ac wedyn mesur ar eu gwerth anheddiad.

o. Costau pensiwn budd diffiniedig

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn gyda Chyngor Sir Caerdydd, sy'n statudol cyfrannol lle mae'r budd wedi'i ddiffinio ac sy'n seiliedig ar gyflog terfynol. Gweinyddir gan Gyngor Sir Caerdydd. Cyfrannodd yr elusen 27.9% (2022: 26.7%) o gyflogau pensiynadwy i'r cynllun am y cyfnod 1 Ionawr 2023 i 31 Mawrth 2024, sef £0.12m (2022: £0.09m).

Mae'r rhwymedigaeth a gydnabyddir yn y fantolen o ran y cynllun buddion diffiniedig yw'r gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y dyddiad adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Mae'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Yn flynyddol mae'r elusen yn defnyddio actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth. Mae'r gwerth presennol yn cael ei gyfrifo drwy ddisgowntio'r taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon uchel sy'n cael eu cadw mewn sterling a thelerau sy'n debyg i gyfnod amcangyfrifedig y taliadau yn y dyfodol ('cyfradd ddisgownt').

Mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei fesur gyda'r hierarchaeth gwerth teg FRS102 ac yn unol â pholisi'r elusen ar gyfer asedau a gedwir yn yr un modd. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o dechnegau prisio priodol.

Mae enillion a cholledion sy'n deillio o addasiadau profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd yn cael eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu fel 'ar ôl ailbrisio atebolrwydd net diffiniedig'.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel costau gweithwyr, ac eithrio pan maent wedi ei gynnwys yng nghost yr ased, yn cynnwys:

- y cynnydd yn rhwymedigaeth budd pensiwn yn deillio o wasanaeth gweithiwr yn ystod y cyfnod; a
- cost y cyflwyniadau cynllun, newidiadau budd-dal, cwtogiadau ac aneddiadau.

Mae cost llog net wedi ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i gyfanswm net y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a gwerth teg asedau'r cynllun. Mae'r gost hon yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel 'draul cyllid'.

Yn ystod 2023/2024 trafododd yr elusen delerau gyda chynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro i adael y cynllun hwn ar 31 Mai 2024. Mae hyn wedi arwain at warged ymadael o £2.45m i'r elusen a dderbyniwyd ar 2 Rhagfyr 2024.

p. Costau pensiwn cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Eisteddfod hefyd wedi trefnu cynllun pensiwn gyda chyfraniadau wedi'u diffinio. Mae cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio yn gynllun pensiwn lle mae'r Eisteddfod yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Rheolwyd y cynllun yn annibynnol ac mae'r elusen yn cyfrannu 6% o gyflog pensiynadwy. Ar ôl talu'r cyfraniadau, nid yw'r Eisteddfod dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau'n daladwy, fe'u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol. Mae'r symiau nas talwyd i'w gweld yn credydwyr eraill, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

Cafwyd tâl pensiwn o £18,348 ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr i 31 Mawrth 2024 (blwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022 - £ Dim).

ph. Treth

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac felly, nid yw'n gorfod talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

2. Rhoddion

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2024 £ 000	2022 £ 000
Y Cronfeydd Lleol a Chyffredinol	206	122	-	328	264
Ymddiriedolaeth Edwin Griffiths, UDA	337	-	-	337	269
Rhoddion trwy ewyllys	534	-	-	534	100
Rhoddion gan sefydliadau eraill	20	-	-	20	22
Tanysgrifiadau aelodaeth	7	-	-	7	6
	1,104	122	-	**1,226**	**661**

3. Grantiau

Mae'r grantiau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod fel a ganlyn:

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2024 £ 000	2022 £ 000
Llywodraeth Cymru - Grant craidd 2023/24	-	1,000	1,000	943
Llywodraeth Cymru - Cynllun fforddiadwy 2024	-	350	350	-
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	168	168	-
Llywodraeth Cymru - Isadeiledd 2023	-	150	150	-
Stonewall - Prosiectau Mas ar y Maes	-	65	65	-
Llywodraeth Cymru - Dydd Miwsig Cymru 2024	-	44	44	-
British Council Cymru	-	22	22	-
Llywodraeth Cymru - Dydd Miwsig Cymru 2023	-	20	20	-
Grantiau eraill	-	28	28	-
Llywodraeth Cymru - Cynllunio Eisteddfod 2022+	-	-	-	600
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	-	-	119
Llywodraeth Cymru - Cyfalaf (Stondinau)	-	-	-	800
Llywodraeth Cymru - Gweithgareddau lles plant	-	-	-	100
Cronfa Treftadaeth y Loteri - Proseict Cymunedol	-	-	-	31
Ty Cerdd - Prosiect Ysbrydoli	-	-	-	1
Cyfanswm y grantiau	-	**1,847**	**1,847**	**2,594**

4. Cymynroddion gwaddol parhaol

Derbyniwyd tri gymynrodd yn ystod 2023/24 (2022: Dim).

	2024
	£ 000
Cronfa Ysgoloriaeth Eira Francis Davies	200
Cronfa John Harry, Pontarddulais	28
Tlws Coffa Leah Owen	5
Cyfanswm	**233**

5. Gweithgareddau elusennol:

Gŵyl yr Eisteddfod:	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2024 £ 000	2022 £ 000
Incwm o'r Ŵyl	2,623	74	-	2,697	2,352
Incwm o'r Maes	1,108	267	-	1,375	841
Awdurdodau a chynghorau Lleol	404	-	-	404	388
Cynlluniau nawdd	212	32	-	244	115
Incwm arall ar weithgareddau elusennol	63	-	-	63	44
Maes Carafanau	395	94	-	489	38
Cyfanswm	4,805	467	-	**5,272**	**3,778**

6. Gweithgareddau masnachu

	2024	2022
	£ 000	£ 000
Cynllun loteri	**14**	**13**

7. Incwm o fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	2024 £ 000	2022 £ 000
Llog y buddsoddiadau	13	57	70	34
Llog buddsoddiadau byr	23	1	24	-
Cyfanswm	36	58	**94**	**34**

8. Gwariant

	Gwariant Uniongyrchol £ 000	Costau Cynnal £ 000	2024 £ 000	2022 £ 000
Gweithgareddau codi arian				
Cynllun loteri	12	-	12	11
Ffi broceriaid buddsoddiadau	10	-	10	8
Cyfanswm	22	-	22	19
Gweithgareddau elusennol				
Gŵyl yr Eisteddfod	7,055	652	7,707	6,415
Cyfanswm	7,077	652	**7,729**	**6,434**

Dadansoddiad o'r costau cynnal		
Rheolaeth (Swyddfa a gwasanaethau TG)	288	352
Dibrisiad adnoddau	168	126
Costau cyllid	106	48
Llywodraethu	90	32
Cyfanswm	652	558

Mae'r costau llywodraethu yn cynnwys tâl i'r archwiliwyr am wasanaethau archwilio cyfrifon 2023/24 o £9,500 (2022: £9,000).

9. Costau staff

	2023/24 £ 000	2022 £ 000
Cyflogau gros	611	352
Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y cyflogwr	61	36
Cost pensiwn y cyflogwr	134	92
	806	480

Yn ystod y flwyddyn cyflogwyd, ar gyfartaledd misol, 12 o swyddogion cyflogedig llawn amser (2022 - 8) yn y meysydd canlynol:

	2023/24	2022
Gweithgareddau'r elusen	10	6
Gweinyddiaeth a rheoli	2	2

Personél Rheoli Allweddol

Y personél rheoli allweddol yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ymddiriedolwyr ynghyd â'r Tîm Rheoli sydd yn gweithredu trwy'r Bwrdd Rheoli.

Mae aelodau'r Tîm Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, Trefnydd a'r Pennaeth Artistig, Pennaeth Cyfathrebu a'r Pennaeth Cyllid. Cyfanswm y tâl gros a buddion i weithwyr y personél rheoli allweddol am y cyfnod o 15 mis oedd £435,125 - 4 aelod (2022: £224,525 - 4 aelod).

Nifer o gyflogeion yr oedd eu taliadau, yn seilieig ar gyflogau gros a gwerth trethadwy nwyddau mewn da ond heb gyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o fewn yr ystodau canlynol:

	2023/24	2022
£90,000 - £99,999	1	-
£80,000 - £89,999	-	-
£70,000 - £79,000	2	1
£60,000 - £69,000	1	1

Mae pob cyflogeion sydd yn ennill dros £60,000 yn aelod o gynllun pensiwn lle mae'r budd wedi'i ddiffinio.

Ymddiriedolwyr - Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn (2022: Dim) Ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwr dâl am wasanaethau proffesiynol a gyflenwyd i'r elusen (2022: £ dim). Costau teithio i'r ymddiriedolwyr ac aelodau eraill yn ystod 2023/24 oedd £44.60 (2022: £177.30).

10. Eiddo parhaol

Asedau treftadaeth

Gan nad oes cost ar gyfer regalia'r Orsedd (sydd yn cynnwys y Cleddyf Mawr a'r Corn Hirlas) nid ydym yn cynnwys yr eitemau hyn fel eiddo. Amcangyfrif gwerth ariannol y regalia ar gyfer pwrpas yswiriant yw £222,000 (Mehefin 2016).

Asedau anniriaethol

	Gwefan £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost		
1 Ionawr 2023	102	102
Ychwanegiadau	5	5
Gwarediadau	(39)	(39)
31 Mawrth 2024	68	68
Amorteiddiad		
1 Ionawr 2023	72	72
Cost am y flwyddyn	15	15
Gwarediadau	(39)	(39)
31 Mawrth 2024	48	48
Gwerth net yr asedau		
31 Mawrth 2024	**20**	**20**
31 Rhagfyr 2022	30	30

Asedau parhaol

	Adeiladau Parhaol £ 000	Adeiladau Eraill £ 000	Peiriannau/ Offer Maes £ 000	Dodrefn Llwyfan £ 000	Dodrefn Swyddfa £ 000	Eiddo i'r Orsedd £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost							
1 Ionawr 2023	570	976	863	19	144	33	2,605
Ychwanegiadau	-	47	-	11	23	-	81
Gwarediadau	-	-	-	-	(37)	-	(37)
31 Mawrth 2024	570	1,023	863	30	130	33	2,649
Dibrisiad							
1 Ionawr 2023	293	128	831	19	124	8	1,403
Cost am y flwyddyn	14	126	8	3	16	1	168
Gwarediadau	-	-	-	-	(37)	-	(37)
31 Mawrth 2024	307	254	839	22	103	9	1,534
Gwerth net yr eiddo							
31 Mawrth 2024	**263**	**769**	**24**	**8**	**27**	**24**	**1,115**
31 Rhagfyr 2022	277	848	32	-	20	25	1,202

11. Buddsoddiadau

Dewiswyd y buddsoddiadau i gwrdd â gofynion yr Eisteddfod am logau sylweddol, diogelwch cyfalaf, a'r rhwyddineb i droi rhai ohonynt yn arian yn ôl gofynion y llif arian.

Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	Gwerth y Farchnad 31.03.24 Cyfanswm £ 000	Gwerth y Farchnad 31.12.22 Cyfanswm £ 000	Y Gost 31.03.24 Cyfanswm £ 000	Llog 2023/24 £ 000
COIF Cyfrif Cadw *(Charities Official Investment Fund)*	241	231	472	472	472	25
Llog Sefydlog	-	362	362	275	392	11
Cyfranddaliadau	-	856	856	693	741	27
Nwyddau	-	38	38	34	28	-
Eiddo	-	60	60	42	64	4
Buddsoddiadau eraill	-	73	73	55	85	3
Arian ar gyfer dibenion buddsoddi	-	8	8	28	8	-
Cyfanswm Buddsoddiadau parhaol	241	1,628	**1,869**	1,599	1,790	70
Buddsoddiadau Tymor Byr	1,629	141	**1,770**	885	1,770	23
Cyfanswm Buddsoddiadau	1,870	1,769	3,639	2,484	3,560	93

Mae'r arian yng ngyfrif COIF Cadw yn arian hylifol iawn ar gyfer buddsoddi yn y tymor hwy.

Mae'r arian a gynhwysir fel Buddsoddiadau Tymor Byr yn cynrychioli'r arian a dderbyniwyd i'w ddefnyddio ar gyfer yr Eisteddfodau a gynhelir yn y dyfodol agos.

Symudiadau yn y Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cyfanswm £ 000
Gwerth y Farchnad - 31 Rhagfyr 2022	1,599
Gwerthu buddsoddiadau (Gwerth y farchnad)	(387)
Prynu buddsoddiadau newydd (Cost)	597
Lleihad yn yr arian ar gyfer dibenion buddsoddi	(20)
Enillion ar fuddsoddiadau	80
Gwerth y Farchnad - 31 Mawrth 2024	**1,869**

12. Dyledwyr

	2024	2022
	£ 000	£ 000
Dyledwyr - Masnachol	341	252
Dyledwyr - Eraill	10	531
Ad-daliad Treth Incwm a TAW	483	473
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	188	30
	1,022	1,286

Mae'r Rhagdaliadau ac incwm cronedig uchod yn cynnwys gwariant o £144,902 ar gyfer blaendaliadau am wasanaethau i Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf 2024.

13. Credydwyr: Dyledus mewn llai na blwyddyn

	2024	2022
	£ 000	£ 000
Credydwyr Masnachol	115	274
Credydwyr eraill	43	14
Croniadau	18	9
Tanysgrifiadau am Oes	11	10
	187	307

14. Dadansoddiad o'r Asedau net

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	2024	2022
	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
Eiddo anniriaethol	20	-	-	20	30
Eiddo Parhaol	475	640	-	1,115	1,202
Buddsoddiadau	241	-	1,628	1,869	1,599
Asedau cyfredol	2,423	399	141	2,963	2,219
Credydwyr cyfredol	(187)	-	-	(187)	(307)
Cynllun pensiwn	3,290	-	-	3,290	2,490
	6,263	1,039	1,769	9,070	7,233

15. Cytundebau prydles

Dadansoddiad o'r rhent sydd i'w dalu o dan gytundebau prydles am y ceir swyddogol:

	2024	2022
Y cytundeb yn dod i ben:	£ 000	£ 000
Mewn llai na blwyddyn	4	4
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	-
Rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
	4	4

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y CYFNOD 1 IONAWR 2023 I 31 MAWRTH 2024

16. Symudiadau yn y Cronfeydd Penodol

	2024 £ 000
Balans 1 Ionawr 2023	498
(Rhyddhau incwm) / incwm a dderbyniwyd ar gyfer yr Eisteddfod gyfredol:	
Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023:	
Cronfeydd lleol a chyffredinol	(316)
Incwm o'r Ŵyl	(161)
Incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol:	
Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Tâf 2024:	
Cronfeydd lleol a chyffredinol	119
Incwm o'r Ŵyl	467
Eisteddfod Genedlaethol Wresam 2025:	
Cronfeydd lleol a chyffredinol	3
Balans 31 Mawrth 2024	**610**

17. Symudiadau yn y Cronfeydd Cyfyngedig

	01.01.23 £ 000	Derbyniwyd £ 000	Gwariwyd £ 000	Arall £ 000	31.03.24 £ 000
Llywodraeth Cymru - Cynllunio 2022+	260	-	(260)	-	-
Llywodraeth Cymru - Cyfalaf	720	-	(80)	-	640
Llywodraeth Cymru - Grant	-	1,000	(1,000)	-	-
Llywodraeth Cymru - Fforddiadwy 2024	-	350	-	-	350
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	168	(168)	-	-
Llywodraeth Cymru - Isadeiledd 2023	-	150	(150)	-	-
Stonewall - Prosiectau Mas ar y Maes	-	65	(65)	-	-
Llywodraeth Cymru - Dydd Miwsig 24	-	44	(17)	-	27
Grantiau eraill	-	28	(28)	-	-
British Council	-	22	-	-	22
Llywodraeth Cymru - Dydd Miwsig 23	-	20	(20)	-	-
Cyfanswm	980	1,847	(1,788)	-	1,039

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y CYFNOD 1 IONAWR 2023 I 31 MAWRTH 2024

18. Cynllun Pensiwn

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn Enillion Ailbrisiedig Gyrfa Cyfartalog (CARE). Gweinyddir y Gronfa gan Adran Bensiynau Cyngor Dinas Caerdydd. Mae'r asedau'r cynllun wedi'u cadw mewn cronfeydd ar wahân.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar werth actiwaraidd llawn y gronfa ar 31 Mawrth 2022 a ddiweddarwyd i 31 Mawrth 2024 gan actiwari annibynnol.

	2024	2022	2021
Cyfradd gostyngiad	4.8%	4.7%	2.0%
Chwyddiant Mynegai Pris Defnyddwyr (CPI)	2.6%	2.6%	2.7%
Cyfradd cynnydd mewn tâl pensiynau	2.6%	2.6%	2.7%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau wedi'u gohirio	2.6%	2.6%	2.7%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.6%	3.6%	3.7%

Ar sail y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer disgwyliadau einioes, disgwylir i bensiynwr sydd yn 65 ar 31 Ragfyr i fyw am:

		2024	2022
Gwrywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	22.1	22.1
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	22.7	23.2
Benywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	24.3	24.6
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	25.3	26.0

Cyfradd adennill a ddisgwyliad ar 31/03/2024:

	Canran asedau ar 2024 (%)	Gwerth 2024 (£m)	Canran asedau ar 2022 (%)	Gwerth 2022 (£m)
Buddsoddiadau ecwiti	69.7	5.47	67.0	4.53
Eiddo	6.3	0.49	8.4	0.57
Bondiau'r llywodraeth	8.4	0.66	8.8	0.60
Bondiau corfforaethol	7.3	0.57	7.5	0.51
Credyd aml-ased	5.4	0.42	5.2	0.35
Arian	2.3	0.18	3.1	0.21
Arall	0.6	0.05	0.0	0.00
Cyfanswm	100.00	7.84	100.0	6.77

Sefyllfa y gronfa ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru:

	2024 £m	2022 £m
Canran o'r asedau	7.84	6.77
Amcangyfrif o'r rhwymedigaethau	(4.55)	(4.28)
(Rhwymedigaeth)/Ased a gydnabyddir ar y fantolen	3.29	2.49

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y cyfrif elw a cholled fel y canlynol:

	2024 £m	2022 £m
Cost gwasanaeth presennol	0.09	0.17
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	(0.15)	(0.02)
Cyfanswm cost gweithredu	(0.06)	0.15

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y CYFNOD 1 IONAWR 2023 I 31 MAWRTH 2024

Newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig yn ystod y cyfnod:

	2024	2022	2021
	£m	£m	£m
Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig	4.28	6.59	6.61
Cost gwasanaeth presennol	0.09	0.17	0.17
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	0.25	0.13	0.09
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	0.04	0.03	0.03
Lleihad/(Cynnydd) actiwaraidd ar rwymedigaethau	0.07	(2.51)	(0.10)
Buddion a dalwyd	(0.18)	(0.13)	(0.15)
Cost cwtogi	0.00	0.00	(0.06)
Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig	4.55	4.28	6.59

Newidiadau i werth farchnad asedau'r cynllun yn ystod y cyfnod:

	2024	2022	2021
	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	6.77	7.54	6.55
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.40	0.15	0.09
Cynnydd actiwaraidd ar asedau	0.69	(0.91)	0.91
Cyfraniadau'r cyflogwr	0.12	0.09	0.11
Cyfraniadau'r cyflogedig	0.04	0.03	0.03
Buddion a dalwyd	(0.18)	(0.13)	(0.15)
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	7.84	6.77	7.54

Gwir enillion asedau'r cynllun:

	2024	2022	2021
	£m	£m	£m
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.40	0.15	0.09
Cynnydd (Colled) actiwaraidd ar asedau	0.69	(0.91)	0.91
Gwir enillion/(colledion) ar asedau'r cynllun	1.09	(0.76)	1.00

Dadansoddiad hanesyddol gwerthoedd asedau, rhywmedigaethau'r cynllun, cyfanswm y diffyg a phrofiad enillion a cholledion:

	2024	2022	2021	2020
	£m	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun	7.84	6.77	7.54	6.55
Rhwymedigaethau'r cynllun	(4.55)	(4.28)	(6.59)	(6.61)
Gweddill/(Diffyg) yn y cynllun	3.29	2.49	0.95	(0.06)

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1155539

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL
A DATGANIADAU ARIANNOL
am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2022

EISTEDDFOD

Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif elusen: 1155539
www.eisteddfod.cymru

CYNNWYS

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr:

Amcanion a Gweithgareddau'r elusen	2
Cyflawniadau a pherfformiad	4
Adolygiad Ariannol	8
Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	11
Strwythur, Llywodraethu a Rheoli	12
Cynlluniau'r dyfodol	15
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	16
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	19
Mantolen	20
Datganiad o'r Llif Arian	21
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	22

ATODIADAU
Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol archwiliedig:

Atodiad A – Swyddogion y Llys a'r Cyngor	34

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2022

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2022. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn nodyn 1 i'r cyfrifon ac yn cydymffurfio â chyfansoddiad yr elusen, Deddf Elusennau 2011, Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP) sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Amcanion yr Eisteddfod, er budd y cyhoedd yng Nghymru a ledled y byd, yw:

- hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a'r iaith Gymraeg; a hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, drwy unrhyw ddull a modd yr ystyrir yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gŵyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

  Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddilyn yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Y Gymraeg yw iaith gweithgareddau'r Eisteddfod a'r Ŵyl. Tra'n parchu'r egwyddor hon, dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r di-gymraeg, a gweithgareddau i'r rhai hynny sy'n dysgu'r Gymraeg.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl deithiol/symudol. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol, Cymdeithas awdurdodau lleol Cymru a chyrff eraill, dylid ymdrechu i sicrhau bod yr ymweliadau'n gymorth i hyrwyddo adnewyddiad y cymunedau, a bod y budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd hynny yn sylweddol a pharhaol.
- Bwriedir i'r Eisteddfod Genedlaethol ddathlu egni a chyfoesedd yr iaith Gymraeg, ardderchowgrwydd diwylliant Cymru, a thraddodiadau gwerthfawr a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl gystadleuol yn ei hanfod. Dylid adolygu nifer a natur y cystadlaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas a pherthnasol i'r cyfnod.
- Bwriedir i'r Eisteddfod hefyd fod yn llwyfan i'r goreuon yn amrywiol agweddau'r diwylliant Cymreig a'r celfyddydau yng Nghymru, boed amatur neu broffesiynol.
- Rhaid sicrhau strwythur rheoli a threfnu effeithiol sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol ac ymarferol sy'n bodoli er mwyn sicrhau gweithredu amserol a diwastraff gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Dylai'r rheolaeth fod yn agored a thryloyw ac yn parchu egwyddorion sylfaenol priodoldeb a llywodraeth gorfforaethol yn gyffredinol.
- Dylid cydweithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol (cyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat) a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ŵyl.
- Ni ddefnyddir eiddo'r Eisteddfod at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennol wrth benderfynu ar ein gweithgareddau.

Amcanion craidd yr Eisteddfod Genedlaethol yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu iaith, hanes a thraddodiadau Cymru mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal i ddathlu popeth Cymreig ac i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn y brif ffrwd drwy:

- Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo diwylliant, bwyd, tirlun a threftadaeth Cymru sy'n adlewyrchu Cymru;
- Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
- Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r ŵyl yn hyrwyddo a'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, trwy arddangos talent o Gymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ymglymu artistiaid, cerddorion, perfformwyr, busnesau, addysg a darparwyr cymdeithasol. Mae'r holl bobl leol a'r holl fusnesau lleol yn cael eu hannog i fynd ati i gymryd rhan, gan greu cyfuniad â blas Cymreig arbennig i adlewyrchu diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd pobl Cymru.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyflawni ei hamcanion craidd trwy:

- Arddangos hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a threftadaeth Cymru; annog pobl i ddathlu hanes a diwylliant Cymru;
- Feithrin a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg pob grŵp oedran;
- Ddarparu cyfleoedd cyffrous i ysgolion a chymunedau trwy gydol Cymru i gymryd rhan ynddynt;
- Ddarparu cyfleoedd i'n hartistiaid Cymreig blaenllaw i arddangos eu talentau;
- Ddod yn hygyrch i gynulleidfa fwy eang o wahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd, trwy ddod â'r Eisteddfod i mewn i'r oes fodern;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymysg busnesau yn y sector preifat;
- Gynyddu proffil Cymru ar lefel rhyngwladol;
- Gydlyniant cymunedol trwy weithredu a chymryd rhan yn wirfoddol yn lleol;
- Weithio gyda sefydliadau lleol i gryfhau Cymru a'i chymunedau;
- Godi proffil a phoblogrwydd canu corawl yng Nghymru;
- Arloesi gyda thechnoleg newydd e.e. y cyntaf yn y Byd i we-ddarlledu'n fyw yn y Gymraeg yn 2000, a'r rhaglen Gymraeg gyntaf ar gyfer yr iPhone yn 2010;
- Annog datblygiad addysgol;
- Gryfhau llwyfan Cymru;
- Gynyddu cystadleuaeth iach a gwaith tîm;
- Annog pobl i gyfrannu o gefndiroedd di-gymraeg;
- Adeiladu pontydd rhwng pobl o ethnigrwydd a chenhedloedd amrywiol.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Y Gronfa Leol a nawdd: Bu'r Gronfa Leol yn llwyddiannus, a braf oedd gweld y pwyllgorau yn parhau i drefnu a chynnal digwyddiadau ar ôl cyrraedd y targed o £400,000 fel rhan o'r bartneriaeth gymunedol gyda Bro 360. Newidiodd y pwyslais o godi arian i godi hwyl, a llwyddodd hyn i gadw'r momentwm ymysg trigolion lleol. Diolch i bawb a fu wrthi'n codi arian a chodi hwyl dros gyfnod y prosiect.

Bu rhagor o gydweithio rhwng y pwyllgorau testun a'r pwyllgorau codi arian lleol hefyd a byddwn yn edrych ar sut y gellir datblygu hyn yn y dyfodol.

Llwyddodd y gronfa nawdd a grantiau i gyrraedd y nod hefyd yng Ngheredigion, a hynny mewn cyfnod ariannol anodd. Mae partneriaethau'n rhan hanfodol o'n gwaith, a braf yw nodi ein bod ni wedi cryfhau amryw o'r partneriaethau eleni. Mae pob un o'n partneriaethau'n cefnogi'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg, ynghyd â rhoi blas o'n diwylliant i bobl o bob oed a chefndir.

Cystadlu: Roedd niferoedd cystadlu'n uchel adeg y dyddiad cau, ond yn anffodus fe dynnodd nifer o unigolion yn ôl yn hwyr yn y dydd. Roedd nifer y cystadleuwyr torfol yn dda, gydag ychydig yn unig yn tynnu'n ôl, ond roedd hyn i'w ddisgwyl gan fod niferoedd COVID yn parhau'n weddol uchel.

Symudwyd y dyddiad cau ar gyfer derbyn copïau i ddiwedd Mehefin a chrëwyd system ddigidol syml iawn gan ddefnyddio Dropbox a oedd yn hynod hwylus i'r cystadleuwyr a'r beirniaid, gan dorri lawr ar waith swyddfa'n fawr yn ystod cyfnod prysur. Braf oedd gweld cynifer o feirniaid a'r BBC yn barod i dderbyn copïau electronig a byddwn yn parhau gyda'r arfer hwn yn y dyfodol, gan ei fod yn torri i lawr ar waith, ar bapur ac ar gostau.

Datblygwyd system ddigidol newydd sbon ar gyfer cystadleuwyr ar ôl y dyddiad cau a gweithiodd hon yn dda, gan dorri i lawr ar waith yn sylweddol. Byddwn yn parhau i'w defnyddio yn y dyfodol gan fod hyn yn hwyluso gwaith yr adran gyllid ac yn bwydo'r ap a system ganlyniadau'r BBC.

Diolch i'r tîm cystadlu a gymerodd drosodd o fis Mehefin ymlaen, gan dynnu popeth ynghyd, a diolch hefyd i'r tîm a fu wrthi'n ystod yr wythnos yn cyd-lynu gyda'r beirniaid a chystadleuwyr.

Gweithiodd y rhaglen hyfforddi ar gyfer Arweinyddion Llwyfan y dyfodol dan ofal Betsan Powys yn dda. Edrychwyd eto ar y seremonïau dyddiol nad ydynt yng ngofal yr Orsedd, gan gyflwyno elfen o sgwrs anffurfiol neu berfformiad o waith buddugol ar ffilm, a chafodd hyn groeso gan yr enillwyr, y cyfranwyr a'r gynulleidfa.

Cafodd seremoni'r Fedal Wyddoniaeth ac enillwyr Y Lle Celf eu symud o lwyfan y Pafiliwn i'r Pentref Gwyddoniaeth ac Y Lle Celf. Cafwyd ymateb cymysg a bydd y panelau unigol yn trafod y seremonïau cyn penderfynu a fydd hyn yn parhau i'r dyfodol.

Cymysg hefyd oedd yr ymateb i'r arbrawf o uno seremonïau Tlws y Cerddor ac Albwm Cymraeg y Flwyddyn, a bydd angen edrych ar hyn hefyd ar gyfer y dyfodol.

Cyngherddau: Bu'r ymateb i'r cyngherddau eleni'n gymysg, gyda rhai nosweithiau'n gweithio'n well na'i gilydd. Roedd effaith COVID, gydag awydd pobl i beidio â bod y tu mewn am gyfnodau rhy hir, ynghyd â'r shifft yn nemograffeg ein cynulleidfa, i'w gweld yn glir, gyda mwy o bobl yn dewis cymdeithasu yn yr awyr agored nag erioed.

Gweithiodd symud Cabarela i'r Pafiliwn yn dda. Roedd y cysyniad eisoes wedi gweithio mewn gofodau llai, ac felly roeddem ni'n hyderus am ei symud. Cyngerdd arall a weithiodd eto eleni oedd Gig y Pafiliwn, ac un o lwyddiannau mawr yr wythnos yn y Pafiliwn oedd y sioe prynhawn, Na Nel, a ddenodd gynulleidfa deuluol newydd i'r Pafiliwn ddiwedd prynhawn Mawrth. Bu'r Gymanfa hefyd yn llwyddiant, gyda nifer yn ei chanmol fel un o'r cymanfaoedd gorau ers blynyddoedd.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Cafwyd dwy noson hwyr yn y Pafiliwn, y parti mawr ar y nos Sadwrn gyntaf gyda Band Pres Llareggub ac Afrocluster a'r Parti Pinc, nos Iau, digwyddiad 'datganiad' a oedd yn binacl rhaglen Mas ar y Maes. Bu'r ddwy noson yn llwyddiannus, ac er na chafwyd cynulleidfaoedd mawr, roedd llawer yn galw am ragor o arbrofi fel hyn yn y dyfodol.

Is-bafiliynau: Roedd mwy o ddigwyddiadau nos ar draws y Maes eleni nag erioed, gyda hyd at wyth o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yr un pryd ar rai nosweithiau. Cafodd hyn effaith ar niferoedd mewn amryw o'r gweithgareddau, a chyda rhai gofodau'n denu nifer fach o bobl, roedd hyn yn annheg ar y perfformwyr ac ar y gynulleidfa. Yn sgil hyn, rydyn ni'n argymell ein bod ni'n canolbwyntio ein gweithgareddau nos mewn hyd at bump lleoliad, er mwyn sicrhau bod cynulleidfa deilwng ym mhob un, gan roi'r gorau i gystadlu'n ormodol yn erbyn ein hunain.

Dadeni: Dadeni oedd prif ffocws ein cais grant ni i Gyngor Celfyddydau Cymru eleni. Ein bwriad oedd creu digwyddiad cyffrous ac uchelgeisiol a fyddai'n tanio dychymyg ymwelwyr newydd ac yn ailgynnau angerdd ein cynulleidfa graidd at yr Eisteddfod.

Gyda sioe syrcas awyrol hynod wedi'i phlethu gyda geiriau hyfryd a pherfformiad anhygoel gan Casi Wyn, ynghyd â thân a gorymdaith lusernau oedd â'i gwreiddiau mewn prosiect cymunedol lleol. Daeth miloedd i wylio'r sioe yn dilyn perfformiad Dafydd Iwan ar Lwyfan y Maes. Y bwriad oedd cynnal y sioe awyrol am ddwy noson ond bu'n rhaid gohirio'r sioe gyntaf oherwydd y tywydd. Argymellir ein bod ni'n creu sbectacl arall yn Llŷn ac Eifionydd dan arweiniad yr un tîm creadigol, er mwyn adeiladu ar lwyddiant Dadeni.

Maes B: Bu'n flwyddyn dda i Faes B, wrth i genhedlaeth newydd o bobl ifanc gael cyfle i ddod i'r ŵyl 'fawr' gyntaf ers 2017. Braf oedd gweld y niferoedd eleni ymysg yr uchaf am dros ddegawd.

Mae angen sicrhau bod Maes B wrth ymyl y Maes, gan ei fod mor bwysig denu cynulleidfa Maes B i'r Maes yn ystod y dydd a chyda'r nos. Ar wahân i ambell eithriad, roedd niferoedd yn isel i weld y band cyntaf, ac felly rydyn ni'n argymell cael gwared â'r slot gyntaf ar y llwyfan mawr o 2023.

Gweithiodd y babell les yn dda, ynghyd â'r polisi diogelwch rhyw, gyda'r holl gamau'n cael eu dilyn yn gywir pan fu angen gweithredu. Yn anffodus, gadawyd nifer o bebyll a chadeiriau ar ôl ar y diwedd, sy'n groes i'n hymgyrch 'Gadael dim olion' a bydd rhaid codi proffil yr ymgyrch yn well y flwyddyn nesaf.

Theatr: Rydyn ni'n ddiolchgar i Theatr Genedlaethol Cymru am eu dealltwriaeth a'u cydweithio amyneddgar ar ôl colli'r Theatr wreiddiol yn hwyr yn y dydd. Yn dilyn trafodaethau gyda'r cwmni'n dilyn yr Eisteddfod, fe'n hysbyswyd nad oedd hi'n flaenoriaeth bellach iddynt hwy noddi'r Theatr ac na fyddent yn darparu yr offer sain a goleuo nac ychwaith technegwyr i'r dyfodol.

Mae arlwy theatr yr Eisteddfod wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy o gwmnïau'n awyddus i ddefnyddio gofodau llai confensiynol, a phoblogrwydd y rhaglen theatr a dawns stryd yn cynyddu'n flynyddol.

Gyda'r bartneriaeth gyda THGC yn newid, dyma'r cyfle i argymell ein bod ni'n canolbwyntio ar berfformiadau theatr stryd yn ystod y dydd a chynnal perfformiadau theatrig gyda'r hwyr mewn gwahanol leoliadau o amgylch y Maes, er mwyn denu cynulleidfa amgen a newydd i fwynhau ein harlwy drama, gan hepgor adeilad y Theatr.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Cafodd y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg groeso brwd gan ymwelwyr o bob oed, ac er nad oedd popeth wedi'u gosod yn y lle iawn, roedd yr arlwy'n apelgar a deniadol. Mae'n werth edrych ar nifer y gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn nesaf ac ystyried a oedd gormod yn digwydd yno bob dydd – roedd dros 200 o weithgareddau wedi'u trefnu dros yr wythnos gyfan. Argymhellir ein bod ni'n parhau i ddathlu gwyddoniaeth a thechnoleg ar ffurf pentref i'r dyfodol.

Maes D: Gweithiodd Maes D yn dda gyda'r amserlen strwythuredig yn cael ei chroesawu gan greu cipolwg o holl ystod gweithgareddau'r Eisteddfod mewn awyrgylch gynnes a chroesawgar i ddysgwyr o bob lefel. Roedd symud o gynnal gweithgareddau mewn adeilad mawr gwyn i teepee hefyd yn gam ymlaen. Mae angen mwy o addurniadau er mwyn creu ymdeimlad o ŵyl, ac edrych ar sut ydyn ni'n defnyddio'r gofodau er mwyn creu ymdeimlad o bentref.

Y Babell Lên: Cafodd y Babell Lên ei thrawsnewid gyda phabell ddeniadol a phwrpasol a oedd yn gwbl wahanol i'r gorffennol. Un o'r amcanion oedd sicrhau ei bod hi'n fwy agored a chroesawgar, ac roedd hyn yn sicr yn wir, ond mae angen sicrhau bod yr holl stiwardiaid yn ymwybodol o'r polisi drws agored a chroesawgar fel bod modd i ragor o bobl grwydro mewn ac allan yn ystod sesiynau. Bu symud rownd derfynol yr Ymryson i'r Pafiliwn yn llwyddiant, a braf oedd gweld y Pafiliwn yn llawn.

Ni lwyddodd pob sesiwn i ddenu cynulleidfa ond roedd cynnwys nifer ohonynt yn gwthio ein blaenoriaethau o ran cynhwysedd, felly mae angen ystyried sut mae denu ein cynulleidfa i sesiynau sydd, ar y wyneb, yn anghyfarwydd. Mae'n bwysig ein bod ni'n cynnig llwyfan a phlatfform i bawb er mwyn creu rhaglen sy'n adlewyrchu'r byd llenyddol yng Nghymru heddiw.

Encore: Roedd y gyfres o sesiynau gyda theuluoedd cerddorol lleol yn llwyddiannus iawn gyda chanmol yr awyrgylch braf a chynnes. Ni weithiodd nifer o'r sesiynau gyda'r hwyr, yn arbennig ar ddechrau'r wythnos, a thenau oedd y gynulleidfa i'r sesiynau cynhwysol, ac efallai nad oedd lleoliad yr adeilad wedi helpu. Mae Encore yn blatfform gwych i'n cyn-enillwyr cerddoriaeth ac yn cynnig cyfleoedd perfformio pwysig.

Un o'r sesiynau mwyaf poblogaidd oedd y cyfle i ymuno gyda Sian Meinir, Annette Bryn Parri a Dafydd Iwan i ganu hen ganeuon, a braf oedd croesawu trigolion cartref lleol yn Nhregaron i ymuno mewn sesiwn a oedd yn pontio rhwng y Maes a'r gymuned. Cafwyd canmoliaeth hefyd i'r acwsteg, ond nodwyd fod y llwyfan yn rhy fach a gallai llwyfan yng nghanol yr adeilad fod wedi gweithio'n well.

Y Lle Celf: Daeth criw o guraduron newydd i weithio gyda ni er mwyn rheoli'r broses ddethol, arwain ar greu a rhedeg Y Lle Celf eleni. Cafwyd canmoliaeth fawr, gydag amserlen gynhwysfawr a'r gwaith wedi'i osod yn ddeniadol. Cafodd y sgyrsiau eu symud i Y Lle Celf ei hun, a gweithiodd hyn yn dda, ynghyd â chyfres o ddosbarthiadau meistr gydag artistiaid amrywiol.

Llwyfan y Maes: Un o atyniadau mwyaf y Maes unwaith eto eleni. Gweithiodd y penwythnos cyntaf yn dda, a chafodd Dafydd Iwan gynulleidfa enfawr. Mae dydd Llun a dydd Mawrth yn llawer mwy distaw, a dylid ystyried symud y cyngherddau o'r Pafiliwn i Lwyfan y Maes ar y nosweithiau hyn er mwyn datblygu'n cynulleidfa.

Gweithiodd y rhaglen hyfforddi rheolwr llwyfan yn dda, a byddwn yn parhau gyda hyn i'r dyfodol gan fentora darpar-reolwyr newydd ar draws y maes.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Prosiectau penodol: Gweithiodd rhaglen Mas ar y Maes yn dda gyda rhaglen amrywiol ar draws yr is-bafiliynau. Daeth arian Cronfa Gari i ben ac rydyn ni'n ddiolchgar i'r Gronfa am y gefnogaeth dros y blynyddoedd. Trefnwyd nifer o weithgareddau gyda rhai'n fwy poblogaidd na'i gilydd. Rydyn ni'n argymell ein bod ni'n canolbwyntio ar dri digwyddiad comedi mawr yn y dyfodol yn hytrach na chyfres o ddigwyddiadau llai.

Digidol: Rhoddwyd mwy o bwyslais ar fideo gan gynhyrchu cyfres o ffilmiau a fideos, ac felly mae gennym ddeunydd o safon i'w rannu yn ystod y flwyddyn. Roedd cael cymorth rhan amser ychwanegol i gydweithio ar gyfryngau cymdeithasol yn help er mwyn cynllunio a sicrhau bod ein rhaglen artistig yn cael sylw yn ogystal â negeseuon corfforaethol ac ymarferol. Roedd y criw ifanc fu'n gweithio ar straeon Instagram yn ystod yr wythnos yn gaffaeliad gan gynyddu'r dilynwyr o 15% yn ystod yr wythnos.

Cafodd yr ap groeso eto, a byddwn yn cyflwyno ambell newid heb amharu ar hygyrchedd a symlrwydd, gan sicrhau bod yr wybodaeth i gyd yn ymddangos mewn BST o'r cychwyn. Bydd datblygiadau i'r ap yn digwydd wrth i ni ddatblygu ein gwefan newydd a fydd yn cymryd lle y wefan gyfredol yn raddol gan gychwyn gyda system gystadlaethau a system archebu stondinau newydd.

Cyhoeddiadau: Cafodd yr ap ei wthio yn fwy nag erioed eleni wrth i ni roi'r gorau i argraffu rhaglen boced a thorri i lawr ar nifer y mapiau. Gwerthwyd pob copi o'r Rhaglen erbyn bore Sul, ac mae'r Rhestr Testunau a'r Cyfansoddiadau hefyd allan o brint.

Y bwriad yw newid diwyg y rhaglen swyddogol yn sylfaenol, gan greu fformat tebycach i gylchgrawn a fydd yn cynnwys erthyglau nodwedd yn ogystal ag amserlenni traddodiadol.

Stondinau: Fel gyda nifer o elfennau eraill, roedd y gwaith ar stondinau wedi cychwyn cyn y cyfnod clo, ac felly roedd mwy o waith gweinyddol na'r arfer wrth wirio manylion a chadarnhau popeth. I'r dyfodol, rheidrwydd yw i bob stondinwr dalu'n llawn cyn cyrraedd, ac mae angen un o'r tîm technegol i barhau i weithio gyda ni tan ddiwedd Medi i ddelio gydag unrhyw ymholiadau.

Defnyddiwyd ein stondinau newydd am y tro cyntaf, a byddwn yn edrych ar sut y gallwn eu rhentu i wyliau eraill er mwyn cynyddu incwm yn y dyfodol.

Dangosyddion gweithgareddau wyneb yn wyneb

Dangosydd	Nifer	
Nifer o weithgareddau i blant	350	
Nifer o blant yn mynychu	10,500	
Nifer o weithgareddau i bobl ifanc (11-25 oed)	135	
Nifer o bobl ifanc (11-25 oed) yn mynychu	23,000 (gan gynnwys mynychwyr Maes B)	
Nifer o weithgareddau i deuluoedd	350	
Nifer o oedolion a nifer o blant yn mynychu gweithgareddau i deuluoedd	Plant 8,000	Oedolion 2,500
Nifer o weithgareddau i oedolion	900	
Nifer o oedolion yn mynychu	125,000	

Derbyniwyd cyfanswm o £7.080m o incwm i mewn yn ystod y flwyddyn i gymharu gyda £2.490m yn 2021 a gwariwyd cyfanswm o £6.434m (£1.696m yn 2021). Gan gynnwys hefyd y gostyngiad o £143,000 yng ngwerth y buddsoddiadau (enillion o £75,000 yn 2021), mae hyn yn gadael gweddill (cyn y cynnydd yng ngwerth y cynllun pensiwn) ar ddiwedd y flwyddyn o £503,000 (2021: Gweddill o £869,000).

Ar 31 Rhagfyr 2022 roedd yr asedau net yn £7.233m (£5.190m yn 2021).

Cronfeydd

Mae'r Eisteddfod yn cadw cronfeydd ariannol mewn nifer o gategorïau:

Cronfeydd Anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cronfeydd Cyfyngedig - arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw. Cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2022 oedd £980,000 (2021: £235,000).

Cronfeydd Penodol - yn cynrychioli incwm a dderbynnir ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd cyfanswm o £374,000 ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Yn ogystal rhyddhawyd swm o £878,000 yn ôl mewn perthynas ag arian a godwyd ar gyfer Eisteddfod Ceredigion cyn 2022. Dangosir y symudiadau i'r gronfa yn nodyn 16 o'r cyfrifon. Roedd cyfanswm y gronfa ar 31 Rhagfyr 2022 yn £498,000 (2021 - £1,002,000).

Cronfeydd Gwaddol - cronfeydd sydd i'w cadw er budd yr elusen fel Cronfa Cyfalaf. Cyfanswm y gronfa yma ar 31 Rhagfyr 2022 oedd £1.398m (£1.507m ar ddiwedd 2021).

Cronfa Bensiwn – Ar 31 Rhagfyr 2022 roedd gwarged yn y gronfa bensiwn o £2.490m (2021 – Gwarged o £950,000).

Polisi Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddiffyg dros dro (e.e. colled mewn Eisteddfod benodol neu gynnydd anrhagweladwy yn y gwariant) fel y gall yr elusen parhau i weithredu ar unrhyw adeg.

Oherwydd natur ansicr nifer o ffynonellau incwm a gwariant, fel y gronfa leol, grantiau, nawdd, gwerthiant tocynnau a chostau ychwanegol o ran tywydd drwg, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar bolisi lle dylai'r cronfeydd anghyfyngedig fod yn werth 50% o leiaf o gyfanswm y gwariant (yn seiliedig ar gyfrifon eleni), sy'n cyfartalu i £3.2m mewn cronfeydd wrth gefn. Ar y lefel yma, teimlai'r ymddiriedolwyr y bydd yr elusen yn gallu parhau i weithredu mewn achos o ddiffyg sylweddol naill ai oherwydd amgylchiadau fel y pandemig Covid-19 neu fod un o wyliau'r Eisteddfod yn gwneud colled ariannol. Nid yw'r cronfeydd rhydd o £1.867m (2021: £1.496m) yn cyrraedd y nod ar hyn o bryd.

Arferion codi arian

Rydym yn ffodus ac yn hynod ddiolchgar am bob rhodd a chyfraniad ariannol, rhai a dderbynnir yn flynyddol ac eraill ar gyfer gwyliau penodol. Mae'r ymddiriedolwyr, gan gynnwys swyddogion y pwyllgorau cyllid ar draws Cymru, yn ymdrechu bob amser i sicrhau y safonau uchaf, llywodraethu da ac adolygiad parhaus mewn perthynas â'n gweithgareddau codi arian.

Cronfeydd Lleol a Chyffredinol - Mae'r mwyafrif o'r rhoddion a dderbyniwyd gan yr elusen yn cael eu derbyn trwy bwyllgorau apêl leol i godi arian i'r Eisteddfod sydd yn ymweld â'u hardal. Hwn yw gyfraniad dalgylch yr Eisteddfod i'r gost o gynnal yr ŵyl ac yn arferol mae'r pwyllgorau apêl yn codi arian am gyfnod o ddwy i dair blynedd hyd at gynnal yr Eisteddfod. Mae'r derbyniadau yma'n cynnwys rhoddion gan unigolion i ddigwyddiadau codi arian cyffredinol.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae pob pwyllgor apêl newydd yn derbyn cyfarwyddiadau gweithredu gan yr elusen. Mae cynrychiolwyr o bob pwyllgor apêl yn cyfarfod yn rheolaidd i adrodd yn nôl i'r Pwyllgor Cyllid Canolog.

Mae swyddogion y pwyllgor cyllid hefyd yn sicrhau:

- Dim ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd unigolyn;
- Dim ymagweddau parhaus at ddiben cyfreithloni neu gaffael arian neu eiddo arall ar ran yr elusen;
- Bod neb yn rhoi pwysau gormodol ar rywun i roi arian neu eiddo arall.

Yn ystod 2022, derbyniwyd £264,000 (2021: £48,000) ar gyfer y cronfeydd lleol a chyffredinol. Mae'r swm a godwyd yn flynyddol yn gallu amrywio gan ei fod yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae pwyllgorau'r apêl yn codi arian.

Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli derbyn arian o £51,000 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022 a £213,000 ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Yn amlwg, oherwydd cyfyngiadau Covid-19 roedd y swm a gasglwyd yn ystod 2021 yn sylweddol llai.

Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys incwm o £161,000 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn i Incwm o'r Ŵyl sydd yn cynrychioli gwerthiant tocynnau a nawdd gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023. Cyfrifwyd am yr incwm yma trwy'r Cronfeydd Penodol.

Rhoddion trwy ewyllys – Derbyniwyd tair rhodd eleni, gwerth £100,000, lle mae cefnogwr yr Eisteddfod wedi dewis rhoi rhodd yn eu ewyllys (2021: un rhodd – gwerth £33,000).

Ymgyrchoedd eraill - Ymgymerir â phob marchnata uniongyrchol arall gan staff yr Eisteddfod i sicrhau nad yw'n afresymol ymwthiol na pharhaus. Gwneir cyswllt trwy farchnata uniongyrchol *mailchimp* ar gyfartaledd tua unwaith y mis. Mae'r holl ddeunydd marchnata yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut y gellir tynnu person oddi ar restrau postio.

Nid yw'r Eisteddfod yn defnyddio unrhyw gorff proffesiynol i godi arian. Ni fu unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn am weithgaredd codi arian yr elusen.

Polisi Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu buddsoddi arian mewn portffolio risg canolig – cyfuniad o stoc y llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi er mwyn cwrdd â gofynion am gynhyrchu incwm a thyfiant cyfalaf. Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Brewin Dolphin sydd yn buddsoddi cronfeydd yr Eisteddfod ar ei rhan. Caiff y cronfeydd hyn eu hadolygu'n gyson.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu na ddylid buddsoddi mewn cwmnïau sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu neu ddosbarthu arfau a thybaco. Roedd gwerth y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn £1,599,000 o gymharu â £1,749,000 ar 31 Rhagfyr 2021.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad eu gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddi-dâl, o godi arian i stiwardio ar faes yr Eisteddfod . Nid ydym yn gallu rhoi gwerth ariannol ar yr holl waith yma ac felly, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Trafodion partïon cysylltiol

Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2022 gan yr ymddiriedolwyr neu unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli.

Rheoli risg

Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'w meysydd busnes, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol briodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus ac yn cofnodi risgiau materol yn y gofrestr risg.

Mae'r Panel Archwilio a'r Bwrdd Rheoli yn arolygu'r gofrestr risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau yn cynnwys parhad yr Eisteddfod, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd.

Rhagdybiaeth Busnes Byw

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr Elusen mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd a bod disgwyliad rhesymol gan yr Eisteddfod bod yr adnoddau yn ddigonol i barhau i weithredu'n hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail busnes sy'n fyw wrth baratoi'r cyfrifon.

GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Enw'r elusen:	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Cyfansoddiad:	Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif yr elusen:	1155539
Swyddfa gofrestredig:	40 Parc Tŷ Glas Llanisien Caerdydd CF14 5DU
Bwrdd Rheoli ac Ymddiriedolwyr:	Ashok Ahir (Llywydd y Llys) Gethin Thomas (Cadeirydd y Cyngor) Heulwen Jones (Is-gadeirydd y Cyngor) Gwenno Williams (Trysorydd) Christine James (Gorsedd y Beirdd) Elin Jones (Cadeirydd Eisteddfod 2022) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023) Heledd Bebb Elin Haf Gruffydd Jones Gwerfyl Pierce Jones Trystan Lewis Deian Rhys Aled Walters Rhian Huws Williams
Ysgrifennydd	Llyr Roberts (m) Heulwen Jones (Dros dro)
Prif Weithredwr:	Betsan Moses
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo SA19 6AH
Bancwyr:	HSBC 56 Heol y Frenhines Caerdydd CF10 9NA
Brocer Buddsoddiadau:	Brewin Dolphin 5 Sgwâr Callaghan Caerdydd CF10 5BT
Cyfreithwyr Mygedol:	Emyr Lewis Philip George Aled Walters

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Cyfansoddiad

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau ar 29 Ionawr 2014. Trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau *Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru* (rhif elusen 219171) i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig ar 1af Ionawr 2015. Mae'r elusen newydd yma'n weithredol o'r dyddiad hwn.

Y Llys

Mae'r Llys yn cynnwys holl aelodau'r Elusen, gyda holl hawliau arferol i'w gweithredu trwy Gyfarfodydd Cyffredinol. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) yr hawl i benodi ac i ddiswyddo Swyddogion, Ymddiriedolwyr, ac aelodau'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, Rheolau Sefydlog yr elusen ac yn unol â Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llys, mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn ystyried ac yna'n derbyn neu wrthod adroddiadau'r Ymddiriedolwyr, y Cyngor a Bwrdd yr Orsedd, ac mae'r hawl gan y Llys i sicrhau fod yr amcanion a'r ymrwymiadau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn unol â dymuniad y Llys ac yn unol â'r Ddeddf. Mae'r Prif Weithredwr llawn amser yn rheoli gweithgareddau'r elusen gyda chymorth aelodau staff. Mae aelodaeth o'r Llys yn agored i bawb.

Y Cyngor

Swyddogaeth y Cyngor ydi gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol sydd yn cymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod. Mae'r Cyngor yn cynnwys 36 aelod ynghyd a'r Cymrodyr a Chyn-Lywyddion– caiff 24 o aelodau eu hethol gan y Llys, 6 gan yr Ymddiriedolwyr, a hawl gan y Cyngor i gyfethol hyd at 6 aelod. Rhaid i aelodau o'r Cyngor a'r Bwrdd Rheoli fod yn aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn cynnal o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn.

Mae gan y Cyngor ddau bwyllgor, sef

1. Pwyllgor Archwilio;
2. Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg – i arolygu ac adrodd ar weithredu'r Rheol Gymraeg ym mhob Gŵyl.

Bwrdd Rheoli/Ymddiriedolwyr

Y Bwrdd Rheoli sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel ymddiriedolwyr. Disgwylir i Brif Weithredwr a phrif staff yr elusen fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ond heb hawl pleidleisio gan nad ydynt yn ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf wyth gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn cyflawni gwaith yr elusen sefydlwyd y Pwyllgorau a ganlyn:

Pwyllgor Llywio/Pwyllgor Gwaith ar gyfer pob Gŵyl.

Pwyllgor Diwylliannol – i gydlynu gwaith panelau sefydlog i gynnig cyngor arbenigol ar feysydd cystadleuol penodol ac i gymryd cyfrifoldeb am y rhestr gystadlaethau.

Pwyllgor Technegol – i gynnig cyngor arbenigol am y maes, adeiladau, trafnidiaeth, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r Ŵyl.

Pwyllgor Marchnata – i gynnig cyngor arbenigol ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod a'r Ŵyl.

Pwyllgor Adnoddau Dynol – i gynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â staffio a chyflogau.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Pwyllgor Cynhwysedd ac Amrywiaeth – i edrych ar holl weithdrefnau a gweithgareddau'r Eisteddfod i sicrhau eu bod yn agored a chynhwysol.

Pwyllgor Artistig - i gynnig cyngor arbenigol ar raglenni hwyr; a phrosiectau artistig mawr.

Panel Enwebu – i argymell enwau Ymddiriedolwyr, aelodau'r Cyngor ac aelodau Pwyllgorau a phanelau sefydlog er mwyn cyflawni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo – i gwrdd yn ôl yr angen i ystyried unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbynnir am Swyddogion yr elusen a chwynion am Ymddiriedolwyr yr elusen a'r staff.

Penodi Ymddiriedolwyr

Mae cymalau 12 ac 13 o'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer penodi/ethol ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

1. Penodir tri ymddiriedolwr yn rhinwedd eu swyddi, sef:
   Llywydd y Llys; Cadeirydd y Cyngor; Is-gadeirydd y Cyngor.
2. Dim llai na phedwar na mwy nag wyth ymddiriedolwr enwebedig wedi eu henwebu fel a ganlyn:
   (i) Bwrdd yr Orsedd (1);
   (ii) Pwyllgorau Gwaith y tair eisteddfod gyfredol (3);
   (iii) Cyngor (4).
3. Dim llai na phedwar na mwy na chwe ymddiriedolwr etholedig i'w hethol gan y Llys gyda'r hawl i'r ymddiriedolwyr benodi i lenwi bylchau hyd y cyfarfod nesaf o'r Llys;
4. Dim mwy na dau ymddiriedolwr wedi eu cyfethol gan yr ymddiriedolwyr eraill.

Bwriedir sicrhau y bydd ystod eang o sgiliau a phrofiad o fewn y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys sgiliau a phrofiad diwylliannol, marchnata, technegol, busnes, ariannol, cyfreithiol a rheolaeth, ynghyd â phrofiad blaenorol o waith Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr allu cyfathrebu'n rhugl drwy'r Iaith Gymraeg;

Bwriedir hefyd geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws yr holl Ymddiriedolwyr o safbwynt rhyw, oedran a chysylltiadau lleol;

Hyfforddiant ac anwytho Ymddiriedolwyr

Mae gan yr holl Ymddiriedolwyr presennol gysylltiad hir gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Maent yn cael cynnig derbyn gwybodaeth am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Pe bai ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi fe fyddai hynny'n golygu y byddant yn cael hyfforddiant ar weithdrefnau a pholisïau'r Eisteddfod. Byddai asesiad yn cael ei wneud o'r anghenion hyfforddi, gyda darpariaeth ar gyfer hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o sefyllfa'r elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, sy'n cynnwys FRS 102, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw cyfanrwydd yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Rheoli. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gynorthwyo gan grŵp o uwch reolwyr sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli.

Mae'r Tîm yma yn cynnwys:
Betsan Moses (Prif Weithredwr)
Elen Elis (Cyfarwyddwr Artistig)
Gwenllïan Carr (Cyfarwyddwr Strategol)
Peter Davies (Cyfarwyddwr Cyllid)

Polisi cyflogi

Mae'r Eisteddfod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu llawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

Cydnabyddiaeth

Mae pob ymddiriedolwr yn rhoi o'u hamser am ddim. Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn.

CYNLLUNIAU'R DYFODOL

Daw ein strategaeth i ben yn 2025, ac rydyn ni am gynnal sgwrs eang, sy'n gyfle i wyntyllu popeth, fe fyddwn ni'n edrych yn fanylach ar ein blaenoriaethau strategol ac yn cynnal sgyrsiau mwy dwys ac arbenigol ar bynciau penodol, gyda'r sylwadau rydyn ni'n eu casglu ar hyn o bryd yn bwydo mewn i hyn oll.

Gyda'r byd wedi newid yn sylweddol ers cyfnod datblygu'r strategaeth bresennol, a ninnau yn dod at ddiwedd cyfnod y strategaeth, mae'n amserol ein bod yn cychwyn ar y broses o ymgysylltu gyda'n rhanddeiliaid a'n cymunedau er mwyn gwrando ar eu barn, cynnal trafodaeth agored ac adnabod blaenoriaethau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Mae'n hollbwysig ein bod yn taflu'r rhwyd yn eang –gan glywed wrth ein partneriaid, ein cefnogwyr a'r rheini sydd eto i'w denu atom.

Blaenoriaethau Strategol yr Eisteddfod

- Codi ymwybyddiaeth o'r Eisteddfod fel prif ŵyl ddiwylliannol Cymru, adref ac yn rhyngwladol;
- Hyrwyddo'r Gymraeg, yn enwedig ymysg pobl ifanc a dysgwyr;
- Dyfnhau ymrwymiad yr Eisteddfod i gymunedau Cymru;
- Cryfhau gwytnwch yr Eisteddfod yn ariannol a gweithredol;
- Cydweithio'n agos â phartneriaid er mwyn lledaenu cyfoeth ieithyddol a diwylliannol Cymru;
- Creu Eisteddfod sydd yn hygyrch ac yn groesawus i bobl o bob oed a chymuned;
- Anrhydeddu ein cyfrifoldeb i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Bwriadwn sicrhau fod drafft cyntaf y strategaeth nesaf yn cael ei baratoi erbyn chwarter cyntaf 2024 er mwyn ei lansio yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf, a chasglu mewnbwn pellach gan ein rhanddeiliaid a'n cynulleidfaoedd am yr hyn a gynigir er mwyn sicrhau tryloywder ac er mwyn annog perchnogaeth o'r ffordd ymlaen i'r Eisteddfod wrthi iddi gefnogi Strategaeth y Gymraeg 2050.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu a'n cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ran yr ymddiriedolwyr

G. T. Thomas

Gethin Thomas
Ymddiriedolwr
Cadeirydd y Cyngor

03/10/2024

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol yr elusen ar 31 Rhagfyr 2022 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 8 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Fe wnaethom aros yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod yr elusen heb gadw cofnodion cyfrifo derbyniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol:neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoleiddiadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno (Rhan 4 o'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Rheoliadau 2008). Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
SA19 6AH
Dyddiad: 04/10/2024

DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL (GAN GYNNWYS CYFRIF INCWM A GWARIANT) AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

		2022				2021			
		Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**
	Nodyn	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
INCWM									
Rhoddion a chymynroddion:	2	661	-	-	661	317	-	-	317
Gweithgareddau elusennol:									
Grantiau	3	-	2,594	-	2,594	181	1,127	-	1,308
Gŵyl yr Eisteddfod	5	3,768	10	-	3,778	833	-	-	833
Gweithgareddau masnachu	6	13	-	-	13	14	-	-	14
Incwm o fuddsoddiadau	7	-	-	34	34	-	-	18	18
Cyfanswm incwm		**4,442**	**2,604**	**34**	**7,080**	**1,345**	**1,127**	**18**	**2,490**
GWARIANT									
Gweithgraeddau codi arian	8	19	-	-	19	18	-	-	18
Gweithgareddau elusennol:									
Gŵyl yr Eisteddfod	8	4,556	1,859	-	6,415	786	892	-	1,678
Cyfanswm gwariant		**4,575**	**1,859**	**-**	**6,434**	**804**	**892**	**-**	**1,696**
Colledion ar fuddsoddiadau		-	-	(143)	(143)	-	-	75	75
Incwm/Gwariant Net		**(133)**	**745**	**(109)**	**503**	**541**	**235**	**93**	**869**
Enillion cydnabyddedig eraill									
Cynnydd/(Lleihad) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	18	1,540	-	-	1,540	1,010	-	-	1,010
Symudiad net yn y cronfeydd		**1,407**	**745**	**(109)**	**2,043**	**1,551**	**235**	**93**	**1,879**
Cysoni'r Cronfeydd									
Balansau ddygwyd ymlaen 1 Ionawr		3,448	235	1,507	5,190	1,897	-	1,414	3,311
Balansau gariwyd ymlaen 31 Rhagfyr		**4,855**	**980**	**1,398**	**7,233**	**3,448**	**235**	**1,507**	**5,190**

MANTOLEN AR 31 RHAGFYR 2022

	Nodyn	2022 £ 000	2021 £ 000
Asedau sefydlog			
Asedau anniriaethol	10	30	44
Eiddo parhaol	10	1,202	390
Buddsoddiadau	11	1,599	1,749
		2,831	2,183
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	12	1,286	434
Buddsoddiadau tymor byr	11	885	1,677
Banc		48	98
		2,219	2,209
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	13	(307)	(152)
Asedau cyfredol net		1,912	2,057
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		4,743	4,240
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	18	2,490	950
Asedau net		**7,233**	**5,190**
Cronfeydd Cadw			
Cronfeydd Gwaddol		1,398	1,507
Cronfeydd Cyffredinol		1,867	1,496
Cronfeydd Penodol	16	498	1,002
Cronfeydd Cyfyngedig	17	980	235
Cronfa Bensiwn	18	2,490	950
Cyfanswm Cronfeydd		**7,233**	**5,190**

Cymerdwywyd y cyfrifon yma gan Fwrdd yr ymddiriedolwyr ar: 03/10/2024

Ashok Ahir
Llywydd

Gwenno Williams
Trysorydd

DATGANIAD O'R LLIF ARIAN
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

	2022 £ 000	2021 £ 000
Llif arian o Weithgareddau Gweithredol	41	1,353
Llif arian o Weithgareddau buddsoddi		
Enillion ar fuddsoddiadau	34	18
Taliadau am eiddo parhaol	(937)	59
Derbyniadau trwy werthu buddsoddiadau	108	129
Taliadau am fuddsoddiadau newydd	(98)	(625)
Mewnlif/(allanlif) net ariannol o weithgareddau buddsoddi	(852)	934
Arian a chyfwerthoedd arian ar 1 Ionawr	**2,285**	**1,351**
Arian a chyfwerthoedd arian ar 31 Rhagfyr	**1,433**	**2,285**

Cysoniad y llif arian a'r symudiad mewn gweithgareddau gweithredol

	2022 £ 000	2021 £ 000
Incwm net	503	869
Dibrisiad asedau diriaethol	125	45
Amorteiddiad asedau anniriaethol	14	14
Colledion/(enillion) anghyflawnedig y buddsoddiadau	130	(75)
Llog a dderbynnir	(34)	(18)
Cynnydd mewn dyledwyr cyfredol	(852)	507
Cynnydd mewn credydwyr cyfredol	155	11
Mewnlif net ariannol o weithgareddau gweithredol	41	1,353

Dadansoddiad o arian a chyfwerthoedd arian

	2022 £ 000	2021 £ 000
Buddsoddiadau eiddo parhaol - COIF ac arian buddsoddi	500	510
Buddsoddiadau tymor byr - Cyfrif banc	885	1,677
Banc	48	98
Cyfanswm arian a chyfwerthoedd arian	**1,433**	**2,285**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 RHAGFYR 2022

1. Polisïau Cyfrifo

a. Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig fel y mae'n berthnasol o 1 Ionawr 2015.

Mae'r cyfrifon (datganiadau ariannol) wedi'u paratoi sy'n rhoi darlun 'cywir a theg' ac maent wedi ymadael o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau y mae eu hangen i ddarparu 'darlun cywir a theg'. Mae'r ymadawiad hwn wedi cynnwys dilyn Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 yn hytrach na'r Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Argymhellir Ymarferwch yn effeithiol o 1 Ebrill 2005 sydd wedi'i dynnu'n ôl ers hynny.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Mae'r Asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod ar gost hanesyddol neu eu gwerth trafodiad oni nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifyddu(au) perthnasol.

b. Incwm

Cydnabyddir incwm pan fydd gan yr elusen yr hawl i dderbyn yr arian a bod unrhyw amod ynghlwm wrth yr eitem neu eitemau o incwm wedi cael eu bodloni, ac yn debygol y bydd yr incwm yn cael eu derbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy.

Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

Cydnabyddir incwm ewyllys a chymynroddion pan fydd gan yr elusen yr hawl i'r incwm, mae derbyn yr arian yn debygol a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Lle mae cymynroddion wedi eu hysbysu i'r elusen, neu mae'r elusen yn ymwybodol o'r profiant, a'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi heb gael eu bodloni, yna mae'r gymynrodd yn cael ei thrin fel ased wrth gefn a ddatgelir os yn berthnasol.

c. Llogau a dderbynnir

Mae llog ar gyfrifon cadw yn cael ei gynnwys pan gaiff ei dderbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy gan yr elusen; mae hyn fel arfer ar hysbysiad am y llog a delir neu yn daladwy gan y banc.

ch. Cronfeydd

Cronfeydd anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cronfeydd Cyfyngedig yw'r arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw.

Mae'r cronfeydd penodol yn cynrychioli incwm anghyfyngedig lle mae'r ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn, wedi ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio at ddiben penodol.

Mae'r cronfeydd gwaddol yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr wedi nodi eu bod yn cael eu defnyddio yn unig ar gyfer pwrpas penodol o waith yr elusen neu ar gyfer prosiectau artistig penodol a wneir gan yr elusen.

d. Gwariant a TAW na ellir ei adennill

Mae gwariant yn cael ei gydnabod unwaith mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, ac yn debygol y bydd setliad yn ofynnol a swm y rhwymedigaeth yn cael ei fesur yn ddibynadwy. Mae'r gwariant wedi'i ddosbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Costau codi arian yn cynnwys costau masnachu masnachol ar gyfer loteri'r Eisteddfod.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau o berfformiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol eraill a wnaed i hyrwyddo dibenion yr elusen a'u costau cymorth cysylltiedig.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli eitemau hynny nad ydynt yn dod i mewn i unrhyw bennawd arall.

dd. Dyrannu costau cefnogi

Costau cynnal yw'r costau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nid ydynt yn uniongyrchol yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol. Maent yn cynnwys costau swyddfa, cyllid, personél, cyflogau a llywodraethu sy'n cefnogi gwaith yr elusen. Mae'r costau hyn wedi cael eu dyrannu o dan gweithgareddau elusennol.

e. Prydlesi gweithredol

Prydlesi gweithredol yw offer lle mae'r teitl i'r offer yn parhau gyda'r prydleswr. Mae taliadau rhent yn cael eu cyflwyno i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

f. Asedau treftadaeth

Cofnodir asedau treftadaeth yn ôl y gost wreiddiol. Gan fod asedau treftadaeth yr elusen wedi eu cynnal dros gyfnod o gan mlynedd a mwy mae'r gost wreiddiol yn rhy fach i gofnodi yn y Fantolen.

ff. Asedau anniriaethol

Mae'r Eisteddfod yn cyfrifo am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol. Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost hanesyddol. Mae'r asedau yma'n cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol droes eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig o bum mlynedd.

g. Asedau parhaol

Polisi'r Eisteddfod yw cofnodi asedau sefydlog ar y gost wreiddiol hyd yma, llai'r dibrisiant a grynhowyd.

ng. Dibrisiant

Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Moduron, dodrefn ac offer swyddfa	-	20%
Adeiladau parhaol	-	2%
Adeiladau ac eiddo arall	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cyffredinol)	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cylch yr Orsedd symudol)	-	Dim

h. Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad. Mae hyn yn golygu cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fydd buddsoddiadau yn cael eu gwerthu nid oed enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Cydnabuwyd unrhyw enillion neu golled yn eu gwerth yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

i. Stoc

Mae stoc yn cael ei gynnwys ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth gwireddadwy net.

j. Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod ar y swm sy'n ddyledus ar ôl setlo unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Mae rhagdaliadau wedi eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw, net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

l. Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 RHAGFYR 2022

l. Credydwyr

Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti ac mae'r swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei fesur neu amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, mae credydwyr ac unrhyw ddarpariaethau eraill yn cael eu cydnabod fel y swm setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau dyledus.

m. Tanysgrifiadau am Oes

Trosglwyddir tanysgrifiadau aelodau newydd y Llys, sy'n dymuno ymaelodi am oes, sef £100, i gyfrif Tanysgrifiadau am Oes yn y credydwyr. Rhyddheir un rhan o ddeg pob blwyddyn i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

n. Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod ar werth trafodiad ac wedyn mesur ar eu gwerth anheddiad.

o. Costau pensiwn

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn gyda Chyngor Sir Caerdydd, sy'n statudol cyfrannol lle mae'r budd wedi'i ddiffinio ac sy'n seiliedig ar gyflog terfynol. Gweinyddir gan Gyngor Sir Caerdydd. Cyfrannodd yr elusen 26.7% (2021: 26.3%) o gyflogau pensiynadwy i'r cynllun am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2022, sef £0.09m (2021: £0.11m).

Mae'r rhwymedigaeth a gydnabyddir yn y fantolen o ran y cynllun buddion diffiniedig yw'r gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y dyddiad adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Mae'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Yn flynyddol mae'r elusen yn defnyddio actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth. Mae'r gwerth presennol yn cael ei gyfrifo drwy ddisgowntio'r taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon uchel sy'n cael eu cadw mewn sterling a thelerau sy'n debyg i gyfnod amcangyfrifedig y taliadau yn y dyfodol ('cyfradd ddisgownt').

Mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei fesur gyda'r hierarchaeth gwerth teg FRS102 ac yn unol â pholisi'r elusen ar gyfer asedau a gedwir yn yr un modd. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o dechnegau prisio priodol.

Mae enillion a cholledion sy'n deillio o addasiadau profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd yn cael eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu fel 'ar ôl ailbrisio atebolrwydd net diffiniedig'.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel costau gweithwyr, ac eithrio pan maent wedi ei gynnwys yng nghost yr ased, yn cynnwys:

- y cynnydd yn rhwymedigaeth budd pensiwn yn deillio o wasanaeth gweithiwr yn ystod y cyfnod; a
- cost y cyflwyniadau cynllun, newidiadau budd-dal, cwtogiadau ac aneddiadau.

Mae cost llog net wedi ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i gyfanswm net y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a gwerth teg asedau'r cynllun. Mae'r gost hon yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel 'draul cyllid'.

p. Treth

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac felly, nid yw'n gorfod talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

2. Rhoddion

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2022 £ 000	2021 £ 000
Y Cronfeydd Lleol a Chyffredinol	51	213	-	264	48
Ymddiriedolaeth Edwin Griffiths, UDA	269	-	-	269	195
Rhoddion trwy ewyllys	100	-	-	100	33
Rhoddion gan sefydliadau eraill	22	-	-	22	32
Tanysgrifiadau aelodaeth	6	-	-	6	6
Rhoddion eraill	-	-	-	-	3
	448	213	-	**661**	**317**

3. Grantiau

Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2022 £ 000	2021 £ 000
Llywodraeth Cymru - Grant craidd	-	943	943	603
Llywodraeth Cymru - Cynllunio Eisteddfod 2022+	-	600	600	200
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	119	119	-
Llywodraeth Cymru - Cyfalaf (Stondinau)	-	800	800	-
Llywodraeth Cymru - Gweithgareddau lles plant	-	100	100	-
Cronfa Treftadaeth y Loteri - Proseict Cymunedol	-	31	31	10
Ty Cerdd - Prosiect Ysbrydoli	-	1	1	2
Llywodraeth Cymru - Eisteddfod AmGen 2021	-	-	-	210
Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru	-	-	-	150
Cynllun Cadw Swyddi y Llywodraeth	-	-	-	31
Cronfa Treftadaeth y Loteri - Cynllun Cymunedol	-	-	-	39
Y Sefydliad Cenedlaethol - Datblygu Cerddoriaeth	-	-	-	27
Cymdeithas y Cymmrodorion - Pererindod	-	-	-	10
Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston - Opera newydd	-	-	-	10
Sefydliad Cymunedol Cymru	-	-	-	5
LGBT+ Futures Mas ar y Maes	-	-	-	5
Llywodraeth Cymru - Prosiect Clwstwr	-	-	-	3
Ymddiriedolaeth Nineveh - Gwyddoniaeth	-	-	-	3
Cyfanswm y grantiau	-	**2,594**	**2,594**	**1,308**

4. Cymynroddion gwaddol parhaol

Ni dderbyniwyd unrhyw gymynrodd yn ystod 2022 (2021: Dim).

5. Gweithgareddau elusennol:

Gŵyl yr Eisteddfod:	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2022 £ 000	2021 £ 000
Incwm o'r Ŵyl	2,191	161	-	2,352	419
Incwm o'r Maes	841	-	-	841	34
Awdurdodau a chynghorau Lleol	388	-	-	388	357
Cynlluniau nawdd	115	-	-	115	20
Incwm arall ar weithgareddau elusennol	34	-	10	44	-
Maes Carafanau	38	-	-	38	3
Cyfanswm	3,607	161	10	**3,778**	**833**

6. Gweithgareddau masnachu

	2022 £ 000	2021 £ 000
Cynllun loteri	**13**	**14**

7. Incwm o fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	2022 £ 000	2021 £ 000
Llog y buddsoddiadau	-	34	**34**	**18**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

8. Gwariant

	Gwariant Uniongyrchol £ 000	Costau Cynnal £ 000	2022 £ 000	2021 £ 000
Gweithgareddau codi arian				
Cynllun loteri	11	-	11	12
Ffi broceriaid buddsoddiadau	8	-	8	6
Cyfanswm	19	-	19	18
Gweithgareddau elusennol				
Gŵyl yr Eisteddfod	5,857	558	6,415	1,678
Cyfanswm	5,876	558	**6,434**	**1,696**
Dadansoddiad o'r costau cynnal				
Rheolaeth			352	212
Dibrisiad adnoddau			126	46
Costau cyllid			48	7
Llywodraethu			32	32
Cyfanswm			558	296

Mae'r costau llywodraethu yn cynnwys tâl i'r archwiliwyr am wasanaethau archwilio cyfrifon 2022 o £9,000 (2021: £8,500).

9. Costau staff

	2022 £ 000	2021 £ 000
Cyflogau gros	352	458
Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y cyflogwr	36	41
Cost pensiwn y cyflogwr	92	106
	480	605

Mae cyfanswm 2021 yn cynnwys cost o £109,355 ar gyfer diswyddo 5 aelod o staff.

Yn ystod y flwyddyn cyflogwyd, ar gyfartaledd misol, 8 o swyddogion cyflogedig llawn amser (2021 - 8) yn y meysydd canlynol:

	2022	2021
Gweithgareddau'r elusen	6	6
Gweinyddiaeth a rheoli	2	2

Personél Rheoli Allweddol

Y personél rheoli allweddol yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ymddiriedolwyr ynghyd â'r Tîm Rheoli sydd yn gweithredu trwy'r Bwrdd Rheoli.

Mae aelodau'r Tîm Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, Trefnydd a'r Pennaeth Artistig, Pennaeth Cyfathrebu a'r Pennaeth Cyllid. Cyfanswm y tâl gros a buddion i weithwyr y personél rheoli allweddol oedd £224,525 - 4 aelod. (2021: £240,838 - 4 aelod).

Nifer o gyflogeion yr oedd eu taliadau, yn cynnwys gwerth trethadwy nwyddau mewn da ond heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o fewn yr ystodau canlynol:

	2022	2021
£70,000 - £79,000	1	1
£60,000 - £69,000	1	-

Mae pob cyflogeion sydd yn ennill dros £60,000 yn aelod o gynllun pensiwn lle mae'r budd wedi'i ddiffinio.

Ymddiriedolwyr - Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn (2021: Dim) Ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwr dâl am wasanaethau proffesiynol a gyflenwyd i'r elusen (2021: £ dim).

Costau teithio i'r ymddiriedolwyr ac aelodau eraill yn ystod 2022 oedd: £ 177.30 (2021: £ Dim).

10. Eiddo parhaol

Asedau treftadaeth

Gan nad oes cost ar gyfer regalia'r Orsedd (sydd yn cynnwys y Cleddyf Mawr a'r Corn Hirlas) nid ydym yn cynnwys yr eitemau hyn fel eiddo. Amcangyfrif gwerth ariannol y regalia ar gyfer pwrpas yswiriant yw £222,000 (Mehefin 2016).

Asedau anniriaethol

	Gwefan £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost		
1 Ionawr 2022	102	102
Ychwanegiadau	-	-
31 Rhagfyr 2022	102	102
Amorteiddiad		
1 Ionawr 2022	58	58
Cost am y flwyddyn	14	14
31 Rhagfyr 2022	72	72
Gwerth net yr asedau		
31 Rhagfyr 2022	**30**	**30**
31 Rhagfyr 2021	44	44

Asedau parhaol

	Adeiladau Parhaol £ 000	Adeiladau Eraill £ 000	Peiriannau/ Offer Maes £ 000	Dodrefn Llwyfan £ 000	Dodrefn Swyddfa £ 000	Eiddo i'r Orsedd £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost							
1 Ionawr 2022	570	56	861	19	129	33	1,668
Ychwanegiadau	-	920	2	-	15	-	937
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-	-
31 Rhagfyr 2022	570	976	863	19	144	33	2,605
Dibrisiad							
1 Ionawr 2022	282	32	824	19	114	7	1,278
Cost am y flwyddyn	11	96	7	-	10	1	125
Gwarediadau	-	-	-	-	-	-	-
31 Rhagfyr 2022	293	128	831	19	124	8	1,403
Gwerth net yr eiddo							
31 Rhagfyr 2022	**277**	**848**	**32**	-	**20**	**25**	**1,202**
31 Rhagfyr 2021	288	24	37	-	15	26	390

11. Buddsoddiadau

Dewiswyd y buddsoddiadau i gwrdd â gofynion yr Eisteddfod am logau sylweddol, diogelwch cyfalaf, a'r rhwyddineb i droi rhai ohonynt yn arian yn ôl gofynion y llif arian.

Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	Gwerth y Farchnad **2022** Cyfanswm £ 000	**2021** Cyfanswm £ 000	Y Gost 2022 £ 000	Llog 2022 £ 000
COIF Cyfrif Cadw *(Charities Official Investment Fund)*	241	231	472	472	472	6
Llog Sefydlog	-	275	275	276	320	4
Cyfranddaliadau	-	693	693	835	668	18
Nwyddau	-	34	34	24	30	-
Eiddo	-	42	42	51	40	1
Buddsoddiadau eraill	-	55	55	53	58	3
Arian ar gyfer dibenion buddsoddi	-	28	28	38	28	-
Cyfanswm Buddsoddiadau parhaol	241	1,358	**1,599**	1,749	1,616	32
Buddsoddiadau Tymor Byr	845	40	**885**	1,677	885	2
Cyfanswm Buddsoddiadau	1,086	1,398	2,484	3,426	2,501	34

Mae'r arian yng ngyfrif COIF Cadw yn arian hylifol iawn ar gyfer buddsoddi yn y tymor hwy.

Mae'r arian a gynhwysir fel Buddsoddiadau Tymor Byr yn cynrychioli'r arian a dderbyniwyd i'w ddefnyddio ar gyfer yr Eisteddfodau a gynhelir yn y dyfodol agos.

Symudiadau yn y Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cyfanswm £ 000
Gwerth y Farchnad - 31 Rhagfyr 2021	1,749
Gwerthu buddsoddiadau (Gwerth y farchnad)	(108)
Prynu buddsoddiadau newydd (Cost)	98
Lleihad yn yr arian ar gyfer dibenion buddsoddi	(10)
Colledion anghyflawnedig	(130)
Gwerth y Farchnad - 31 Rhagfyr 2022	**1,599**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

12. Dyledwyr

	2022	2021
	£ 000	£ 000
Dyledwyr - Masnachol	252	162
Dyledwyr - Grantiau	-	150
Dyledwyr - Eraill	531	2
Ad-daliad Treth Incwm a TAW	473	100
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	30	20
	1,286	434

13. Credydwyr: Dyledus mewn llai na blwyddyn

	2022	2021
	£ 000	£ 000
Credydwyr Masnachol	274	116
Credydwyr eraill	14	19
Croniadau	9	8
Tanysgrifiadau am Oes	10	9
	307	152

14. Dadansoddiad o'r Asedau net

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	2022	2021
	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
Eiddo anniriaethol	30	-	-	30	44
Eiddo Parhaol	482	720	-	1,202	390
Buddsoddiadau	201	-	1,398	1,599	1,749
Asedau cyfredol	1,959	260	-	2,219	2,209
Credydwyr cyfredol	(307)	-	-	(307)	(152)
Cynllun pensiwn	2,490	-	-	2,490	950
	4,855	980	1,398	7,233	5,190

15. Cytundebau prydles

Dadansoddiad o'r rhent sydd i'w dalu o dan gytundebau prydles am y ceir swyddogol:

	2022	2021
Y cytundeb yn dod i ben:	£ 000	£ 000
Mewn llai na blwyddyn	4	4
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	-
Rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
	4	4

16. Symudiadau yn y Cronfeydd Penodol

	2022 £ 000	2021 £ 000
Balans 1 Ionawr	1,002	910
(Rhyddhau incwm) / incwm a dderbyniwyd ar gyfer yr Eisteddfod gyfredol:		
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022:		
Cronfeydd lleol a chyffredinol	(484)	20
Rhoddion o sefydliadau eraill	-	22
Incwm o'r Ŵyl	(81)	37
Incwm o'r Maes	(74)	3
Awdurdodau a chynghorau lleol	(1)	-
Cynlluniau nawdd	(13)	-
Maes Carafanau	(225)	3
Cyfanswn ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2022	(878)	85
Incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol:		
Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023:		
Cronfeydd lleol a chyffredinol	213	7
Incwm o'r Ŵyl	161	-
Cyfanswn ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023	374	7
Balans 31 Rhagfyr	**498**	**1,002**

17. Symudiadau yn y Cronfeydd Cyfyngedig

	01.01.22 £ 000	Derbyniwyd £ 000	Gwariwyd £ 000	31.12.22 £ 000
Llywodraeth Cymru - Grant craidd	-	943	(943)	-
Llywodraeth Cymru - Cynllunio	200	600	(540)	260
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	119	(119)	-
Llywodraeth Cymru - Cyfalaf	-	800	(80)	720
Llywodraeth Cymru - Haf o Hwyl	-	100	(100)	-
Cronfa Treftadaeth y Loteri	27	31	(58)	-
Ty Cerdd - Prosiect Ysbrydoli	1	1	(2)	-
Ymddiriedolaeth Colwinston	2	-	(2)	-
Sefydliad Cymunedol Cymru	5	-	(5)	-
Sion Mullane	-	3	(3)	-
Arts & Business	-	7	(7)	-
Cyfanswm	235	2,604	(1,859)	980

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

18. Cynllun Pensiwn

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn Enillion Ailbrisiedig Gyrfa Cyfartalog (CARE). Gweinyddir y Gronfa gan Adran Bensiynau Cyngor Dinas Caerdydd. Mae'r asedau'r cynllun wedi'u cadw mewn cronfeydd ar wahân.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar werth actiwaraidd llawn y gronfa ar 31 Mawrth 2019 a ddiweddarwyd i 31 Rhagfyr 2022 gan actiwari annibynnol.

	2022	2021	2020
Cyfradd gostyngiad	4.7%	2.0%	1.4%
Chwyddiant Mynegai Pris Defnyddwyr (CPI)	2.6%	2.7%	2.1%
Cyfradd cynnydd mewn tâl pensiynau	2.6%	2.7%	2.1%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau wedi'u gohirio	2.6%	2.7%	2.1%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.6%	3.7%	3.1%

Ar sail y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer disgwyliadau einioes, disgwylir i bensiynwr sydd yn 65 ar 31 Ragfyr i fyw am:

		2022	2021
Gwrywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	22.1	22.3
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	23.2	23.3
Benywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	24.6	24.7
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	26.0	26.1

Cyfradd adennill a ddisgwyliad ar 31/12/2022:

	Canran asedau ar 2022 (%)	Gwerth 2022 (£m)	Canran asedau ar 2021 (%)	Gwerth 2021 (£m)
Buddsoddiadau ecwiti	67.0	4.53	67.3	5.07
Eiddo	8.4	0.57	6.7	0.51
Bondiau'r llywodraeth	8.8	0.60	9.5	0.72
Bondiau corfforaethol	7.5	0.51	14.5	1.09
Credyd aml-ased	5.2	0.35	0.0	0.00
Arian	3.1	0.21	2.0	0.15
Cyfanswm	100.00	6.77	100.00	7.54

Sefyllfa y gronfa ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru:

	2022 £m	2021 £m
Canran o'r asedau	6.77	7.54
Amcangyfrif o'r rhwymedigaethau	4.28	6.59
(Rhwymedigaeth)/Ased a gydnabyddir ar y fantolen	2.49	0.95

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y cyfrif elw a cholled fel y canlynol:

	2022 £m	2021 £m
Cost gwasanaeth presennol	0.17	0.17
Cost gwasanaeth y gorffennol	0.00	0.00
Cost cwtogi	0.00	(0.06)
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	(0.02)	0.00
Cyfanswm cost gweithredu	0.15	0.11

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2022

Newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig yn ystod y flwyddyn:

	2022	2021	2020
	£m	£m	£m
Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig	6.59	6.61	5.93
Cost gwasanaeth presennol	0.17	0.17	0.20
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	0.13	0.09	0.12
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	0.03	0.03	0.04
Cynnydd actiwaraidd ar rwymedigaethau	(2.51)	(0.10)	0.42
Buddion a dalwyd	(0.13)	(0.15)	(0.10)
Cost cwtogi	0.00	(0.06)	0.00
Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig	4.28	6.59	6.61

Newidiadau i werth farchnad asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn:

	2022	2021	2020
	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	7.54	6.55	6.19
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.15	0.09	0.12
Cynnydd actiwaraidd ar asedau	(0.91)	0.91	0.18
Cyfraniadau'r cyflogwr	0.09	0.11	0.12
Cyfraniadau'r cyflogedig	0.03	0.03	0.04
Buddion a dalwyd	(0.13)	(0.15)	(0.10)
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	6.77	7.54	6.55

Gwir enillion asedau'r cynllun:

	2022	2021	2020
	£m	£m	£m
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.15	0.09	0.12
Cynnydd (Colled) actiwaraidd ar asedau	(0.91)	0.91	0.18
Gwir (colledion)/enillion ar asedau'r cynllun	(0.76)	1.00	0.30

Dadansoddiad hanesyddol gwerthoedd asedau, rhywmedigaethau'r cynllun, cyfanswm y diffyg a phrofiad enillion a cholledion:

	2022	2021	2020	2019	2018
	£m	£m	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun	6.77	7.54	6.55	6.19	5.43
Rhwymedigaethau'r cynllun	4.28	6.59	6.61	5.93	5.21
Gweddill/(Diffyg) yn y cynllun	2.49	0.95	(0.06)	0.26	0.22

Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol archwiliedig.

ATODIAD A

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

SWYDDOGION Y LLYS A'R CYNGOR 2022

Cymrodyr	R. Alun Evans Geraint R Jones John Gwilym Jones Garry Nicholas D Hugh Thomas
Llywydd	Ashok Ahir
Is-lywyddion	Myrddin ap Dafydd (Archdderwydd) Elin Jones (Cadeirydd Eisteddfod Ceredigion 2022) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023)
Cadeirydd y Cyngor	Gethin Thomas
Is-gadeirydd y Cyngor	Heulwen Jones
Trysorydd	Gwenno Williams
Cyfreithwyr Mygedol	Emyr Lewis, Philip George, Aled Walters
Ysgrifennydd	Llŷr Roberts (m) Heulwen Jones (Dros dro)
Archdderwydd	Myrddin ap Dafydd
Cofiadur yr Orsedd	Christine James

Staff (31 Rhagfyr 2022):

Prif Weithredwr	Betsan Moses
Cyfarwyddwr Artistig	Elen Huws Elis
Cyfarwyddwr Strategol	Gwenllïan Carr
Cyfarwyddwr Cyllid	Peter Rhys Davies
Swyddog Cyllid	Oriel Hughes
Dirprwy Gyfarwyddwr Artistig	Sioned Edwards
Swyddog Technegol	Tony Thomas
Swyddog Cymunedol	Katie Hall

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1155539

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL
A DATGANIADAU ARIANNOL
am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2021

EISTEDDFOD

Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif elusen: 1155539
www.eisteddfod.cymru

CYNNWYS

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr:

Amcanion a Gweithgareddau'r elusen	2
Cyflawniadau a pherfformiad	4
Adolygiad Ariannol	9
Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	12
Strwythur, Llywodraethu a Rheoli	13
Cynlluniau'r Dyfodol	16
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	17
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	20
Mantolen	21
Datganiad o'r Llif Arian	22
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	23

ATODIADAU
Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol archwiliedig:

Atodiad A – Swyddogion y Llys a'r Cyngor	35

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2021

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2021. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn nodyn 1 i'r cyfrifon ac yn cydymffurfio â chyfansoddiad yr elusen, Deddf Elusennau 2011, Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP) sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Amcanion yr Eisteddfod, er budd y cyhoedd yng Nghymru a ledled y byd, yw:

- hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a'r iaith Gymraeg; a hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, drwy unrhyw ddull a modd yr ystyrir yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gŵyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

  Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddilyn yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Y Gymraeg yw iaith gweithgareddau'r Eisteddfod a'r Ŵyl. Tra'n parchu'r egwyddor hon, dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r di-gymraeg, a gweithgareddau i'r rhai hynny sy'n dysgu'r Gymraeg.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl deithiol/symudol. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol, Cymdeithas awdurdodau lleol Cymru a chyrff eraill, dylid ymdrechu i sicrhau bod yr ymweliadau'n gymorth i hyrwyddo adnewyddiad y cymunedau, a bod y budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd hynny yn sylweddol a pharhaol.
- Bwriedir i'r Eisteddfod Genedlaethol ddathlu egni a chyfoesedd yr iaith Gymraeg, ardderchowgrwydd diwylliant Cymru, a thraddodiadau gwerthfawr a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl gystadleuol yn ei hanfod. Dylid adolygu nifer a natur y cystadlaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas a pherthnasol i'r cyfnod.
- Bwriedir i'r Eisteddfod hefyd fod yn llwyfan i'r goreuon yn amrywiol agweddau'r diwylliant Cymreig a'r celfyddydau yng Nghymru, boed amatur neu broffesiynol.
- Rhaid sicrhau strwythur rheoli a threfnu effeithiol sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol ac ymarferol sy'n bodoli er mwyn sicrhau gweithredu amserol a diwastraff gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Dylai'r rheolaeth fod yn agored a thryloyw ac yn parchu egwyddorion sylfaenol priodoldeb a llywodraeth gorfforaethol yn gyffredinol.
- Dylid cydweithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol (cyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat) a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ŵyl.
- Ni ddefnyddir eiddo'r Eisteddfod at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennol wrth benderfynu ar ein gweithgareddau.

Amcanion craidd yr Eisteddfod Genedlaethol yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu iaith, hanes a thraddodiadau Cymru mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal i ddathlu popeth Cymreig ac i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn y brif ffrwd drwy:

- Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo diwylliant, bwyd, tirlun a threftadaeth Cymru sy'n adlewyrchu Cymru;
- Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
- Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r ŵyl yn hyrwyddo a'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, trwy arddangos talent o Gymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ymglymu artistiaid, cerddorion, perfformwyr, busnesau, addysg a darparwyr cymdeithasol. Mae'r holl bobl leol a'r holl fusnesau lleol yn cael eu hannog i fynd ati i gymryd rhan, gan greu cyfuniad â blas Cymreig arbennig i adlewyrchu diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd pobl Cymru.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyflawni ei hamcanion craidd trwy:

- Arddangos hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a threftadaeth Cymru; annog pobl i ddathlu hanes a diwylliant Cymru;
- Feithrin a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg pob grŵp oedran;
- Ddarparu cyfleoedd cyffrous i ysgolion a chymunedau trwy gydol Cymru i gymryd rhan ynddynt;
- Ddarparu cyfleoedd i'n hartistiaid Cymreig blaenllaw i arddangos eu talentau;
- Ddod yn hygyrch i gynulleidfa fwy eang o wahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd, trwy ddod â'r Eisteddfod i mewn i'r oes fodern;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymysg busnesau yn y sector preifat;
- Gynyddu proffil Cymru ar lefel rhyngwladol;
- Gydlyniant cymunedol trwy weithredu a chymryd rhan yn wirfoddol yn lleol;
- Weithio gyda sefydliadau lleol i gryfhau Cymru a'i chymunedau;
- Godi proffil a phoblogrwydd canu corawl yng Nghymru;
- Arloesi gyda thechnoleg newydd e.e. y cyntaf yn y Byd i we-ddarlledu'n fyw yn y Gymraeg yn 2000, a'r rhaglen Gymraeg gyntaf ar gyfer yr iPhone yn 2010;
- Annog datblygiad addysgol;
- Gryfhau llwyfan Cymru;
- Gynyddu cystadleuaeth iach a gwaith tîm;
- Annog pobl i gyfrannu o gefndiroedd di-gymraeg;
- Adeiladu pontydd rhwng pobl o ethnigrwydd a chenhedloedd amrywiol.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Eisteddfod AmGen 2021

Yn fuan yn y flwyddyn newydd, daeth hi'n gynyddol amlwg fod lefelau COVID-19 ar draws Cymru'n parhau'n uchel ac na fyddai modd cynnal Eisteddfod lawn ar y Maes.

Unwaith eto eleni, penderfynwyd cynnal Eisteddfod AmGen, gan ddatgan y byddai prosiect 2021 yn adeiladu ar lwyddiant 2020 ac yn gyfle i roi blas o'r Eisteddfod i bawb.

Mae'r adroddiad hwn yn drosolwg o'r prosiect ac yn gyfle i edrych yn ôl ar flwyddyn anodd arall i bawb, gan obeithio y byddwn ni'n adrodd ar Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion y flwyddyn nesaf.

Mae hefyd yn gyfle i ni ddiolch yn gyhoeddus i bawb sydd wedi ein helpu ni a'n cefnogi ni dros y flwyddyn ddiwethaf, gan obeithio eich bod chi wedi mwynhau Eisteddfod AmGen ac y gwelwn ni chi i gyd ar y Maes yn Nhregaron ym mis Awst.

Amcanion AmGen 2021

Un o amcanion AmGen yn 2020 oedd i gefnogi artistiaid a pherfformwyr yn ystod y cyfnod clo. Gyda'r sector digwyddiadau wedi parhau dan glo drwy gydol y flwyddyn, roedd eleni'n gyfle i ni gefnogi'r rheini sy'n gweithio y tu ôl i'r camera ac yn y diwydiant hefyd.

Ein prif amcanion eleni oedd:

- Creu wythnos o weithgareddau a digwyddiadau a oedd yn cwmpasu holl elfennau Eisteddfod arferol
- Creu rhaglen uchelgeisiol gyda gwerthoedd cynhyrchu a chreadigol o safon, fyddai'n apelio at gynulleidfaoedd eang
- Creu cyfleoedd perfformio i gwmpas eang o berfformwyr, gan gyfuno artistiaid newydd gyda pherfformwyr mwy profiadol
- Creu cyfres o gystadlaethau cyfansoddi, llwyfan a chelfyddydau gweledol, gan greu cyfleoedd perfformio unigol, yn ogystal â chyfleoedd i gyfansoddi gwaith creadigol
- Datblygu defnydd o'n platfformau digidol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cynulleidfa ar ein sianel YouTube ac ar-lein
- Datblygu'r berthynas rhwng yr Eisteddfod, BBC Radio Cymru a S4C, fel bod gwylwyr a gwrandawyr yn gallu symud o blatfform i blatfform yn rhwydd drwy gydol yr wythnos
- Sicrhau bod pob prosiect yn adlewyrchu prif amcanion yr Eisteddfod, sef hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan greu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefndir i ddefnyddio'u Cymraeg yn hyderus.

Cystadlu

Eleni, bu modd cynnal cyfres o gystadlaethau llwyfan, cyfansoddi a chelfyddydau gweledol, ac ry'n ni'n ddiolchgar iawn i'n holl banelau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad parod wrth dynnu popeth ynghyd mewn cyfnod byr.

Cyhoeddwyd rhestr testunau newydd ar-lein, gyda chystadlaethau ym mhob un o'r adrannau arferol, a defnyddiwyd gwefan yr Eisteddfod fel hwb cystadlu.

Cystadlaethau Llwyfan

Oherwydd cyfyngiadau, bu'n rhaid i bawb uwch-lwytho fideo i'r wefan er mwyn cymryd rhan mewn cystadleuaeth llwyfan. Dyma'r tro cyntaf i ni ddefnyddio system fel hyn.

Yn naturiol, roedd y niferoedd yn is na'r arfer, ond roedd hyn i'w ddisgwyl oherwydd y cyfyngiadau, yr amserlen dynn ar gyfer cystadlua'r ffaith bod rhaid cyflwyno perfformiadau'n ddigidol. Mentrodd dros 800 o gystadleuwyr, gyda'r beirniaid yn fodlon iawn gyda'r safon ar draws yr adrannau.

Defnyddiodd y beirniaid y fideos er mwyn dewis eu hoff berfformiadau a chafodd y tri gorau ym mhob cystadleuaeth eu gwahodd i ddod i gael eu ffilmio yng Nghaerdydd neu Bangor.

Gan fod nifer o gystadleuwyr yn hunan-ynysu neu'n dioddef o COVID-19 yn ystod y cyfnod ffilmio, bu'n rhaid dangos fideos cartref rhai cystadleuwyr ar y teledu. Darlledwyd y cystadlaethau ar S4C a BBC Radio Cymru mewn rhaglenni dyddiol, gyda'r dau ddarlledwr a'r Eisteddfod yn hyrwyddo cynnwys ein gilydd.

Celfyddydau Gweledol

Cyflwynodd 28 o artistiaid eu gwaith i'w ystyried ar gyfer arddangosfa agored Y Lle Celf, a grëwyd gan gwmni 4Pi. Rhiannon Gwyn o Sling, Gwynedd enillodd Wobr Josef Herman, Dewis y Bobl, eleni.

Cystadlaethau Cyfansoddi

Gyda'r Eisteddfod yng Ngheredigion wedi'i gohirio am flwyddyn arall, cafodd cyfansoddiadau 2020 eu cadw dan glo eto, gan roi cyfle i ni greu nifer o gystadlaethau newydd.

Roedd yr amserlen yn dynn iawn ar gyfer cystadlaethau cyfansoddi, ac ry'n ni'n ddiolchgar i bawb a aeth ati i greu yn ystod y gwanwyn.

Gan fod y diwydiant llyfrau wedi dioddef cymaint dros y flwyddyn ddiwethaf, a chan fod cyfansoddiadau'r Fedal Ryddiaith a Gwobr Goffa Daniel Owen ar gyfer 2020 eisoes wedi'u beirniadu, penderfynwyd gwobrwyo cyfrolau buddugol 2020 eleni.

Cynhaliwyd prif seremonïau'r wythnos yng nghanolfan y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd, gyda BBC Radio Cymru'n gyfrifol am seremoni'r Fedal Ddrama a Gwobr Goffa Daniel Owen, a'r Orsedd yn cydweithio gyda'r BBC ar y seremonïau gorseddol.

Cafwyd enillwyr teilwng ym mhob un o'r seremonïau, gyda Dyfan Lewis yn ennill y Goron, Gareth Evans-Jones yn derbyn y Fedal Ddrama a Gwenallt Llwyd Ifan yn ennill y Gadair.

Stori fawr yr wythnos oedd llwyddiant Lleucu Roberts, wrth iddi ddod i'r brig yng nghystadleuaeth Gwobr Goffa Daniel Owen a'r Fedal Ryddiaith, gan ennill y 'dybl' rhyddiaith, a hynny am yr eildro, gan iddi ennill y ddwy wobr yn Eisteddfod Sir Gâr 2014 hefyd.

Cafodd y Goron a'r Gadair eu cynllunio a'u creu gan Tony Thomas a Nicky Williams yng ngweithdy'r Eisteddfod yn Llanybydder.

Ymysg yr enillwyr amlwg eraill oedd David Thomas, a enillodd wobr Dysgwr y Flwyddyn eleni, a Mared Williams, a enillodd Wobr Albwm Cymraeg y Flwyddyn am yr albwm, *Y Drefn*. Byddwn yn dychwelyd at gyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 y flwyddyn nesaf, gan gyhoeddi'r beirniadaethau, yr enillwyr a'r gweithiau buddugol yn yr Eisteddfod yn ôl yr arfer.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Eisteddfod Gudd

Eleni, roedden ni'n awyddus i greu digwyddiad amgen ar ddechrau wythnos yr Eisteddfod a fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw drwy gydol y penwythnos.

Gyda chyfyngiadau wedi llacio rhywfaint erbyn diwedd Gorffennaf, roedd modd gwerthu nifer fechan iawn o docynnau ar gyfer penwythnos yr Eisteddfod, a gynhaliwyd yng ngardd Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth.

Roedd y penwythnos yn gymysgedd o sesiynau llwyfan byw a pherfformiadau wedi'u curadu mewn lleoliadau ar draws Cymru, gyda phob genre cerddorol yn cael ei hadlewyrchu yn ei thro. Roedd teimlad 'Llwyfan y Maes' i raglen dydd Sadwrn, gydag artistiaid y Tŷ Gwerin ac Encore i'w gweld ddydd Sul.

Dangosodd S4C raglen uchafbwyntiau ddiwedd yr wythnos, ac mae BBC Radio Cymru hefyd wedi chwarae nifer fawr o'r setiau dros yr wythnosau diwethaf. Gan mai dim ond yn fyw oedd modd gwylio'r ffrwd dros y penwythnos, penderfynwyd rhyddhau setiau unigol ar gyfryngau cymdeithasol, ein gwefan ac YouTube eto'n ystod mis Awst, gan roi cyfle i bobl wylio setiau llawn ar adeg oedd yn gyfleus iddyn nhw.

Bron i bedwar mis ar ôl y penwythnos ei hun, mae ambell sesiwn yn dal i gael eu gwylio degau o weithiau'n ddyddiol, gyda sesiynau Welsh at the West End, Bryn Fôn a'r Band a Casi x Seindorf yn ffefrynnau amlwg ar ein sianel YouTube.

Mae'r sesiynau, ynghyd â'r ffrwd fyw dros y penwythnos ei hun wedi'u gwylio dros 50,000 o weithiau erbyn hyn, ac wedi apelio at gynulleidfaoedd o bob oed ac o bob rhan o'r byd. Mae niferoedd y gwylwyr ar S4C yn ychwanegol at y ffigwr hwn.

Yr artistiaid a fu'n rhan o'r Eisteddfod Gudd oedd:

Dydd Sadwrn:

Band Pres Llareggub, Omaloma, Glain Rhys a'r Band, Lily Beau, Sybs, Pys Melyn, Y Cledrau, Huw Chiswell, Blackelvis, Los Blancos, Kim Hon, Candelas, Alffa, Bryn Fôn a'r Band, Eden

Dydd Sul:

Sian James a Ballet Cymru, Gwilym Bowen Rhys, Irfan Rais a Tudur Phillips, Georgia Ruth, Gareth Bonello, Casi x Seindorf, Catrin Finch a Seckou Keita, A'th Fendico Di, Teulu Lovell Jones, Mari Wyn Williams, Dathlu Côr-ona, Simmy Singh, Welsh of the West End

Noddwyd y penwythnos gan Brifysgol Aberystwyth.

Prosiectau a Phartneriaethau

Roedd Eisteddfod AmGen eleni'n gyfle i greu nifer o brosiectau newydd a datblygu ambell raglen oedd eisoes wedi'i gychwyn y llynedd.

Un o'n hamcanion oedd creu rhaglen uchelgeisiol gyda gwerthoedd cynhyrchu a chreadigol o safon a fyddai'n apelio at gynulleidfaoedd eang, a braf oedd gweld bod hyn wedi digwydd ar ddiwedd y prosiect.

Roedd pwyslais mawr ar weithio mewn partneriaeth eleni, gyda chwmni Theatr Invertigo, Amgueddfa Cymru, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru ymysg ein partneriaid yma yng Nghymru, a Gŵyl Werin Genedlaethol Awstralia a Chanolfan Gelfyddydau Genedlaethol Canada yn bartneriaid rhyngwladol yn rhai o'n prosiectau.

Roedd yr arlwy'n amrywiol iawn - o raglen deyrnged i Aled Lloyd Davies i gig Merched yn Gwneud Miwsig yn ein storfa yn Llanybydder, ac o bererindod farddonol o amgylch Cymru gan Rhys Iorwerth i sgwrs gyda'r Prif Weinidog, Mark Drakeford.

Yn gerddoriaeth, llenyddiaeth, drama, dawns, sgyrsiau a darlithoedd, roedd rhywbeth i bawb yn ein rhaglen eleni.

Cafodd sesiynau 'nodedig' eu dangos ar facebook, ar-lein ac ar ein sianel YouTube bob noson am 21:00. Roedd y rhain yn cynnwys set Bryn Fôn a'r Band o Gastell Belan, cyngerdd Tŷ Gwerin o Bell gyda Pedair, Eve Goodman a Cerys Hafana, a Gig y Pafiliwn, yn dathlu deng mlynedd o label Recordiau I Ka Ching. Cafodd y gig ei ffrydio mewn sinemâu mewn gwahanol rannau o Gymru ar y noson hefyd.

Roedd sesiynau poblogaidd eraill yn cynnwys Deffro'r Llwch: Rhwng yr Hen Ganiadau a'r Nodau Newydd, comisiwn newydd gan Patrick Rimes a Beth Celyn, cyfres y Zoomryson, Monologau'r Maes a chyfres y Cwt Cerdd. Cafodd y Cwt Cerdd ei ddarlledu bob noson yn ystod yr wythnos, gan edrych ar arddull gerddorol wahanol bob tro. Ar ôl yr Eisteddfod, dangoswyd y gyfres ar S4C.

Daeth cyfle i weithio gyda chwmni Telesgop ar raglen y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg eleni, gyda chyfres o ffilmiau a thrafodaethau'n canolbwyntio ar nifer o bynciau. Roedd y sesiynau'n cynnwys rhaglenni teyrnged hyfryd i'r Athro Syr John Meurig Thomas a'r Athro Glyn O Phillips, ynghyd â chyfres ar y cosmos gyda Gwenllïan Williams a chyfres o arbrofion cemegol gyda chriw o fyfyrwyr cemeg ifanc.

Canolfan Genedlaethol Dysgu Cymraeg oedd yn gyfrifol am raglen y Pentref Dysgu Cymraeg eto eleni. Mae hon yn bartneriaeth sy'n rhedeg drwy gydol y flwyddyn gyda chyfle i weithio ar wahanol brosiectau.

Yn ogystal â bore coffi fyw ddyddiol gyda gwestai, trefnodd y Ganolfan sioe 'Whodunnit' ar gyfer dysgwyr, a braf yw gweld fod y sioe wedi bod ar daith rithiol yn ystod Wythnos Dysgu Cymraeg yn ddiweddar.

Dros y misoedd diwethaf, ry'n ni hefyd wedi creu label cerddoriaeth, LABEL EG, ac wedi rhyddhau ambell gân ar y label yn barod, gan gynnwys Cofleidia Fi gan Dionne Bennett a Matholwch gan Siddi a Siobhan Owen, a ryddhawyd ar y cyd gyda label Recordiau I Ka Ching.

Ry'n ni'n parhau i dangos sesiynau newydd, gyda dau fonolog newydd sy'n rhan o gyfres Monologau'r Maes yn cael eu dangos ym mis Tachwedd.

Mae hwn yn brosiect ar y cyd gyda Chwmni Theatr Invertigo a Dramâu Cymru, a dangoswyd y ddau gyntaf gyda John Ogwen a Lauren Connelly, yn ystod wythnos yr Eisteddfod, gyda pherfformiad gan Siân Phillips a Lemfreck wedi'u ffilmio'n ddiweddar.

Ein Cynulleidfa

Oedran

Mae oedran y rheini sy'n gwylio ar YouTube (neu o leiaf yr unigolyn sydd wedi tanysgrifio i'n sianel YouTube) yn newid yn ystod yr wythnos.

Fel rheol, merched o 25-34 oed sy'n fwyaf tebygol i wylio ein cynnwys ar YouTube, ond yn ystod wythnos yr Eisteddfod, mae hyn yn newid i ddynion dros 65 oed.

Efallai bod hyn yn dangos fod gwylwyr hŷn yn trin sianel YouTube yr Eisteddfod yn union fel teledu ac yn gwylio'n 'fyw' yn hytrach na mynd ati i wylio'n ôl ar adeg arall.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Merched o 35 oed i 44 oed yw'r garfan gryfaf o ddilynwyr sydd gennym ni ar facebook, a merched o 25 oed i 34 oed sydd fwyaf tebygol o'n dilyn ni ar Instagram. Yn ddiddorol, dynion o 21-24 oed yw'r garfan fwyaf o'n dilynwyr ni ar Trydar.

Rhyngwladol

Er bod y rhan fwyaf o'n gwylwyr ni yn y DU (a Chymru'n benodol), mae gennym ddilynwyr mewn nifer o wledydd eraill ar draws y byd.

Rhain yw'r gwledydd mwyaf poblogaidd:
UDA, Yr Ariannin, Awstralia, Canada, Ffrainc, Sbaen, Iwerddon, Seland Newydd, Yr Almaen.

Cyfryngau Cymdeithasol

Eleni, dangoswyd 38 sesiwn ar facebook yn ystod wythnos yr Eisteddfod, o'i gymharu â 80 yn 2020.

Argraffiadau ar gyfryngau cymdeithasol, 2021 (wythnos yr Eisteddfod yn unig) – 1,330,304, o'i gymharu â 1,028,742 yn 2020.

Ymgysylltiad ar gyfryngau cymdeithasol, 2021 (wythnos yr Eisteddfod yn unig) – 57,028, o'i gymharu â 54,645 yn 2020.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Derbyniwyd cyfanswm o £2.490m o incwm i mewn yn ystod i flwyddyn i gymharu gyda £2.763m yn 2020 a gwariwyd cyfanswm o £1.696m (£1.542m yn 2020). Gan gynnwys hefyd yr enillion o £75,000 ar y buddsoddiadau (£20,000 yn 2020), mae hyn yn gadael gweddill (cyn y cynnydd yng ngwerth y cynllun pensiwn) ar ddiwedd y flwyddyn o £869,000 (2020: Gweddill o £1.241m).

Ar 31 Rhagfyr 2021 roedd yr asedau net yn £5.190m (£3.311m yn 2020).

Cronfeydd

Mae'r Eisteddfod yn cadw cronfeydd ariannol mewn nifer o gategorïau:

Cronfeydd Anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cronfeydd Cyfyngedig - arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw. Cyfanswm y gronfa ar ddiwedd 2021 oedd £235,000 (2020: Dim).

Cronfeydd Penodol - yn cynrychioli incwm a dderbynnir ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd cyfanswm o £84,000 ar gyfer Eisteddfod Ceredigion (sydd i'w chynnal yn 2022) a £7,000 tuag at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Roedd cyfanswm y gronfa ar 31 Rhagfyr 2021 yn £1.022m (2020 - £910,000).

Cronfeydd Gwaddol - cronfeydd sydd i'w cadw er budd yr elusen fel Cronfa Cyfalaf. Cyfanswm y gronfa yma ar 31 Rhagfyr 2021 oedd £1.507m (£1.414m ar ddiwedd 2020).

Cronfa Bensiwn – Ar 31 Rhagfyr 2021 roedd gwarged yn y gronfa bensiwn o £950,000 (2020 – diffyg o £60,000).

Polisi Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddiffyg dros dro (e.e. colled mewn Eisteddfod benodol neu gynnydd anrhagweladwy yn y gwariant) fel y gall yr elusen parhau i weithredu ar unrhyw adeg.

Oherwydd natur ansicr nifer o ffynonellau incwm a gwariant, fel y gronfa leol, grantiau, nawdd, gwerthiant tocynnau a chostau ychwanegol o ran tywydd drwg, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar bolisi lle dylai'r cronfeydd anghyfyngedig fod yn werth 50% o leiaf o gyfanswm y gwariant (ar gyfartaledd blynyddoedd 2018 a 2019), sy'n cyfartalu i £2.6m mewn cronfeydd wrth gefn. Ar y lefel yma, teimlai'r ymddiriedolwyr y bydd yr elusen yn gallu parhau i weithredu mewn achos o ddiffyg sylweddol naill ai oherwydd amgylchiadau fel y pandemig Covid-19 presennol neu fod un o wyliau'r Eisteddfod yn gwneud colled ariannol. Nid yw'r cronfeydd rhydd o £1.496m (2020: £1.047m) yn cyrraedd y nod ar hyn o bryd.

Arferion codi arian

Rydym yn ffodus ac yn hynod ddiolchgar am bob rhodd a chyfraniad ariannol, rhai a dderbynnir yn flynyddol ac eraill ar gyfer gwyliau penodol. Mae'r ymddiriedolwyr, gan gynnwys swyddogion y pwyllgorau cyllid ar draws Cymru, yn ymdrechu bob amser i sicrhau y safonau uchaf, llywodraethu da ac adolygiad parhaus mewn perthynas â'n gweithgareddau codi arian.

Cronfeydd Lleol a Chyffredinol - Mae'r mwyafrif o'r rhoddion a dderbyniwyd gan yr elusen yn cael eu derbyn trwy bwyllgorau apêl leol i godi arian i'r Eisteddfod sydd yn ymweld â'u hardal. Hwn yw gyfraniad dalgylch yr Eisteddfod i'r gost o gynnal yr ŵyl ac yn arferol mae'r pwyllgorau apêl yn codi arian am gyfnod o ddwy i dair blynedd hyd at gynnal yr Eisteddfod. Mae'r derbyniadau yma'n cynnwys rhoddion gan unigolion i ddigwyddiadau codi arian cyffredinol.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae pob pwyllgor apêl newydd yn derbyn cyfarwyddiadau gweithredu gan yr elusen. Mae cynrychiolwyr o bob pwyllgor apêl yn cyfarfod yn rheolaidd i adrodd yn nôl i'r Pwyllgor Cyllid Canolog.

Mae swyddogion y pwyllgor cyllid hefyd yn sicrhau:

- Dim ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd unigolyn;
- Dim ymagweddau parhaus at ddiben cyfreithloni neu gaffael arian neu eiddo arall ar ran yr elusen;
- Bod neb yn rhoi pwysau gormodol ar rywun i roi arian neu eiddo arall.

Yn ystod 2021, derbyniwyd £49,000 (2020: £181,000) ar gyfer y cronfeydd lleol a chyffredinol. Mae'r swm a godwyd yn flynyddol yn gallu amrywio gan ei fod yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae pwyllgorau'r apêl yn codi arian.

Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli derbyn arian o £21,000 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022 a £6,000 ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Yn amlwg, oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar gasglu arian mae'r swm a gasglwyd yn ystod 2021 yn sylweddol llai.

Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys incwm o £42,000 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn am docynnau a nawdd, safleoedd carafán a blaendaliadau stondin gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.

Cyfrifwyd am yr incwm yma trwy'r Cronfeydd Penodol i'w rhyddhau pan fydd yr Eisteddfod hon yn cael ei chynnal, gobeithio yn 2022, yn Nhregaron.

Rhoddion trwy ewyllys – Derbyniwyd un rhodd eleni, gwerth £33,000, lle mae cefnogwr yr Eisteddfod wedi dewis rhoi rhodd yn eu ewyllys (2020: dwy rhodd – gwerth £45,000).

Ymgyrchoedd eraill - Ymgymerir â phob marchnata uniongyrchol arall gan staff yr Eisteddfod i sicrhau nad yw'n afresymol ymwthiol na pharhaus. Gwneir cyswllt trwy farchnata uniongyrchol *mailchimp* ar gyfartaledd tua unwaith y mis. Mae'r holl ddeunydd marchnata yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut y gellir tynnu person oddi ar restrau postio.

Nid yw'r Eisteddfod yn defnyddio unrhyw gorff proffesiynol i godi arian. Ni fu unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn am weithgaredd codi arian yr elusen.

Polisi Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu buddsoddi arian mewn portffolio risg canolig – cyfuniad o stoc y llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi er mwyn cwrdd â gofynion am gynhyrchu incwm a thyfiant cyfalaf. Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Brewin Dolphin sydd yn buddsoddi cronfeydd yr Eisteddfod ar ei rhan. Caiff y cronfeydd hyn eu hadolygu'n gyson.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu na ddylid buddsoddi mewn cwmnïau sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu neu ddosbarthu arfau a thybaco. Roedd gwerth y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn £1,749,000 o gymharu â £1,181,000 ar 31 Rhagfyr 2020.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad eu gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddi-dâl, o godi arian i stiwardio ar faes yr Eisteddfod . Nid ydym yn gallu rhoi gwerth ariannol ar yr holl waith yma ac felly, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Trafodion partïon cysylltiol

Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2021 gan yr ymddiriedolwyr neu unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli.

Rheoli risg

Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'w meysydd busnes, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol briodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus ac yn cofnodi risgiau materol yn y gofrestr risg.

Mae'r Panel Archwilio a'r Bwrdd Rheoli yn arolygu'r gofrestr risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau yn cynnwys parhad yr Eisteddfod, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd.

Rhagdybiaeth Busnes Byw

O ganlyniad i Covid-19, nid oedd unrhyw ddewis gan yr ymddiriedolwyr ond i ohirio Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn 2020 ac eto yn 2021. Disgwylir y bydd cyfran sylweddol o'r gostyngiad mewn incwm yn cael ei wrthbwyso gan gyfuniad o wariant is yn ogystal ag arian grant o ffynonellau eraill – megis Llywodraeth Cymru yn bennaf a Chynllun Cadw Swyddi Coronafirws.

O ganlyniad, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr Elusen mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd a bod disgwyliad rhesymol gan yr Eisteddfod bod yr adnoddau yn ddigonol i barhau i weithredu'n hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail busnes sy'n fyw wrth baratoi'r cyfrifon.

GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Enw'r elusen:	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Cyfansoddiad:	Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif yr elusen:	1155539
Swyddfa gofrestredig:	40 Parc Tŷ Glas Llanisien Caerdydd CF14 5DU
Bwrdd Rheoli ac Ymddiriedolwyr:	Ashok Ahir (Llywydd y Llys) Gethin Thomas (Cadeirydd y Cyngor) Heulwen Jones (Is-gadeirydd y Cyngor) Gwenno Williams (Trysorydd) Christine James (Gorsedd y Beirdd) Elin Jones (Cadeirydd Eisteddfod 2022) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023) Heledd Bebb Elin Haf Gruffydd Jones Gwerfyl Pierce Jones Trystan Lewis Deian Rhys Aled Walters Rhian Huws Williams
Ysgrifennydd	Llyr Roberts
Is-ysgrifennydd	Gwawr Taylor
Prif Weithredwr:	Betsan Moses
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo SA19 6AH
Bancwyr:	HSBC 56 Heol y Frenhines Caerdydd CF10 9NA
Brocer Buddsoddiadau:	Brewin Dolphin 5 Sgwâr Callaghan Caerdydd CF10 5BT
Cyfreithwyr Mygedol:	Emyr Lewis Philip George Aled Walters

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Cyfansoddiad

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau ar 29 Ionawr 2014. Trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau *Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru* (rhif elusen 219171) i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig ar 1af Ionawr 2015. Mae'r elusen newydd yma'n weithredol o'r dyddiad hwn.

Y Llys

Mae'r Llys yn cynnwys holl aelodau'r Elusen, gyda holl hawliau arferol i'w gweithredu trwy Gyfarfodydd Cyffredinol. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) yr hawl i benodi ac i ddiswyddo Swyddogion, Ymddiriedolwyr, ac aelodau'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, Rheolau Sefydlog yr elusen ac yn unol â Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llys, mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn ystyried ac yna'n derbyn neu wrthod adroddiadau'r Ymddiriedolwyr, y Cyngor a Bwrdd yr Orsedd, ac mae'r hawl gan y Llys i sicrhau fod yr amcanion a'r ymrwymiadau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn unol â dymuniad y Llys ac yn unol â'r Ddeddf. Mae'r Prif Weithredwr llawn amser yn rheoli gweithgareddau'r elusen gyda chymorth aelodau staff. Mae aelodaeth o'r Llys yn agored i bawb.

Y Cyngor

Swyddogaeth y Cyngor ydi gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol sydd yn cymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod. Mae'r Cyngor yn cynnwys 36 aelod ynghyd a'r Cymrodyr a Chyn-Lywyddion– caiff 24 o aelodau eu hethol gan y Llys, 6 gan yr Ymddiriedolwyr, a hawl gan y Cyngor i gyfethol hyd at 6 aelod. Rhaid i aelodau o'r Cyngor a'r Bwrdd Rheoli fod yn aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn cynnal o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn.

Mae gan y Cyngor ddau bwyllgor, sef

1. Pwyllgor Archwilio;
2. Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg – i arolygu ac adrodd ar weithredu'r Rheol Gymraeg ym mhob Gŵyl.

Bwrdd Rheoli/Ymddiriedolwyr

Y Bwrdd Rheoli sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel ymddiriedolwyr. Disgwylir i Brif Weithredwr a phrif staff yr elusen fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ond heb hawl pleidleisio gan nad ydynt yn ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf wyth gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn cyflawni gwaith yr elusen sefydlwyd y Pwyllgorau a ganlyn:

Pwyllgor Llywio/Pwyllgor Gwaith ar gyfer pob Gŵyl.

Pwyllgor Diwylliannol – i gydlynu gwaith panelau sefydlog i gynnig cyngor arbenigol ar feysydd cystadleuol penodol ac i gymryd cyfrifoldeb am y rhestr gystadlaethau.

Pwyllgor Technegol – i gynnig cyngor arbenigol am y maes, adeiladau, trafnidiaeth, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r Ŵyl.

Pwyllgor Marchnata – i gynnig cyngor arbenigol ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod a'r Ŵyl.

Pwyllgor Adnoddau Dynol – i gynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â staffio a chyflogau.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Pwyllgor Cynhwysedd ac Amrywiaeth – i edrych ar holl weithdrefnau a gweithgareddau'r Eisteddfod i sicrhau eu bod yn agored a chynhwysol.

Pwyllgor Artistig - i gynnig cyngor arbenigol ar raglenni hwyr; a phrosiectau artistig mawr.

Panel Enwebu – i argymell enwau Ymddiriedolwyr, aelodau'r Cyngor ac aelodau Pwyllgorau a phanelau sefydlog er mwyn cyflawni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo – i gwrdd yn ôl yr angen i ystyried unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbynnir am Swyddogion yr elusen a chwynion am Ymddiriedolwyr yr elusen a'r staff.

Penodi Ymddiriedolwyr

Mae cymalau 12 ac 13 o'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer penodi/ethol ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

1. Penodir tri ymddiriedolwr yn rhinwedd eu swyddi, sef:
   Llywydd y Llys; Cadeirydd y Cyngor; Is-gadeirydd y Cyngor.
2. Dim llai na phedwar na mwy nag wyth ymddiriedolwr enwebedig wedi eu henwebu fel a ganlyn:
   (i) Bwrdd yr Orsedd (1);
   (ii) Pwyllgorau Gwaith y tair eisteddfod gyfredol (3);
   (iii) Cyngor (4).
3. Dim llai na phedwar na mwy na chwe ymddiriedolwr etholedig i'w hethol gan y Llys gyda'r hawl i'r ymddiriedolwyr benodi i lenwi bylchau hyd y cyfarfod nesaf o'r Llys;
4. Dim mwy na dau ymddiriedolwr wedi eu cyfethol gan yr ymddiriedolwyr eraill.

Bwriedir sicrhau y bydd ystod eang o sgiliau a phrofiad o fewn y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys sgiliau a phrofiad diwylliannol, marchnata, technegol, busnes, ariannol, cyfreithiol a rheolaeth, ynghyd â phrofiad blaenorol o waith Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr allu cyfathrebu'n rhugl drwy'r Iaith Gymraeg;

Bwriedir hefyd geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws yr holl Ymddiriedolwyr o safbwynt rhyw, oedran a chysylltiadau lleol;

Hyfforddiant ac anwytho Ymddiriedolwyr

Mae gan yr holl Ymddiriedolwyr presennol gysylltiad hir gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Maent yn cael cynnig derbyn gwybodaeth am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Pe bai ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi fe fyddai hynny'n golygu y byddant yn cael hyfforddiant ar weithdrefnau a pholisïau'r Eisteddfod. Byddai asesiad yn cael ei wneud o'r anghenion hyfforddi, gyda darpariaeth ar gyfer hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o sefyllfa'r elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, sy'n cynnwys FRS 102, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw cyfanrwydd yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Rheoli. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gynorthwyo gan grŵp o uwch reolwyr sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli.

Mae'r Tîm yma yn cynnwys:
Betsan Moses (Prif Weithredwr)
Elen Elis (Trefnydd a Phennaeth Artistig)
Gwenllïan Carr (Pennaeth Cyfathrebu)
Peter Davies (Pennaeth Cyllid)

Polisi cyflogi

Mae'r Eisteddfod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu llawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

Cydnabyddiaeth

Mae pob ymddiriedolwr yn rhoi o'u hamser am ddim. Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn.

CYNLLUNIAU'R DYFODOL

Yn fuan yn Ionawr 2021, daeth hi'n gynyddol amlwg fod lefelau Covid-19 ar draws Cymru'n parhau'n uchel ac na fyddai modd cynnal Eisteddfod lawn ar y Maes.

Unwaith eto, penderfynwyd cynnal Eisteddfod AmGen, gan ddatgan y byddai prosiect 2021 yn adeiladu ar lwyddiant 2020 ac yn gyfle i roi blas o'r Eisteddfod i bawb.

Gyda'r sector digwyddiadau wedi parhau dan glo drwy gydol y flwyddyn, roedd 2021 yn gyfle i gefnogi artistiaid a'r rheini sy'n gweithio y tu ôl i'r camera.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu a'n cefnogi dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf.

Rydym nawr yn edrych ymlaen i fod gyda chi unwaith eto ar y Maes yn Nhregaron ym mis Awst ac yna ym mhentref Boduan y flwyddyn nesaf ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd.

Ar ran yr ymddiriedolwyr

Gethin Thomas
Ymddiriedolwr
Cadeirydd y Cyngor

22 Rhagfyr 2022

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Barn

Archwiliwyd cyfrifon Eisteddfod Genedlaethol Cymru am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021; maent yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau Ariannol, y Fantolen a'r nodiadau perthnasol. Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r polisïau cyfrifo a nodir yn y cyfrifon. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.

Yn ein barn ni:

- Mae'r cyfrifon yn rhoi adlewyrchiad cywir a theg o gyflwr ariannol yr elusen ar 31 Rhagfyr 2021 a'r adnoddau a ddefnyddiwyd am y flwyddyn ariannol;
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r gyfraith berthnasol o Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifo Derbyniol Cyffredinol y Deyrnas Unedig), sy'n cynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon.
- Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 8 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISA's (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Fe wnaethom aros yn annibynnol o'r elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r cyfrifon, rydym o'r farn bod defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol.

Disgrifir ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol.

Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir fel arall yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arno.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn sylweddol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad neu fel arall yn ymddangos eu bod wedi'i camddatgan yn sylweddol. Os byddwn yn nodi anghysondebau sylweddol o'r fath neu gamddatganiadau ymddangosiadol sylweddol, mae'n ofynnol i ni benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddwn, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

Materion yr ydym yn rwymedig i adrodd drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r eitemau canlynol lle mae'r Ddeddf Elusennau 2011 yn gofyn i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad yr Ymddiriedolwyr yn anghyson mewn unrhyw berthynas materol â'r datganiadau cyllid; neu
- bod yr elusen heb gadw cofnodion cyfrifo derbynniol; neu
- bod y datganiadau cyllid ddim yn cyd fynd â'r cofnodion cyfrifo a ffurflenni statudol:neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau anghenrheidiol i gyflawni ein archwiliad.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am unrhyw reolaeth fewnol y mae'r ymddiriedolwyr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, unrhyw fater ynghylch defnyddio sail busnes gweithredol cyfrifyddu oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithrediadau, neu nad oes ganddynt ddewis amgen realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym wedi'n penodi'n archwilwyr o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf honno.

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn ei cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi Adroddiad gan yr Archwilwyr Annibynnol sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad ac fe'u hystyrir yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyfan, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yw afreoleidd-dra. Amcanion ein harchwiliad yw cael digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, cyflawni gweithdrefnau archwilio er mwyn helpu nodi achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau eraill a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol, ac i ymateb yn briodol i ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

O ran twyll, amcanion ein harchwiliad yw nodi ac asesu'r risg o gamddatganiad sylweddol o'r datganiadau ariannol oherwydd twyll, casglu digon o dystiolaeth archwilio priodol ynghylch y risgiau aseswyd o gamddatganiad sylweddol trwy dwyll gan ddylunio a gweithredu ymatebion priodol ac ymateb yn briodol i dwyll neu dwyll tybiedig a nodwyd yn ystod yr archwiliad.

Fodd bynnag, prif gyfrifoldeb y rheolwyr, gyda goruchwyliaeth y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, yw sicrhau bod gweithrediadau'r endid yn cael eu cynnal yn unol â darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau ac ar gyfer atal a chanfod twyll.

Wrth asesu a nodi'r risgiau o gamddatganiad sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, fe wnaeth y tîm archwilio:

- gael dealltwriaeth o natur y diwydiant a'r sector, gan gynnwys y fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r elusen yn gweithredu ynddo a sut mae'n cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol;
- holi'r rheolwyr, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, am eu hasesiad a chydnabyddiaeth eu hunain o beryglon afreoleidd-dra, gan gynnwys unrhyw achosion gwirioneddol, tybiedig neu honedig o dwyll;
- drafod materion ynghylch peidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a sut y gallai twyll ddigwydd gan gynnwys asesu sut a ble y gallai'r datganiadau ariannol fod yn agored i dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, rydym yn ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau mwyaf arwyddocaol sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol yw SoRP Elusennau, FRS 102 a Deddf Elusennau 2011. Gwnaethom gynnal gweithdrefnau archwilio i ganfod diffyg cydymffurfio a allai gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol a oedd yn cynnwys adolygu'r datgeliadau yn y cyfrifon.

Nododd y tîm archwilio mai'r risg mwyaf i gamddatganiad sylweddol trwy dwyll fyddai o ganlyniad i'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnol. Roedd y gweithdrefnau archwilio a berfformiwyd yn cynnwys ond nid oeddent wedi'u cyfyngu i brofi cyfnodolion ac addasiadau eraill a gwerthuso'r rhesymeg fusnes mewn perthynas ag unrhyw drafodion sylweddol, anarferol a wnaed y tu allan i gwrs busnes arferol.

Ceir disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr annibynnol.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff yn unol ag Adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoleiddiadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno (Rhan 4 o'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Rheoliadau 2008). Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel y gallem ddatgan i ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r elusen ac ymddiriedolwyr yr elusen fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, nac am y farn yr ydym wedi'i ffurfio.

Ashmole & Co

Ashmole & Co (Archwilydd Statudol)
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
SA19 6AH

Dyddiad: 22/12/2022

DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL (GAN GYNNWYS CYFRIF INCWM A GWARIANT) AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

		2021				2020			
		Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**
	Nodyn	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
INCWM									
Rhoddion a chymynroddion:									
Rhoddion	2	317	-	-	317	485	-	-	485
Grantiau	3	181	1,127	-	1,308	1,419	-	-	1,419
		498	1,127	-	1,625	1,904	-	-	1,904
Gweithgareddau elusennol:									
Gŵyl yr Eisteddfod	5	833	-	-	833	829	-	-	829
Gweithgareddau masnachu	6	14	-	-	14	15	-	-	15
Incwm o fuddsoddiadau	7	-	-	18	18	-	-	15	15
Cyfanswm incwm		**1,345**	**1,127**	**18**	**2,490**	**2,748**	**-**	**15**	**2,763**
GWARIANT									
Gweithgraeddau codi arian	8	18	-	-	18	15	-	-	15
Gweithgareddau elusennol:									
Gŵyl yr Eisteddfod	8	786	892	-	1,678	1,527	-	-	1,527
Cyfanswm gwariant		**804**	**892**	-	**1,696**	**1,542**	**-**	**-**	**1,542**
Enillion ar fuddsoddiadau		-	-	75	75	-	-	20	20
Incwm/Gwariant Net		**541**	**235**	**93**	**869**	**1,206**	**-**	**35**	**1,241**
Enillion cydnabyddedig eraill									
Cynnydd/(Lleihad) actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	16	1,010	-	-	1,010	(320)	-	-	(320)
Symudiad net yn y cronfeydd		**1,551**	**235**	**93**	**1,879**	**886**	-	**35**	**921**
Cysoni'r Cronfeydd									
Balansau ddygwyd ymlaen 1 Ionawr		1,897	-	1,414	3,311	1,011	-	1,379	2,390
Balansau gariwyd ymlaen 31 Rhagfyr		**3,448**	**235**	**1,507**	**5,190**	**1,897**	**-**	**1,414**	**3,311**

MANTOLEN AR 31 RHAGFYR 2021

	Nodyn	2021 £ 000	2020 £ 000
Asedau sefydlog			
Asedau anniriaethol	10	44	2
Eiddo parhaol	10	390	432
Buddsoddiadau	11	1,749	1,181
		2,183	1,615
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	12	434	941
Buddsoddiadau tymor byr	11	1,677	888
Banc		98	69
		2,209	1,898
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	13	(152)	(141)
Asedau cyfredol net		2,057	1,756
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		4,240	3,371
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	16	950	(60)
Asedau net		**5,190**	**3,311**
Cronfeydd Cadw			
Cronfeydd Gwaddol		1,507	1,414
Cronfeydd Cyffredinol		1,496	1,047
Cronfeydd Penodol		1,002	910
Cronfeydd Cyfyngedig		235	-
Cronfa Bensiwn	16	950	(60)
Cyfanswm Cronfeydd		**5,190**	**3,311**

Cymeradwywyd y cyfrifon yma gan Fwrdd yr ymddiriedolwyr ar 22/12/2022.

Ashok Ahir
Llywydd

Gwenno Williams
Trysorydd

DATGANIAD O'R LLIF ARIAN
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

	2021 £ 000	2020 £ 000
Llif arian o Weithgareddau Gweithredol	1,353	1,279
Llif arian o Weithgareddau buddsoddi		
Enillion ar fuddsoddiadau	18	15
Taliadau am eiddo parhaol	59	-
Derbyniadau trwy werthu buddsoddiadau	129	100
Taliadau am fuddsoddiadau newydd	(626)	(300)
Mewnlif net ariannol o weithgareddau buddsoddi	934	1,095
Arian a chyfwerthoedd arian ar 1 Ionawr	**1,351**	**256**
Arian a chyfwerthoedd arian ar 31 Rhagfyr	**2,285**	**1,351**

Cysoniad y llif arian a'r symudiad mewn gweithgareddau gweithredol

	2021 £ 000	2020 £ 000
Incwm net	869	1,241
Dibrisiad asedau diriaethol	45	47
Amorteiddiad asedau anniriaethol	14	9
(Enillion) ar fuddsoddiadau	(75)	(20)
Llog a dderbynnir	(18)	(15)
Lleihad mewn dyledwyr cyfredol	507	348
Cynnydd mewn credydwyr cyfredol	11	(331)
Mewnlif net ariannol o weithgareddau gweithredol	1,353	1,279

Dadansoddiad o arian a chyfwerthoedd arian

	2021 £ 000	2020 £ 000
Buddsoddiadau eiddo parhaol - COIF ac arian buddsoddi	510	394
Buddsoddiadau tymor byr - Cyfrif banc	1,677	888
Banc	98	69
Cyfanswm arian a chyfwerthoedd arian	**2,285**	**1,351**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 RHAGFYR 2021

1. Polisïau Cyfrifo

a. Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig fel y mae'n berthnasol o 1 Ionawr 2015.

Mae'r cyfrifon (datganiadau ariannol) wedi'u paratoi sy'n rhoi darlun 'cywir a theg' ac maent wedi ymadael o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau y mae eu hangen i ddarparu 'darlun cywir a theg'. Mae'r ymadawiad hwn wedi cynnwys dilyn Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 yn hytrach na'r Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Argymhellir Ymarferwch yn effeithiol o 1 Ebrill 2005 sydd wedi'i dynnu'n ôl ers hynny.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Mae'r Asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod ar gost hanesyddol neu eu gwerth trafodiad oni nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifyddu(au) perthnasol.

b. Incwm

Cydnabyddir incwm pan fydd gan yr elusen yr hawl i dderbyn yr arian a bod unrhyw amod ynghlwm wrth yr eitem neu eitemau o incwm wedi cael eu bodloni, ac yn debygol y bydd yr incwm yn cael eu derbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy.

Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

Cydnabyddir incwm ewyllys a chymynroddion pan fydd gan yr elusen yr hawl i'r incwm, mae derbyn yr arian yn debygol a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Lle mae cymynroddion wedi eu hysbysu i'r elusen, neu mae'r elusen yn ymwybodol o'r profiant, a'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi heb gael eu bodloni, yna mae'r gymynrodd yn cael ei thrin fel ased wrth gefn a ddatgelir os yn berthnasol.

c. Llogau a dderbynnir

Mae llog ar gyfrifon cadw yn cael ei gynnwys pan gaiff ei dderbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy gan yr elusen; mae hyn fel arfer ar hysbysiad am y llog a delir neu yn daladwy gan y banc.

ch. Cronfeydd

Cronfeydd anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Cronfeydd Cyfyngedig yw'r arian a roddir i'w defnyddio ar gyfer pwrpas penodol, ac mae eu defnydd yn gyfyngedig i'r pwrpas hwnnw.

Mae'r cronfeydd penodol yn cynrychioli incwm anghyfyngedig lle mae'r ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn, wedi ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio at ddiben penodol.

Mae'r cronfeydd gwaddol yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr wedi nodi eu bod yn cael eu defnyddio yn unig ar gyfer pwrpas penodol o waith yr elusen neu ar gyfer prosiectau artistig penodol a wneir gan yr elusen.

d. Gwariant a TAW na ellir ei adennill

Mae gwariant yn cael ei gydnabod unwaith mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, ac yn debygol y bydd setliad yn ofynnol a swm y rhwymedigaeth yn cael ei fesur yn ddibynadwy. Mae'r gwariant wedi'i ddosbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Costau codi arian yn cynnwys costau masnachu masnachol ar gyfer loteri'r Eisteddfod.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau o berfformiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol eraill a wnaed i hyrwyddo dibenion yr elusen a'u costau cymorth cysylltiedig.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli eitemau hynny nad ydynt yn dod i mewn i unrhyw bennawd arall.

dd. Dyrannu costau cefnogi

Costau cynnal yw'r costau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nid ydynt yn uniongyrchol yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol. Maent yn cynnwys costau swyddfa, cyllid, personél, cyflogau a llywodraethu sy'n cefnogi gwaith yr elusen. Mae'r costau hyn wedi cael eu dyrannu o dan gweithgareddau elusennol.

e. Prydlesi gweithredol

Prydlesi gweithredol yw offer lle mae'r teitl i'r offer yn parhau gyda'r prydleswr. Mae taliadau rhent yn cael eu cyflwyno i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

f. Asedau treftadaeth

Cofnodir asedau treftadaeth yn ôl y gost wreiddiol. Gan fod asedau treftadaeth yr elusen wedi eu cynnal dros gyfnod o gan mlynedd a mwy mae'r gost wreiddiol yn rhy fach i gofnodi yn y Fantolen.

ff. Asedau anniriaethol

Mae'r Eisteddfod yn cyfrifo am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol. Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost hanesyddol. Mae'r asedau yma'n cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol droes eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig o bum mlynedd.

g. Asedau parhaol

Polisi'r Eisteddfod yw cofnodi asedau sefydlog ar y gost wreiddiol hyd yma, llai'r dibrisiant a grynhowyd.

ng. Dibrisiant

Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Moduron, dodrefn ac offer swyddfa	-	20%
Adeiladau parhaol	-	2%
Adeiladau ac eiddo arall	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cyffredinol)	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cylch ur Orsedd symudol)	-	Dim

h. Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad. Mae hyn yn golygu cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fydd buddsoddiadau yn cael ei gwerthu nid oed enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Cydnabuwyd unrhyw enillion neu golled yn eu gwerth yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

i. Stoc

Mae stoc yn cael ei gynnwys ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth gwireddadwy net.

j. Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod ar y swm sy'n ddyledus ar ôl setlo unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Mae rhagdaliadau wedi eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw, net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

l. Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 RHAGFYR 2021

ll. Credydwyr

Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti ac mae'r swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei fesur neu amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, mae credydwyr ac unrhyw ddarpariaethau eraill yn cael eu cydnabod fel y swm setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau dyledus.

m. Tanysgrifiadau am Oes

Trosglwyddir tanysgrifiadau aelodau newydd y Llys, sy'n dymuno ymaelodi am oes, sef £100, i gyfrif Tanysgrifiadau am Oes yn y credydwyr. Rhyddheir un rhan o ddeg pob blwyddyn i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

n. Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod ar werth trafodiad ac wedyn mesur ar eu gwerth anheddiad.

o. Costau pensiwn

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn gyda Chyngor Sir Caerdydd, sy'n statudol cyfrannol lle mae'r budd wedi'i ddiffinio ac sy'n seiliedig ar gyflog terfynol. Gweinyddir gan Gyngor Sir Caerdydd. Cyfrannodd yr elusen 25.5% (2020: 25.5%) o gyflogau pensiynadwy i'r cynllun am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2021, sef £0.09m (2020: £0.12m).

Mae'r rhwymedigaeth a gydnabyddir yn y fantolen o ran y cynllun buddion diffiniedig yw'r gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y dyddiad adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Mae'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Yn flynyddol mae'r elusen yn defnyddio actiwariaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth. Mae'r gwerth presennol yn cael ei gyfrifo drwy ddisgowntio'r taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon uchel sy'n cael eu cadw mewn sterling a thelerau sy'n debyg i gyfnod amcangyfrifedig y taliadau yn y dyfodol ('cyfradd ddisgownt').

Mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei fesur gyda'r hierarchaeth gwerth teg FRS102 ac yn unol â pholisi'r elusen ar gyfer asedau a gedwir yn yr un modd. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o dechnegau prisio priodol.

Mae enillion a cholledion sy'n deillio o addasiadau profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd yn cael eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu fel 'ar ōl ailbrisio atebolrwydd net diffiniedig'.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel costau gweithwyr, ac eithrio pan maent wedi ei gynnwys yng nghost yr ased, yn cynnwys:

- y cynnydd yn rhwymedigaeth budd pensiwn yn deillio o wasanaeth gweithiwr yn ystod y cyfnod; a
- cost y cyflwyniadau cynllun, newidiadau budd-dal, cwtogiadau ac aneddiadau.

Mae cost llog net wedi ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i gyfanswm net y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a gwerth teg asedau'r cynllun. Mae'r gost hon yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel 'draul cyllid'.

p. Treth

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac felly, nid yw'n gorfod talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

2. Rhoddion

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2021 £ 000	2020 £ 000
Y Cronfeydd Lleol a Chyffredinol	21	27	-	48	181
Ymddiriedolaeth Edwin Griffiths, UDA	195	-	-	195	200
Rhoddion trwy ewyllys	33	-	-	33	45
Rhoddion gan sefydliadau eraill	10	22	-	32	47
Tanysgrifiadau aelodaeth	6	-	-	6	6
Rhoddion eraill	3	-	-	3	6
	268	49	-	**317**	**485**

Cronfeydd penodol:

Incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol:

	£	£
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022	42	94
Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023	7	95
Symudiad net	49	189

3. Grantiau

Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Cyfyngedig £ 000	2021 £ 000	2020 £ 000
Llywodraeth Cymru - Grant craidd	-	603	603	603
Llywodraeth Cymru - Eisteddfod AmGen 2021	-	210	210	-
Llywodraeth Cymru - Cynllunio Eisteddfod 2022+	-	200	200	-
Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru	150	-	150	150
Cynllun Cadw Swyddi y Llywodraeth	31	-	31	91
Cronfa Treftadaeth y Loteri - Cynllun Cymunedol	-	39	39	-
Y Sefydliad Cenedlaethol - Datblygu Cerddoriaeth	-	27	27	-
Cronfa Treftadaeth y Loteri - Proseict Cymunedol	-	10	10	-
Cymdeithas y Cymmrodorion - Pererindod	-	10	10	-
Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston - Opera newydd	-	10	10	-
Sefydliad Cymunedol Cymru	-	5	5	-
LGBT+ Futures Mas ar y Maes	-	5	5	-
Llywodraeth Cymru - Prosiect Clwstwr	-	4	3	-
Ymddiriedolaeth Nineveh - Gwyddoniaeth	-	3	3	-
Ty Cerdd - Prosiect Ysbrydoli	-	2	2	-
Llywodraeth Cymru -Cymorth oherwydd gohirio 2020	-	-	-	500
Cyngor Celfyddydau Cymru - Gweithgareddau AmGen	-	-	-	75
Cyfanswm y grantiau	**181**	**1,128**	**1,308**	**1,419**

4. Cymynroddion

Ni dderbyniwyd unrhyw gymynrodd yn ystod 2021 (2020: Dim).

5. Gweithgareddau elusennol:

Gŵyl yr Eisteddfod:	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	2021 £ 000	2020 £ 000
Incwm o'r Ŵyl	382	37	419	134
Incwm o'r Maes	31	3	34	101
Awdurdodau a chynghorau Lleol	357	-	357	352
Cynlluniau nawdd	20	-	20	20
Maes Carafanau	-	3	3	222
Cyfanswm	790	43	**833**	**829**

Cronfeydd penodol:

Incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol:	£	£
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022	43	351
Symudiad net	43	351

6. Gweithgareddau masnachu

	2021 £ 000	2020 £ 000
Cynllun loteri	**14**	**15**

7. Incwm o fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	2021 £ 000	2020 £ 000
Llog y buddsoddiadau	-	18	18	15

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

8. Gwariant

	Gwariant Uniongyrchol £ 000	Costau Cynnal £ 000	Gwariant Cyfyngedig £ 000	2021 £ 000	2020 £ 000
Gweithgareddau codi arian					
Cynllun loteri	-	12	-	12	11
Ffi broceriaid buddsoddiadau	-	6	-	6	4
Cyfanswm	-	18	-	18	15
Gweithgareddau elusennol					
Gŵyl yr Eisteddfod	490	296	892	1,678	1,527
Cyfanswm	490	314	892	**1,696**	**1,542**

Mae'r gwariant yn cynnwys tâl i'r archwiliwyr am wasanaethau archwilio cyfrifon 2021 o £8,500 (2020: £8,000) a £1,150 (2020 - £14,200) ar gyfer gwasanaethau arbenigol treth ar werth.

9. Costau staff

	2021 £ 000	2020 £ 000
Cyflogau gros	458	484
Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y cyflogwr	41	45
Cost pensiwn y cyflogwr	106	124
	605	653

Mae'r cyfanswm o £605,000 yn 2021 yn cynnwys cost o £109,355 ar gyfer diswyddo 5 aelod o staff yn Chwefror 2021. Dilynwyd y broses ddiswyddo gwirfoddol gyda phob un yn derbyn tâl yn ôl y nifer o flynyddoedd cyflawn o wasanaeth a 12 wythnos o gyflog yn lle rhybudd.

Yn ystod y flwyddyn cyflogwyd, ar gyfartaledd misol, 8 o swyddogion cyflogedig llawn amser (2020 - 14) yn y meysydd canlynol:

	2021	2020
Gweithgareddau'r elusen	6	12
Gweinyddiaeth a rheoli	2	2

Personél Rheoli Allweddol

Y personél rheoli allweddol yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ymddiriedolwyr ynghyd a'r Tim Rheoli sydd yn gweithredu trwy'r Bwrdd Rheoli.

Mae aelodau'r Tim Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, Trefnydd a'r Pennaeth Artistig, Pennaeth Cyfathrebu a'r Pennaeth Cyllid. Cyfanswm y tâl gros a buddion i weithwyr y personél rheoli allweddol oedd £240,838 - 4 aelod. (2020: £272,250 - 5 aelod).

Nifer o gyflogeion yr oedd eu taliadau, yn cynnwys gwerth trethadwy nwyddau mewn da ond heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o fewn yr ystodau canlynol:

	2021	2020
£70,000 - £79,000	1	-
£60,000 - £69,000	-	1

Mae pob cyflogeion sydd yn ennill dros £60,000 yn aelod o gynllun pensiwn lle mae'r budd wedi'i ddiffinio.

Ymddiriedolwyr - Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn (2020: Dim) Ni dderbyniodd unrhyw ymddiriedolwr dâl am wasanaethau proffesiynol a gyflenwyd i'r elusen (2020: £ dim).

Costau teithio i'r ymddiriedolwyr ac aelodau eraill yn ystod 2021 oedd: £ Dim (2020: £ Dim).

10. Eiddo parhaol

Asedau treftadaeth

Gan nad oes cost ar gyfer regalia'r Orsedd (sydd yn cynnwys y Cleddfyf Mawr a'r Corn Hirlas) nid ydym yn cynnwys yr eitemau hyn fel eiddo. Amcangyfrif gwerth ariannol y regalia ar gyfer pwrpas yswiriant yw £222,000 (Mehefin 2016).

Asedau anniriaethol

	Gwefan £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost		
1 Ionawr 202	46	46
Ychwanegiadau	56	56
31 Rhagfyr 2021	102	102
Amorteiddiad		
1 Ionawr 2020	44	44
Cost am y flwyddyn	14	14
31 Rhagfyr 2021	58	58
Gwerth net yr asedau		
31 Rhagfyr 2021	**44**	**44**
31 Rhagfyr 2020	2	2

Asedau parhaol

	Adeiladau Parhaol £ 000	Adeiladau Eraill £ 000	Peiriannau/ Offer Maes £ 000	Dodrefn Llwyfan £ 000	Dodrefn Swyddfa £ 000	Eiddo i'r Orsedd £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost							
1 Ionawr 2021	570	86	861	19	159	33	1,728
Ychwanegiadau	-	-	-	-	3	-	3
Gwarediadau	-	(30)	-	-	(33)	-	(63)
31 Rhagfyr 2021	570	56	861	19	129	33	1,668
Dibrisiad							
1 Ionawr 2021	271	47	818	19	135	6	1,296
Cost am y flwyddyn	11	15	6	-	12	1	45
Gwarediadau	-	(30)	-	-	(33)	-	(63)
31 Rhagfyr 2021	282	32	824	19	114	7	1,278
Gwerth net yr eiddo							
31 Rhagfyr 2021	**288**	**24**	**37**	**-**	**15**	**26**	**390**
31 Rhagfyr 2020	299	39	43	-	24	27	432

11. Buddsoddiadau

Dewiswyd y buddsoddiadau i gwrdd â gofynion yr Eisteddfod am logau sylweddol, diogelwch cyfalaf, a'r rhwyddineb i droi rhai ohonynt yn arian yn ôl gofynion y llif arian.

Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	Gwerth y Farchnad **2021** Cyfanswm £ 000	**2020** Cyfanswm £ 000	Y Gost 2021 £ 000	Llog 2021 £ 000
COIF Cyfrif Cadw *(Charities Official Investment Fund)*	242	230	472	372	472	-
Llog Sefydlog	-	276	276	193	273	4
Cyfranddaliadau	-	835	835	539	717	12
Nwyddau	-	24	24	-	23	-
Eiddo	-	51	51	26	44	-
Buddsoddiadau eraill	-	53	53	29	51	2
Arian ar gyfer dibenion buddsoddi	-	38	38	22	39	-
Cyfanswm Buddsoddiadau parhaol	242	1,507	**1,749**	1,181	1,619	18
Buddsoddiadau Tymor Byr	1,677	-	**1,677**	888	1,677	-
Cyfanswm Buddsoddiadau	1,919	1,507	3,426	2,069	3,296	18

Mae'r arian yng ngyfrif COIF Cadw yn arian hylifol iawn ar gyfer buddsoddi yn y tymor hwy.

Mae'r arian a gynhwysir fel Buddsoddiadau Tymor Byr yn cynrychioli'r arian a dderbyniwyd i'w ddefnyddio ar gyfer yr Eisteddfodau a gynhelir yn y dyfodol agos.

Symudiadau yn y Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cyfanswm £ 000
Gwerth y Farchnad - 31 Rhagfyr 2020	1,181
Gwerthu buddsoddiadau (Gwerth y farchnad)	(129)
Prynu buddsoddiadau newydd (Cost)	506
Trosglwyddiad arian i'r Cyfrif Cadw COIF	100
Trosglwyddiad arian o ddyledwyr ar gyfer dibenion buddsoddi	16
Enillion ar fuddsoddiadau	75
Gwerth y Farchnad - 31 Rhagfyr 2021	**1,749**

12. Dyledwyr

	2021	2020
	£ 000	£ 000
Dyledwyr - Masnachol	162	126
Dyledwyr - Grantiau	150	309
Dyledwyr - Eraill	2	404
Ad-daliad Treth Incwm a TAW	100	90
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	20	12
	434	941

13. Credydwyr: Dyledus mewn llai na blwyddyn

	2021	2020
	£ 000	£ 000
Credydwyr Masnachol	116	84
Credydwyr eraill	19	25
Croniadau	8	21
Tanysgrifiadau am Oes	9	11
	152	141

14. Dadansoddiad o'r Asedau net

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	2021	2020
	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
Eiddo anniriaethol	44	-	-	44	2
Eiddo Parhaol	390	-	-	390	432
Buddsoddiadau	242	-	1,507	1,749	1,180
Asedau cyfredol	1,974	235	-	2,209	1,898
Credydwyr cyfredol	(152)	-	-	(152)	(141)
Cynllun pensiwn	950	-	-	950	(60)
	3,448	235	1,507	5,190	3,311

15. Cytundebau prydles

Dadansoddiad o'r rhent sydd i'w dalu o dan gytundebau prydles am y ceir swyddogol:

	2021	2020
Y cytundeb yn dod i ben:	£ 000	£ 000
Mewn llai na blwyddyn	4	6
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	-
Rhwng dwy a phum mlynedd	-	-
	4	6

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

16. Symudiadau yn y Cronfeydd Cyfyngedig

	01/01/21 £	Derbyniwyd £	Gwariwyd £	Arall £	31/12/21 £
Llywodraeth Cymru	-	1,013	813	-	200
Cronfa Treftadaeth y Loteri	-	38	11	-	27
Y Sefydliad Cenedlaethol	-	27	27	-	-
Ymddiriedolaeth Colwinston	-	10	8	-	2
Y Cymmrodorion	-	10	10	-	-
Cronfa Treftadaeth y Loteri	-	10	10	-	-
Sefydliad Cymunedol Cymru	-	5	-	-	5
LGBT+Futures	-	5	5	-	-
Llywodraeth - Prosiect Clwstwr	-	4	4	-	-
Ymddiriedolaeth Nineveh	-	3	3	-	-
Ty cerdd	-	2	1	-	1
	-	1,127	892	-	235

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

17. Cynllun Pensiwn

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn Enillion Ailbrisiedig Gyrfa Cyfartalog (CARE). Gweinyddir y Gronfa gan Adran Bensiynau Cyngor Dinas Caerdydd. Mae'r asedau'r cynllun wedi'u cadw mewn cronfeydd ar wahân.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar werth actiwaraidd llawn y gronfa ar 31 Mawrth 2019 a ddiweddarwyd i 31 Rhagfyr 2021 gan actiwari annibynnol.

	2021	2020	2019
Cyfradd gostyngiad	2.0%	1.4%	2.0%
Chwyddiant Mynegai Pris Defnyddwyr (CPI)	2.7%	2.1%	2.2%
Cyfradd cynnydd mewn tâl pensiynau	2.7%	2.1%	2.2%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau wedi'u gohirio	2.7%	2.1%	2.2%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.7%	3.1%	3.2%

Ar sail y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer disgwyliadau einioes, disgwylir i bensiynwr sydd yn 65 ar 31 Ragfyr i fyw am:

		2021	2020
Gwrywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	22.3	22.2
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	23.3	23.2
Benywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	24.7	24.6
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	26.1	26.0

Cyfradd adennill a ddisgwyliad ar 31/12/2021:

	Canran asedau ar 2021 (%)	Gwerth 2021 (£m)	Canran asedau ar 2020 (%)	Gwerth 2020 (£m)
Buddsoddiadau ecwiti	67.3	5.07	63.8	4.22
Eiddo	6.7	0.51	7.1	0.47
Bondiau'r llywodraeth	9.5	0.72	11.3	0.75
Bondiau corfforaethol	14.5	1.09	16.5	1.09
Arian	2.0	0.15	1.3	0.09
Arall	0.00	0.00	0.00	0.00
Cyfanswm	100.00	7.54	100.00	6.19

Sefyllfa y gronfa ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru:

	2021 £m	2020 £m
Canran o'r asedau	7.54	6.55
Amcangyfrif o'r rhwymedigaethau	6.59	6.61
(Rhywedigaeth)/Ased a gydnabyddir ar y fantolen	0.95	(0.06)

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y cyfrif elw a cholled fel y canlynol:

	2021 £m	2020 £m
Cost gwasanaeth presennol	0.17	0.20
Cost gwasanaeth y gorffennol	0.00	0.00
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	0.00	0.00
Cyfanswm cost gweithredu	0.20	0.20

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2021

Newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig yn ystod y flwyddyn:

	2021	2020	2019
	£m	£m	£m
Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig	6.61	5.93	5.21
Cost gwasanaeth presennol	0.17	0.20	0.14
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	0.09	0.12	0.14
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	0.03	0.04	0.04
Cynnydd actiwaraidd ar rwymedigaethau	(0.10)	0.42	0.47
Buddion a dalwyd	(0.15)	(0.10)	(0.12)
Cost cwtogi	(0.06)	0.00	0.00
Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig	6.59	6.61	5.93

Newidiadau i werth farchnad asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn:

	2021	2020	2019
	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	6.55	6.19	5.43
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.09	0.12	0.15
Cynnydd actiwaraidd ar asedau	0.91	0.18	0.55
Cyfraniadau'r cyflogwr	0.11	0.12	0.14
Cyfraniadau'r cyflogedig	0.03	0.04	0.04
Buddion a dalwyd	(0.15)	(0.10)	(0.12)
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	7.54	6.55	6.19

Gwir enillion asedau'r cynllun:

	2021	2020	2019
	£m	£m	£m
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.09	0.12	0.15
Cynnydd actiwaraidd ar asedau	0.91	0.18	0.55
Gwir enillion ar asedau'r cynllun	1.00	0.30	0.70

Dadansoddiad hanesyddol gwerthoedd asedau, rhywmedigaethau'r cynllun, cyfanswm y diffyg a phrofiad enillion a cholledion:

	2021	2020	2019	2018	2017
	£m	£m	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun	7.54	6.55	6.19	5.43	5.83
Rhywmedigaethau'r cynllun	6.59	6.61	5.93	5.21	5.43
Gweddill/(Diffyg) yn y cynllun	0.95	(0.06)	0.26	0.22	0.40

Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol archwiliedig.

ATODIAD A

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

SWYDDOGION Y LLYS A'R CYNGOR 2021

Cymrodyr	R. Alun Evans Geraint R Jones John Gwilym Jones Garry Nicholas D Hugh Thomas
Llywydd	Ashok Ahir
Is-lywyddion	Myrddin ap Dafydd (Archdderwydd) Elin Jones (Cadeirydd Eisteddfod Ceredigion 2022) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023)
Cadeirydd y Cyngor	Gethin Thomas
Is-gadeirydd y Cyngor	Heulwen Jones
Trysorydd	Gwenno Williams
Cyfreithwyr Mygedol	Emyr Lewis, Philip George, Aled Walters
Ysgrifennydd	Llŷr Roberts
Is-Ysgrifennydd	Gwawr Taylor
Archdderwydd	Myrddin ap Dafydd
Cofiadur yr Orsedd	Christine James

Staff:

Prif Weithredwr	Betsan Moses
Trefnydd a Phennaeth Artistig	Elen Huws Elis
Pennaeth Cyfathrebu	Gwenllïan Carr
Pennaeth Cyllid	Peter Rhys Davies
Swyddog Cyllid	Oriel Hughes
Dirprwy Bennaeth Artistig	Sioned Edwards
Swyddog Cystadlaethau	Lois Jones
Swyddog Technegol	Tony Thomas
Swyddog Cymunedol	Katie Hall

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

England & Wales - Charity number 1155539

Accounts

ADRODDIAD BLYNYDDOL
A DATGANIADAU ARIANNOL
am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2020

EISTEDDFOD

Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif elusen: 1155539
www.eisteddfod.cymru

CYNNWYS

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr:

Amcanion a Gweithgareddau'r elusen	2
Cyflawniadau a pherfformiad	4
Adolygiad Ariannol	9
Gwybodaeth Gyfreithiol a Gweinyddol	12
Strwythur, Llywodraethu a Rheoli	13
Cynlluniau'r Dyfodol	16
Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol	17
Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol	19
Mantolen	20
Datganiad o'r Llif Arian	21
Nodiadau i'r datganiadau ariannol	22

ATODIADAU
Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol archwiliedig:

Atodiad A – Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Llys yr Eisteddfod 2020	33
Atodiad B – Swyddogion y Llys a'r Cyngor	37

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR

Adroddiad yr ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2020

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2020. Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r polisïau cyfrifyddu a nodir yn nodyn 1 i'r cyfrifon ac yn cydymffurfio â chyfansoddiad yr elusen, Deddf Elusennau 2011, Datganiad o Arferion a Argymhellwyd i Elusennau (SORP) sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Gyfunol a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102).

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Amcanion yr Eisteddfod, er budd y cyhoedd yng Nghymru a ledled y byd, yw:

- hyrwyddo addysg y cyhoedd yn nhreftadaeth a diwylliant Cymru, y gwyddorau a'r iaith Gymraeg; a hyrwyddo, cadw a diogelu treftadaeth a diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, drwy unrhyw ddull a modd yr ystyrir yr ymddiriedolwyr yn dda yn cynnwys trwy gynnal gŵyl genedlaethol yn flynyddol, sef Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

  Mae'r Ymddiriedolwyr yn gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn trwy ddilyn yr ymrwymiadau a ganlyn:

- Y Gymraeg yw iaith gweithgareddau'r Eisteddfod a'r Ŵyl. Tra'n parchu'r egwyddor hon, dylid sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r di-gymraeg, a gweithgareddau i'r rhai hynny sy'n dysgu'r Gymraeg.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl deithiol/symudol. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r cymunedau lleol, Cymdeithas awdurdodau lleol Cymru a chyrff eraill, dylid ymdrechu i sicrhau bod yr ymweliadau'n gymorth i hyrwyddo adnewyddiad y cymunedau, a bod y budd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol i'r ardaloedd hynny yn sylweddol a pharhaol.
- Bwriedir i'r Eisteddfod Genedlaethol ddathlu egni a chyfoesedd yr iaith Gymraeg, ardderchowgrwydd diwylliant Cymru, a thraddodiadau gwerthfawr a drosglwyddwyd o genhedlaeth i genhedlaeth.
- Bwriedir i'r Eisteddfod barhau i fod yn Ŵyl gystadleuol yn ei hanfod. Dylid adolygu nifer a natur y cystadlaethau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas a pherthnasol i'r cyfnod.
- Bwriedir i'r Eisteddfod hefyd fod yn llwyfan i'r goreuon yn amrywiol agweddau'r diwylliant Cymreig a'r celfyddydau yng Nghymru, boed amatur neu broffesiynol.
- Rhaid sicrhau strwythur rheoli a threfnu effeithiol sy'n cyd-fynd â'r gofynion cyfreithiol ac ymarferol sy'n bodoli er mwyn sicrhau gweithredu amserol a diwastraff gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau. Dylai'r rheolaeth fod yn agored a thryloyw ac yn parchu egwyddorion sylfaenol priodoldeb a llywodraeth gorfforaethol yn gyffredinol.
- Dylid cydweithio gyda chyrff lleol a chenedlaethol (cyrff cyhoeddus, cyrff gwirfoddol a chwmnïau preifat) a chymunedau Cymru er mwyn sicrhau llwyddiant yr Ŵyl.
- Ni ddefnyddir eiddo'r Eisteddfod at ddibenion nad ydynt yn elusennol.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU'R ELUSEN

Budd cyhoeddus

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd yn adran 17 o Ddeddf Elusennau 2011 i roi sylw priodol i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennol wrth benderfynu ar ein gweithgareddau.

Amcanion craidd yr Eisteddfod Genedlaethol yw hyrwyddo diwylliant Cymru a diogelu iaith, hanes a thraddodiadau Cymru mewn cymdeithas amrywiol fodern. Mae gŵyl flynyddol yn cael ei chynnal i ddathlu popeth Cymreig ac i ddatblygu diwylliant Cymru o fewn y brif ffrwd drwy:

- Annog pobl i ddefnyddio a dysgu'r iaith Gymraeg;
- Hyrwyddo diwylliant, bwyd, tirlun a threftadaeth Cymru sy'n adlewyrchu Cymru;
- Arddangos perfformwyr Cymreig i gynulleidfa ehangach;
- Darparu canolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r ŵyl yn hyrwyddo a'n hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg, trwy arddangos talent o Gymru. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy ymglymu artistiaid, cerddorion, perfformwyr, busnesau, addysg a darparwyr cymdeithasol. Mae'r holl bobl leol a'r holl fusnesau lleol yn cael eu hannog i fynd ati i gymryd rhan, gan greu cyfuniad â blas Cymreig arbennig i adlewyrchu diwylliant, traddodiadau a gwerthoedd pobl Cymru.

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyflawni ei hamcanion craidd trwy:

- Arddangos hunaniaeth ddiwylliannol unigryw a threftadaeth Cymru; annog pobl i ddathlu hanes a diwylliant Cymru;
- Feithrin a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg ymysg pob grŵp oedran;
- Ddarparu cyfleoedd cyffrous i ysgolion a chymunedau trwy gydol Cymru i gymryd rhan ynddynt;
- Ddarparu cyfleoedd i'n hartistiaid Cymreig blaenllaw i arddangos eu talentau;
- Ddod yn hygyrch i gynulleidfa fwy eang o wahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd, trwy ddod â'r Eisteddfod i mewn i'r oes fodern;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg ymysg busnesau yn y sector preifat;
- Gynyddu proffil Cymru ar lefel rhyngwladol;
- Gydlyniant cymunedol trwy weithredu a chymryd rhan yn wirfoddol yn lleol;
- Weithio gyda sefydliadau lleol i gryfhau Cymru a'i chymunedau;
- Godi proffil a phoblogrwydd canu corawl yng Nghymru;
- Arloesi gyda thechnoleg newydd e.e. y cyntaf yn y Byd i we-ddarlledu'n fyw yn y Gymraeg yn 2000, a'r rhaglen Gymraeg gyntaf ar gyfer yr iPhone yn 2010;
- Annog datblygiad addysgol;
- Gryfhau llwyfan Cymru;
- Gynyddu cystadleuaeth iach a gwaith tîm;
- Annog pobl i gyfrannu o gefndiroedd di-gymraeg;
- Adeiladu pontydd rhwng pobl o ethnigrwydd a chenhedloedd amrywiol.

Eisteddfod AmGen 2020

Fel gwyliau a digwyddiadau eraill ar draws y byd, bu'n rhaid gohirio Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn sgil pandemig Covid-19.

Roedd y trefnwyr yn benderfynol o gynnal gŵyl, er y byddai'n wahanol iawn i'r arfer. Ac ym mis Mai 2020, lansiwyd Eisteddfod AmGen.

Uchafbwynt y cyfan oedd 'wythnos yr Eisteddfod' ddechrau Awst, pan gynhaliwyd dros 450 o sesiynau, gan roi llwyfan i'n holl is-bafiliynau ar wefan yr Eisteddfod, YouTube a phlatfform AM.

Amcanion y prosiect oedd:

- Cefnogi artistiaid a pherfformwyr yn ystod y cyfnod cloi
- Rhoi blas o'r Eisteddfod i bawb
- Sicrhau bod cyfres o weithgareddau diwylliannol Cymraeg sy'n apelio at ein cynulleidfaoedd amrywiol cyfredol yn rhedeg dros yr haf
- Creu gweithgareddau a fyddai'n cefnogi llesiant ac annog cymdeithasu digidol ymysg ein cynulleidfa graidd
- Denu cynulleidfa newydd i'n gwaith drwy blatfformau digidol amrywiol

Y misoedd cyntaf

Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod anodd i bawb, ond yn arbennig felly i artistiaid a pherfformwyr. Collwyd pob cynnig o waith wrth i ganolfannau gau ac i bob gŵyl gael ei gohirio neu'i chanslo.

Un o brif amcanion AmGen oedd cefnogi artistiaid, gan gynnig cyfleoedd creadigol a llwyfan i bob math o berfformwyr.

Roedd y sesiynau yn ystod y cyfnod cloi yn cynnwys:

- Cân o'r Tŷ Gwerin: Caneuon gwreiddiol a threfniannau newydd o ganeuon traddodiadol
- Sesiwn y Gweisg: Sesiynau wythnosol yn trafod cyfrolau newydd
- Cerddi AmGen ein Prifeirdd: Cerddi newydd gan brifeirdd y gorffennol yn ymateb i'w gwaith buddugol
- Creu yn Cofid: Sesiynau'n trafod effaith Cofid ar wahanol feysydd celfyddydol
- Elan yn Holi: Sgyrsiau wythnosol gyda pherfformwyr Cymraeg amlwg

Cerddoriaeth

Mae cerddoriaeth o bob math yn rhan bwysig o'r Eisteddfod yn flynyddol, a chafwyd amrywiaeth o weithgareddau fel rhan o AmGen, gyda rhaglenni Tŷ Gwerin, Encore a Chaffi Maes B.

Yn y cyfnod cychwynnol, roedd cyfle i weld sesiynau Maes B o Bell a Tŷ Gwerin o Bell, wrth i rai o berfformwyr y sîn gyflwyno caneuon o'u cartrefi.

Yn ystod wythnos AmGen, wrth gwrs, cafwyd cyfle i fwynhau gig Tŷ Gwerin o Bell gyda Cowbois Rhos Botwnnog, Vrï a Tant. Perfformiodd Gwilym, Ani Glass a Gwilym hefyd mewn gig Maes B o Bell yn ystod yr wythnos, ac roedd modd gwylio'r ddwy gig ar BBC Cymru Fyw. Roedd rhaglen Caffi Maes B yn cynnwys nifer o sesiynau, ynghyd â lansiad Zine arbennig gan y band Adwaith, fel rhan o brosiect Merched yn Gwneud Miwsig.

Trefnwyd Gwobr Albwm Cymraeg y Flwyddyn mewn partneriaeth gyda BBC Radio Cymru eleni, gyda 11 o artistiaid yn cyrraedd y rhestr fer. Bu Gareth Potter yn sgwrsio gyda nifer ohonyn nhw mewn cyfres a ddarlledwyd yn ystod Mehefin a Gorffennaf.

Yr enillydd oedd Ani Glass am ei halbwm, Mirores, a chafodd berfformio gyda Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ynghyd â derbyn tlws arbennig gan Ann Catrin Evans.

Comisiynau newydd

Bu modd gwireddu nifer o gynlluniau artistig cyffrous, a chychwyn datblygu rhai eraill. Rhoddwyd llwyfan i nifer o gomisiynau ar waith fel rhan o raglen AmGen, gyda'r bwriad o'u datblygu ymhellach yn y dyfodol.

Roedd Y Ddwy Chwaer yn sioe gerdd gwta, yn olrhain hanes Gwendoline a Margaret Davies, y ddwy chwaer hynod o Gregynog a fu'n noddwyr mor bwysig i ddiwylliant Cymru ar ddechrau'r 20fed ganrif. Crëwyd y sioe gan Robat Arwyn a Hywel Gwynfryn.

Opera un-ddynes yw Lydia, Merch y Cwilt, gan Caryl Parry Jones, Non Parry a Geraint Cynan, gyda'r gantores, Rhian Lois yn ei pherfformio. Ysbrydolwyd y gwaith gan gasgliadau Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan.

Dau brosiect i'r teulu a fydd yn cael eu datblygu ymhellach yw Eliffant Tregaron, sioe wreiddiol newydd sbon gyda ac ar gyfer y teulu cyfan yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion gan Elgan Rhys ac Osian Meilir, a sioe ryngweithiol Trio ac Antur y Goron. Roedd hon yn sioe hollol wreiddiol mewn steil Whodunnit, ac yn bartneriaeth rhwng yr Eisteddfod Genedlaethol a gwasg Atebol. Hwn oedd y digwyddiad digidol cyntaf o'i fath yn y Gymraeg. Bu'n llwyddiant enfawr gyda phob perfformiad ar Zoom yn llawn.

Mae sesiynau O'r Archif wedi bod yn boblogaidd iawn yn y Tŷ Gwerin dros y blynyddoedd diwethaf, ac roedd yn braf cyflwyno tair sesiwn newydd gyda Gareth Bonello, Gwilym Bowen Rhys a Bethan a Sam o'r band, Calan, yn ystod yr wythnos.

Potensial rhyngwladol

Mae gan amryw o'r prosiectau a'r comisiynau newydd a ddatblygwyd yn ystod AmGen y potensial i lwyddo mewn gwledydd eraill, ac i apelio at gynulleidfaoedd ehangach. Eisoes, bu prosiect Dwylo Dros y Môr yn gyfle i ddatblygu partneriaeth yn Awstralia, ac mae Adwaith yn gweithio gyda gŵyl gerddorol leiafrifol ei hiaith, International Suns Europe, yn yr Eidal, ar hyn o bryd.

Mae potensial rhyngwladol enfawr i'r arddangosfa gelfyddydau gweledol, Epona, a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod cloi, gan roi llwyfan i 31 o artistiaid amlwg, 16 ohonynt yn enillwyr Medalau Aur yr Eisteddfod.

Yn ddi-os, llwyddiant mawr AmGen oedd Pedair, sef prosiect gwerin sy'n cyfuno doniau Gwenan Gibbard, Gwyneth Glyn, Meinir Gwilym a Siân James, sydd wedi denu bron i 100,000 o wylwyr hyd yn hyn.

Y cam nesaf yw cydweithio gydag artistiaid o wledydd Celtaidd eraill er mwyn creu cerddoriaeth sy'n plethu diwylliant a chelfyddyd mwy nag un gwlad.

Sgyrsiau a thrafodaethau

Gan ein bod yn trefnu'r rhaglen o wythnos i wythnos, roedd modd cynnal sgyrsiau cyfredol ar faterion cyfoes. Ymysg y materion a drafodwyd oedd hiliaeth yn yr UDA yn dilyn llofruddiaeth George Floyd, ymateb pobl ifanc i chwalu cerfluniau o ormeswyr, a chyfres o drafodaethau difyr a phwysig ar effaith y cyfnod cloi ar wahanol sectorau.

Braf oedd cyflwyno cyfres o sesiynau Mas ar y Maes, yn trafod profiadau nifer o bobl LGBTQ+ yng Nghymru heddiw, a chafodd y rhain ffigurau gwylio ardderchog ar facebook a YouTube.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Rhoddwyd cyfle i'r cyrff sy'n cynnal sesiynau rheolaidd ym mhabell y Cymdeithasau i gael slot yn ystod y prosiect, a braf oedd gallu cyflwyno rhaglen lawn ac amrywiol iawn o drafodaethau, sgyrsiau a darlithoedd yn ystod wythnos yr Eisteddfod ei hun.

Cafwyd ambell drafodaeth ar wleidyddiaeth yng Nghymru gan edrych yn ôl ar Etholiad Cyffredinol 2019, yn ogystal ag edrych ymlaen at Etholiadau'r Senedd y flwyddyn nesaf.

Diolch i'r holl gymdeithasau a sefydliadau a fu'n rhan o'r rhaglen.

Cefnogi llesiant ac annog cymdeithasu digidol

Yn ogystal â chreu cynnwys celfyddydol apelgar, roeddem hefyd yn ymwybodol o'n rôl bwysig fel corff sy'n cefnogi llesiant, addysg gydol oes ac yn annog ein cefnogwyr i gymdeithasu yn lleol ac yn genedlaethol.

Bu'n rhaid rhoi'r gorau i'n holl waith cymunedol pan ddaeth y cyfnod cloi. Ac roedd hyn yn gyfle i ni feddwl am ffyrdd dychmygus a newydd i barhau â'n gwaith, yn enwedig yr elfennau sy'n cefnogi llesiant.

O ddechrau AmGen, bu Côr yr Eisteddfod yn ymarfer dros Zoom bob yn ail wythnos, gyda Chôr y Gymanfa hefyd yn cyfarfod yn rhithiol ddwywaith y mis i gyd-ganu emynau.

Cafodd hyn groeso brwd, a braf oedd gallu rhyddhau un o'r caneuon gwreiddiol o sioe Lloergan, Ystrad Fflur, fel un o sesiynau wythnos Eisteddfod AmGen.

Bydd Lloergan yn cael ei llwyfannu yn Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.

Yn ôl nifer o'r aelodau, roedd yr ymarferion rhithiol yn uchafbwynt i'r wythnos. Aeth amryw ati i ddefnyddio platfform digidol am y tro cyntaf er mwyn cymryd rhan yn yr ymarferion.

Pont y glas

Roedd cyfle i'n cystadleuwyr torfol fod yn rhan o raglen AmGen, wrth i gorau a bandiau pres o bob cwr o Gymru berfformio gwaith comisiwn newydd gan Gareth Glyn ac Eleri Cwyfan ar gyfer rhaglen Encore, Pont y Glaw.

Daeth dros 400 o gyfraniadau i law, wrth i bobl recordio'r gân ar declynnau digidol mewn cartrefi a gerddi ar hyd a lled Cymru. Rhoddwyd popeth at ei gilydd er mwyn creu cyfanwaith hynod boblogaidd.

Arwyddo'r anthem

Dyma un o brosiectau pwysicaf Eisteddfod AmGen. Gan weithio gyda Disability Arts Wales, darlledwyd cyfres o weithdai rhithiol er mwyn i bobl ar draws Cymru allu dysgu arwyddo'r anthem.

Cafodd pobl eu hannog i anfon fideos o'u hunain yn arwyddo'r anthem atom, a chafodd y rhain eu defnyddio er mwyn creu perfformiad grymusol a hynod gofiadwy gyda Syr Bryn Terfel ar raglen Yr Eisteddfod Goll ar S4C. Roedd yr ymateb gan y gymuned a'r cyhoedd yn wych.

Cyrsiau wythnosol

Trefnwyd dau gwrs wythnosol yn ystod y cyfnod cloi, y naill yn gyflwyniad i gynganeddu, Haf o Gerdd Dafod, a drefnwyd gan Barddas, a'r llall yn gwrs dysgu gosod cerdd dant, yng ngofal Cymdeithas Cerdd Dant Cymru.

Yn ogystal â chynnig gwersi wythnosol byw ar Zoom, roedd modd gwylio'r cyrsiau'n ôl hefyd, ar wefan yr Eisteddfod, ein sianel YouTube a phlatfform AM.

Roedd y cyrsiau'n enghraifft arbennig o addysg gydol oes, gyda phobl o bob oed yn cymryd rhan yn y gwersi. Dyma'r tro cyntaf i nifer ddefnyddio technoleg Zoom, ac roedd y cyrsiau'n rhyngweithiol iawn gyda digon o gyfle i bawb gyfrannu a thrafod.

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Erbyn dechrau Medi, roedd fideos Gosod Cerdd Dant (cwrs 6 wythnos) wedi'u gwylio'n ôl 419 o weithiau, a'r cwrs Haf o Gerdd Dafod (deuddeg wythnos) wedi'u gwylio'n ôl 1,191 o weithiau.

Diolch i'r holl diwtoriaid am eu gwaith arbennig.

Cefnogi ein stondinwyr

Roedd nifer fawr o stondinwyr eisoes wedi archebu gofod ar y Maes yng Ngheredigion cyn y cyfnod cloi. Dyma rai o'r sylwadau a derbyniwyd:

- "...wedi cael lot o gyhoeddusrwydd positif. Mae popeth mor anodd ar bawb ac mae cyd-weithio mor bwysig."
- "Diolch i chi am drefnu! Wedi gwneud ambell i ddigwyddiad rhithiol dros yr wythnosa' diwethaf, doeddwn i ddim yn siŵr beth i'w ddisgwyl. Ond mi roedd yn grêt!!"
- "Nes i'n syndod o dda am fy nhro cyntaf i sylw dilynwyr yr Eisteddfod, ac mae wedi rhoi amcan go dda i mi o beth sydd yn mynd a beth i baratoi am y flwyddyn nesaf."
- "Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod anodd iawn i fusnesau, gyda nifer yn ddibynnol iawn ar wyliau fel yr Eisteddfod."
- "Rydw i wedi gweld eich eisiau i gyd ond rwyf wedi bod yr un mor brysur eleni eto."
- "...roedd y côd gostyngiad arbennig yn boblogaidd ac roedd spike amlwg yng ngwerthiant y nwyddau ar y dyddiau roeddan ni'n eu hyrwyddo."
- "Dwi wedi cael 'Steddfod wych ac mae'r archebion dal i ddod mewn!"
- "Llawer o ddiolch am y Farchnad Ddigidol ar Facebook - wedi cael lot o ddilynwyr newydd, ac o'dd yn hwb i'n gwerthiant hefyd."

Ystadegau

Oedran

- Merched o 35-44 oed yw'r garfan fwyaf o'n dilynwyr ni ar facebook.
- Dynion o 25-34 oed sydd fwyaf tebygol o ddilyn yr Eisteddfod ar Trydar
- Pobl 25-34 oed yw'r garfan fwyaf o'n tanysgrifwyr ni ar YouTube
- Gwelwyd cynnydd yn nifer ein tanysgrifwyr YouTube dros 65 oed yn ystod 'wythnos yr Eisteddfod'
- Merched o 18-24 oed yw'r garfan fwyaf o ddilynwyr Maes B ar facebook
- Dynion o 21-24 sydd fwyaf tebygol o ddilyn Maes B ar Trydar

Lle yn y Byd?

Roedd pobl ar draws y byd yn gwylio. Dyma flas o'r gwledydd: Yr Ariannin, UDA, Canada, Yr Almaen; Gwlad Belg; Seland Newydd; Iwerddon; Slofacia, Y Ffindir, Swistir.

Mae'n bwysig canolbwyntio ar yr 'ymgysylltu' a'r gwylwyr yn hytrach na'r 'argraffiadau'. Ond mae'n werth cynnwys y ddau yma er mwyn gweld pa mor eang oedd cyrhaeddiad y prosiect.

- Argraffiadau (Impressions) ar draws facebook a Trydar o 18 Mai – 10 Awst: 3,916,440
- Ymgysylltiad (Engagement) ar draws Facebook a Trydar o 18 Mai – 10 Awst: 172,954
- Gwylio (Views) ar facebook o 18 Mai –10 Awst: 584,000
- Gwylio (Views) ar facebook o 1-8 Awst yn unig: 252,324
- Argraffiadau ar YouTube o 18 Mai – 10 Awst: 360,300
- Gwylio (Views) ar YouTube o 18 Mai – 10 Awst: 44,800
- Gwylio (Views) ar YouTube o 1-8 Awst yn unig: 27,235

CYFLAWNIADAU A PHERFFORMIAD

Lle yn y Byd?

Roedd pobl ar draws y byd yn gwylio. Dyma flas o'r gwledydd: Yr ariannin, UDA, Canada, Yr Almaen; Gwlad Belg; Seland Newydd; Iwerddon; Slofacia, Y Ffindir, Swistir.

Sesiynau poblogaidd Facebook

1. Pedair: Cân y Clo
2. Pedair: Cân i Rhodri Dafydd
3. Pedair: Llon yr Wyf
4. Carys Eleri: Agoriad Swyddogol
5. Pedair: Cân Crwtyn y Gwartheg
6. Gareth yn Holi'r Archdderwydd
7. Carys Eleri: Seremoni Gloi
8. Cowbois Rhos Botwnnog: Gan fy Mod i
9. Stomp Werin
10. O'r Archif: Bethan a Sam o Calan

Sesiynau poblogaidd YouTube

1. Pont y Glaw
2. Pedair: Cân y Clo
3. Cymdeithas y Delyn Deires
4. Pedair: Cân Crwtyn y Gwartheg
5. Pedair: Llon yr Wyf
6. Mae'r Tŷ Mwy ar y Tu Mewn
7. Cerdd Dant: Y Genhedlaeth Nesaf
8. Pedair: Sgwrs a Chân
9. Meddwl.Org: Hel Meddyliau – Lleuwen Steffan
10. O'r Archif: Gwilym Bowen Rhys

ADOLYGIAD ARIANNOL

Derbyniwyd cyfanswm o £2.763m o incwm i mewn yn ystod i flwyddyn i gymharu gyda £6.419m yn 2019 a gwariwyd cyfanswm o £1.542m (£6.108m yn 2019). Mae hyn yn gadael gweddill (cyn y cynnydd yng ngwerth y cynllun pensiwn) ar ddiwedd y flwyddyn o £1.241m (2019: Gweddill o £385,000).

Ar 31 Rhagfyr 2020 roedd yr asedau net yn £3.311m (£2.390m yn 2019).

Polisi Cronfeydd wrth gefn

Mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw ddiffyg dros dro (e.e. colled mewn Eisteddfod benodol neu gynnydd anrhagweladwy yn y gwariant) fel y gall yr elusen parhau i weithredu ar unrhyw adeg.

Mae'r Eisteddfod yn cadw cronfeydd ariannol yma mewn nifer o gategorïau:

Cronfeydd Anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Oherwydd natur ansicr nifer o ffynonellau incwm a gwariant, fel y gronfa leol, grantiau, nawdd, gwerthiant tocynnau a chostau ychwanegol o ran tywydd drwg, mae'r ymddiriedolwyr wedi cytuno ar bolisi lle dylai'r cronfeydd anghyfyngedig fod yn werth 50% o leiaf o gyfanswm y gwariant (ar gyfartaledd blynyddoedd 2018 a 2019), sy'n cyfartalu i £2.6m mewn cronfeydd wrth gefn. Ar y lefel yma, teimlai'r ymddiriedolwyr y bydd yr elusen yn gallu parhau i weithredu mewn achos o ddiffyg sylweddol naill ai oherwydd amgylchiadau fel y pandemig Covid-19 presennol neu fod un o wyliau'r Eisteddfod yn gwneud colled ariannol. Nid yw'r cronfeydd rhydd o £987,000 (2019: £751,000) yn cyrraedd y nod ar hyn o bryd.

Cronfeydd Penodol - yn cynrychioli incwm a dderbynnir ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd cyfanswm o £445,000 ar gyfer Eisteddfod Ceredigion (sydd i'w chynnal yn 2022) a £95,000 tuag at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Roedd cyfanswm y gronfa ar 31 Rhagfyr 2020 yn £910,000 (2019 - £370,000).

Cronfeydd Gwaddol - cronfeydd sydd i'w cadw er budd yr elusen fel Cronfa Cyfalaf. Cyfanswm y gronfa yma ar 31 Rhagfyr 2020 oedd £1.414m (£1.379m ar ddiwedd 2019).

Cronfa Bensiwn – Ar 31 Rhagfyr 2020 roedd diffyg yn y gronfa bensiwn o £60,000 (2019 – gwarged o £260,000).

Arferion codi arian

Rydym yn ffodus ac yn hynod ddiolchgar am bob rhodd a chyfraniad ariannol, rhai a dderbynnir yn flynyddol ac eraill ar gyfer gwyliau penodol. Mae'r ymddiriedolwyr, gan gynnwys swyddogion y pwyllgorau cyllid ar draws Cymru, yn ymdrechu bob amser i sicrhau y safonau uchaf, llywodraethu da ac adolygiad parhaus mewn perthynas â'n gweithgareddau codi arian.

Cronfeydd Lleol a Chyffredinol - Mae'r mwyafrif o'r rhoddion a dderbyniwyd gan yr elusen yn cael eu derbyn trwy bwyllgorau apêl leol i godi arian i'r Eisteddfod sydd yn ymweld â'u hardal. Hwn yw gyfraniad dalgylch yr Eisteddfod i'r gost o gynnal yr ŵyl ac yn arferol mae'r pwyllgorau apêl yn codi arian am gyfnod o ddwy i dair blynedd hyd at gynnal yr Eisteddfod. Mae'r derbyniadau yma'n cynnwys rhoddion gan unigolion i ddigwyddiadau codi arian cyffredinol.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Mae pob pwyllgor apêl newydd yn derbyn cyfarwyddiadau gweithredu gan yr elusen. Mae cynrychiolwyr o bob pwyllgor apêl yn cyfarfod yn rheolaidd i adrodd yn nôl i'r Pwyllgor Cyllid Canolog.

Mae swyddogion y pwyllgor cyllid hefyd yn sicrhau:

- Dim ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd unigolyn;
- Dim ymagweddau parhaus at ddiben cyfreithloni neu gaffael arian neu eiddo arall ar ran yr elusen;
- Bod neb yn rhoi pwysau gormodol ar rywun i roi arian neu eiddo arall.

Yn ystod 2020, derbyniwyd £181,000 (2019: £507,000) ar gyfer y cronfeydd lleol a chyffredinol. Mae'r swm a godwyd yn flynyddol yn gallu amrywio gan ei fod yn dibynnu ar ba mor gyflym y mae pwyllgorau'r apêl yn codi arian.

Mae'r ffigwr yma yn cynrychioli derbyn arian o £94,000 ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022 a £95,000 ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023. Yn amlwg, oherwydd cyfyngiadau Covid-19 ar gasglu arian mae'r swm a gasglwyd yn ystod 2020 yn sylweddol llai.

Mae'r cyfrifon hefyd yn cynnwys incwm o £351,000 a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn am docynnau a nawdd, safleoedd carafán a blaendaliadau stondin gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion.

Cyfrifwyd am yr incwm yma trwy'r Cronfeydd Penodol i'w rhyddhau pan fydd yr Eisteddfod hon yn cael ei chynnal, gobeithio yn 2022, yn Nhregaron.

Rhoddion trwy ewyllys – Derbyniwyd dwy rhodd eleni, gwerth £45,000, lle mae cefnogwyr yr Eisteddfod wedi dewis rhoi rhodd yn eu ewyllys (2019: dwy rhodd – gwerth £374,000).

Ymgyrchoedd eraill - Ymgymerir â phob marchnata uniongyrchol arall gan staff yr Eisteddfod i sicrhau nad yw'n afresymol ymwthiol na pharhaus. Gwneir cyswllt trwy farchnata uniongyrchol *mailchimp* ar gyfartaledd tua unwaith y mis. Mae'r holl ddeunydd marchnata yn cynnwys cyfarwyddiadau clir ar sut y gellir tynnu person oddi ar restrau postio.

Nid yw'r Eisteddfod yn defnyddio unrhyw gorff proffesiynol i godi arian. Ni fu unrhyw gwynion yn ystod y flwyddyn am weithgaredd codi arian yr elusen.

Polisi Buddsoddi

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu buddsoddi arian mewn portffolio risg canolig – cyfuniad o stoc y llywodraeth, cyfranddaliadau rhestredig ac unedau buddsoddi er mwyn cwrdd â gofynion am gynhyrchu incwm a thyfiant cyfalaf. Yr ymgynghorwyr buddsoddi annibynnol Brewin Dolphin sydd yn buddsoddi cronfeydd yr Eisteddfod ar ei rhan. Caiff y cronfeydd hyn eu hadolygu'n gyson.

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu na ddylid buddsoddi mewn cwmnïau sydd yn gysylltiedig â chynhyrchu neu ddosbarthu arfau a thybaco. Roedd gwerth y buddsoddiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn £1,181,000 o gymharu â £566,000 ar 31 Rhagfyr 2019.

Gwirfoddolwyr

Mae'r elusen yn ddiolchgar iawn am gyfraniad eu gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddi-dâl, o godi arian i stiwardio ar faes yr Eisteddfod . Nid ydym yn gallu rhoi gwerth ariannol ar yr holl waith yma ac felly, nid yw'n cael ei gynnwys yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Trafodion partïon cysylltiol

Nid oes unrhyw drafodion partïon cysylltiol yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2020 gan yr ymddiriedolwyr neu unrhyw aelod o'r Bwrdd Rheoli.

Rheoli risg

Mae'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'w meysydd busnes, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol briodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus ac yn cofnodi risgiau materol yn y gofrestr risg.

Mae'r Panel Archwilio a'r Bwrdd Rheoli yn arolygu'r gofrestr risg o leiaf ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod y camau priodol yn bodoli i leihau'r risgiau hynny. Mae'r risgiau yn cynnwys parhad yr Eisteddfod, materion ariannol, Iechyd a Diogelwch, staffio a'r amgylchedd.

Rhagdybiaeth Busnes Byw

O ganlyniad i Covid-19, nid oedd unrhyw ddewis gan yr ymddiriedolwyr ond i ohirio Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion yn 2020 ac eto yn 2021. Disgwylir y bydd cyfran sylweddol o'r gostyngiad mewn incwm yn cael ei wrthbwyso gan gyfuniad o wariant is yn ogystal ag arian grant o ffynonellau eraill – megis Llywodraeth Cymru yn bennaf a Chynllun Cadw Swyddi Coronafirws.

O ganlyniad, mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod yr Elusen mewn sefyllfa dda i reoli ei risgiau busnes trwy'r cyfnod hwn o ansicrwydd economaidd a bod disgwyliad rhesymol gan yr Eisteddfod bod yr adnoddau yn ddigonol i barhau i weithredu'n hyd y gellir rhagweld. Am y rhesymau hyn maent yn parhau i fabwysiadu sail busnes sy'n fyw wrth baratoi'r cyfrifon.

GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Enw'r elusen:	Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Cyfansoddiad:	Sefydliad Corfforedig Elusennol
Rhif yr elusen:	1155539
Swyddfa gofrestredig:	40 Parc Tŷ Glas Llanisien Caerdydd CF14 5DU
Bwrdd Rheoli ac Ymddiriedolwyr:	Ashok Ahir (Llywydd y Llys) Gethin Thomas (Cadeirydd y Cyngor) Heulwen Jones (Is-gadeirydd y Cyngor) Gwenno Williams (Trysorydd) Christine James (Gorsedd y Beirdd) Elin Jones (Cadeirydd Eisteddfod 2022) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023) Heledd Bebb Elin Haf Gruffydd Jones Gwerfyl Pierce Jones Trystan Lewis Deian Rhys Aled Walters Rhian Huws Williams
Ysgrifennydd	Llyr Roberts
Is-ysgrifennydd	Gwawr Taylor
Prif Weithredwr:	Betsan Moses
Archwilwyr:	Ashmole & Co. 3 Stryd y Farchnad Llandeilo SA19 6AH
Bancwyr:	HSBC 56 Heol y Frenhines Caerdydd CF10 9NA
Brocer Buddsoddiadau:	Brewin Dolphin 5 Sgwâr Callaghan Caerdydd CF10 5BT
Cyfreithwyr Mygedol:	Emyr Lewis Philip George Aled Walters

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Cyfansoddiad

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru wedi cofrestru fel Sefydliad Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau ar 29 Ionawr 2014. Trosglwyddwyd asedau a rhwymedigaethau *Eisteddfod Frenhinol Genedlaethol Cymru* (rhif elusen 219171) i'r Sefydliad Elusennol Corfforedig ar 1af Ionawr 2015. Mae'r elusen newydd yma'n weithredol o'r dyddiad hwn.

Y Llys

Mae'r Llys yn cynnwys holl aelodau'r Elusen, gyda holl hawliau arferol i'w gweithredu trwy Gyfarfodydd Cyffredinol. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys (heb gyfyngiad) yr hawl i benodi ac i ddiswyddo Swyddogion, Ymddiriedolwyr, ac aelodau'r Cyngor, yn unol â'r Cyfansoddiad, Rheolau Sefydlog yr elusen ac yn unol â Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llys, mewn cyfarfodydd cyffredinol, yn ystyried ac yna'n derbyn neu wrthod adroddiadau'r Ymddiriedolwyr, y Cyngor a Bwrdd yr Orsedd, ac mae'r hawl gan y Llys i sicrhau fod yr amcanion a'r ymrwymiadau'n cael eu gweithredu'n briodol ac yn unol â dymuniad y Llys ac yn unol â'r Ddeddf. Mae'r Prif Weithredwr llawn amser yn rheoli gweithgareddau'r elusen gyda chymorth aelodau staff. Mae aelodaeth o'r Llys yn agored i bawb.

Y Cyngor

Swyddogaeth y Cyngor ydi gweithredu fel bwrdd goruchwylio a chorff ymgynghorol sydd yn cymryd golwg strategol ar waith a datblygiad yr Eisteddfod. Mae'r Cyngor yn cynnwys 36 aelod ynghyd a'r Cymrodyr a Chyn-Lywyddion– caiff 24 o aelodau eu hethol gan y Llys, 6 gan yr Ymddiriedolwyr, a hawl gan y Cyngor i gyfethol hyd at 6 aelod. Rhaid i aelodau o'r Cyngor a'r Bwrdd Rheoli fod yn aelodau o Lys yr Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r Cyngor yn cynnal o leiaf dri chyfarfod bob blwyddyn.

Mae gan y Cyngor ddau bwyllgor, sef

1. Pwyllgor Archwilio;
2. Pwyllgor Gweithredu'r Rheol Gymraeg – i arolygu ac adrodd ar weithredu'r Rheol Gymraeg ym mhob Gŵyl.

Bwrdd Rheoli/Ymddiriedolwyr

Y Bwrdd Rheoli sydd yn gyfrifol am arolygu holl waith a busnes yr elusen, gyda'r aelodau'n gweithredu fel ymddiriedolwyr. Disgwylir i Brif Weithredwr a phrif staff yr elusen fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli, ond heb hawl pleidleisio gan nad ydynt yn ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod o leiaf wyth gwaith yn ystod y flwyddyn.

Er mwyn cyflawni gwaith yr elusen sefydlwyd y Pwyllgorau a ganlyn:

Pwyllgor Llywio/Pwyllgor Gwaith ar gyfer pob Gŵyl.

Pwyllgor Diwylliannol – i gydlynu gwaith panelau sefydlog i gynnig cyngor arbenigol ar feysydd cystadleuol penodol ac i gymryd cyfrifoldeb am y rhestr gystadlaethau.

Pwyllgor Technegol – i gynnig cyngor arbenigol am y maes, adeiladau, trafnidiaeth, a'r holl agweddau ar iechyd a diogelwch mewn perthynas â'r Ŵyl.

Pwyllgor Marchnata – i gynnig cyngor arbenigol ar weithgareddau hyrwyddo a marchnata'r Eisteddfod a'r Ŵyl.

Pwyllgor Adnoddau Dynol – i gynnig cyngor arbenigol ar faterion yn ymwneud â staffio a chyflogau.

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Pwyllgor Cynhwysedd ac Amrywiaeth – i edrych ar holl weithdrefnau a gweithgareddau'r Eisteddfod i sicrhau eu bod yn agored a chynhwysol.

Pwyllgor Artistig - i gynnig cyngor arbenigol ar raglenni hwyr; a phrosiectau artistig mawr.

Panel Enwebu – i argymell enwau Ymddiriedolwyr, aelodau'r Cyngor ac aelodau Pwyllgorau a phanelau sefydlog er mwyn cyflawni gofynion y Rheolau Sefydlog.

Panel Cwynion, Disgyblu a Diswyddo – i gwrdd yn ôl yr angen i ystyried unrhyw gŵyn ysgrifenedig a dderbynnir am Swyddogion yr elusen a chwynion am Ymddiriedolwyr yr elusen a'r staff.

Penodi Ymddiriedolwyr

Mae cymalau 12 ac 13 o'r Cyfansoddiad a'r Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer penodi/ethol ymddiriedolwyr fel a ganlyn:

1. Penodir tri ymddiriedolwr yn rhinwedd eu swyddi, sef:
   Llywydd y Llys; Cadeirydd y Cyngor; Is-gadeirydd y Cyngor.
2. Dim llai na phedwar na mwy nag wyth ymddiriedolwr enwebedig wedi eu henwebu fel a ganlyn:
   (i) Bwrdd yr Orsedd (1);
   (ii) Pwyllgorau Gwaith y tair eisteddfod gyfredol (3);
   (iii) Cyngor (4).
3. Dim llai na phedwar na mwy na chwe ymddiriedolwr etholedig i'w hethol gan y Llys gyda'r hawl i'r ymddiriedolwyr benodi i lenwi bylchau hyd y cyfarfod nesaf o'r Llys;
4. Dim mwy na dau ymddiriedolwr wedi eu cyfethol gan yr ymddiriedolwyr eraill.

Bwriedir sicrhau y bydd ystod eang o sgiliau a phrofiad o fewn y Bwrdd Ymddiriedolwyr gan gynnwys sgiliau a phrofiad diwylliannol, marchnata, technegol, busnes, ariannol, cyfreithiol a rheolaeth, ynghyd â phrofiad blaenorol o waith Eisteddfod Genedlaethol Cymru. Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr allu cyfathrebu'n rhugl drwy'r Iaith Gymraeg;

Bwriedir hefyd geisio sicrhau cydbwysedd rhesymol ar draws yr holl Ymddiriedolwyr o safbwynt rhyw, oedran a chysylltiadau lleol;

Hyfforddiant ac anwytho Ymddiriedolwyr

Mae gan yr holl Ymddiriedolwyr presennol gysylltiad hir gyda'r Eisteddfod Genedlaethol. Maent yn cael cynnig derbyn gwybodaeth am eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau. Pe bai ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi fe fyddai hynny'n golygu y byddant yn cael hyfforddiant ar weithdrefnau a pholisïau'r Eisteddfod. Byddai asesiad yn cael ei wneud o'r anghenion hyfforddi, gyda darpariaeth ar gyfer hyfforddiant pellach yn ystod y flwyddyn.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg o sefyllfa'r elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau'r elusen am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu cymhwyso'n gyson;
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn SORP yr Elusennau;
- llunio dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, sy'n cynnwys FRS 102, yn amodol ar unrhyw ymadawiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a eglurir yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr elusen yn parhau mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr elusen gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra eraill.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw cyfanrwydd yr elusen a'r wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Cyn belled ag y mae'r Ymddiriedolwyr yn ymwybodol:

- nid oes gwybodaeth archwiliad perthnasol nad yw'n wybyddus i archwilwyr y cwmni elusennol;
- mae'r Ymddiriedolwyr wedi cymryd pob cam angenrheidiol i'w gwneud yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliad perthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am reoli materion yr elusen o ddydd i ddydd ac am weithredu polisïau y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd Rheoli. Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gynorthwyo gan grŵp o uwch reolwyr sy'n ffurfio'r Tîm Rheoli.

Mae'r Tîm yma yn cynnwys:
Betsan Moses (Prif Weithredwr)
Elen Elis (Trefnydd a Phennaeth Artistig)
Gwenllïan Carr (Pennaeth Cyfathrebu)
Peter Davies (Pennaeth Cyllid)

Polisi cyflogi

Mae'r Eisteddfod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd cymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu llawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall, ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngdod.

Cydnabyddiaeth

Mae pob ymddiriedolwr yn rhoi o'u hamser am ddim. Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn.

CYNLLUNIAU'R DYFODOL

Yn fuan yn Ionawr 2021, daeth hi'n gynyddol amlwg fod lefelau Covid-19 ar draws Cymru'n parhau'n uchel ac na fyddai modd cynnal Eisteddfod lawn ar y Maes.

Unwaith eto, penderfynwyd cynnal Eisteddfod AmGen, gan ddatgan y byddai prosiect 2021 yn adeiladu ar lwyddiant 2020 ac yn gyfle i roi blas o'r Eisteddfod i bawb.

Gyda'r sector digwyddiadau wedi parhau dan glo drwy gydol y flwyddyn, roedd 2021 yn gyfle i gefnogi'r rheini sy'n gweithio y tu ôl i'r camera ac yn y diwydiant hefyd trwy:

- Creu wythnos o weithgareddau a digwyddiadau a oedd yn cwmpasu holl elfennau Eisteddfod arferol;
- Creu rhaglen uchelgeisiol gyda gwerthoedd cynhyrchu a chreadigol o safon, fyddai'n apelio at gynulleidfaoedd eang;
- Creu cyfleoedd perfformio i gwmpas eang o berfformwyr, gan gyfuno artistiaid newydd gyda pherfformwyr mwy profiadol;
- Creu cyfres o gystadlaethau cyfansoddi, llwyfan a chelfyddydau gweledol, gan greu cyfleoedd perfformio unigol, yn ogystal â chyfleoedd i gyfansoddi gwaith creadigol;
- Datblygu defnydd o'n platfformau digidol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cynulleidfa ar ein sianel YouTube ac ar-lein;
- Datblygu'r berthynas rhwng yr Eisteddfod, BBC Radio Cymru a S4C, fel bod gwylwyr a gwrandawyr yn gallu symud o blatfform i blatfform yn rhwydd drwy gydol yr wythnos;
- Sicrhau bod pob prosiect yn adlewyrchu prif amcanion yr Eisteddfod, sef hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru, gan greu cyfleoedd i bobl o bob oed a chefndir i ddefnyddio'u Cymraeg yn hyderus.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi ein helpu a'n cefnogi dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf, gan obeithio y gwelwn ni chi i gyd ar y Maes yn Nhregaron yn Awst 2022 ac yna ym mhentref Boduan y flwyddyn ganlynol ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd.

Ar ran yr ymddiriedolwyr



Gethin Thomas
Ymddiriedolwr
Cadeirydd y Cyngor

16 Rhagfyr 2021

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Barn

Yn ein barn ni, mae datganiadau ariannol Eisteddfod Genedlaethol Cymru (y "datganiadau ariannol"):

- Yn rhoi golwg wir a theg o gyflwr materion yr elusen ar 31 Rhagfyr 2020 a'i hadnoddau sy'n dod i mewn a chymhwyso adnoddau, a llif arian, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol ag Arfer Cyfrifo a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys FRS 102 "The Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland", a'r gyfraith berthnasol); a
- wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011 a Rheoliad 8 o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008).

Rydym wedi archwilio'r datganiadau ariannol, sydd wedi'u cynnwys yn y Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol (yr "Adroddian Blynyddol"), sy'n cynnwys: y Mantolen ar 31 Rhagfyr 2020; y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol, Datganiad o'r Llif Arian am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r Nodiadau I'r Datganiadau Ariannol sy'n cynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau o dan ISAs (DU) ymhellach yn adran Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol o'n hadroddiad. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sylfaen i'n barn ni.

Annibyniaeth

Fe wnaethom aros yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, sy'n cynnwys Safon Foesegol yr FRC ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni adrodd i chi pan:

- Nid yw defnydd yr ymddiriedolwyr o sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- Nid yw'r ymddiriedolwyr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r elusen i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrif am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir y datganiadau ariannol.

Fodd bynnag, oherwydd na ellir rhagweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, nid yw'r datganiad hwn yn warant o allu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol.

Adrodd ar wybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilwyr arnynt. Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac unrhyw fath o sicrwydd arnynt.

Mewn cysylltiad â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu fel arall yn ymddangos yn sylweddol berthnasol. cam-ddatgan. Os ydym yn nodi anghysondeb perthnasol ymddangosiadol neu gamddatganiad perthnasol, mae'n ofynnol i ni gyflawni gweithdrefnau i ddod i'r casgliad a oes camddatganiad perthnasol o'r datganiadau ariannol neu gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall. Os ydym, yn seiliedig ar y gwaith yr ydym wedi'i gyflawni, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn seiliedig ar y cyfrifoldebau hyn.

Yn seiliedig ar y cyfrifoldebau a ddisgrifir uchod a'n gwaith a wnaed yn ystod yr archwiliad, mae ISAs (DU) yn ei gwneud yn ofynnol i ni hefyd adrodd ar rai barnau a materion fel y disgrifir isod.

ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I YMDDIRIEDOLWYR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU (PARHAD)

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os yw'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr yn anghyson yn unrhyw farn berthnasol â'r datganiadau ariannol, yn ein barn ni. Nid oes gennym unrhyw eithriadau i adroddiad sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Datganiad o gyfrifoldebau ymddiriedolwyr, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r fframwaith cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg wir a theg. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am unrhyw reolaeth fewnol y maen nhw'n penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu'n dod â gweithrediadau i ben, neu heb unrhyw ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilwyr am archwilio'r datganiadau ariannol

Rydym yn gymwys i weithredu ac wedi cael ein penodi'n archwilwyr o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac adrodd yn unol â'r Ddeddf a rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n effeithiol o dan hynny.

Ein hamcanion yw sicrhau sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu yn gyfan gwbl, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilwyr.

Defnyddio'r adroddiad hwn

Paratowyd yr adroddiad hwn, gan gynnwys y farn, ar gyfer a dim ond ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen fel corff yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno (Rhan 4 o'r Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) Rheoliadau 2008) ac nid at unrhyw bwrpas arall. Nid ydym, wrth roi'r safbwyntiau hyn, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb am unrhyw bwrpas arall nac i unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu y gall ddod i'w ddwylo heblaw pan gytunwyd yn benodol gan ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Adroddiadau gofynnol eraill

Adroddiadau eithriadau Deddf Elusennau 2011

O dan Ddeddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os, yn ein barn ni:

- Nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad; neu
- Nid yw'r elusen wedi cadw digon o gofnodion cyfrifyddu; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu a'r ffurflenni.

Nid oes gennym unrhyw eithriadau i adroddiad sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Ashmole & Co

Ashmole & Co.
Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig & Archwilwyr Cofrestredig
3 Stryd y Farchnad
Llandeilo
SA19 6AH

Dyddiad: 16 RHAGFYR 2021

DATGANIAD O'R GWEITHGAREDDAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

		2020				2019			
		Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Penodol	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Penodol	Cronfeydd Gwaddol	**Cyfanswm**
	Nodyn	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
INCWM									
Rhoddion a chymynroddion:									
Rhoddion	2	296	189	-	485	1,034	106	-	1,140
Grantiau	3	1,419	-	-	1,419	1,151	-	-	1,151
Cymynroddion	4	-	-	-	-	-	-	218	218
		1,715	189	-	1,904	2,185	106	218	2,509
Gweithgareddau elusennol:									
Gŵyl yr Eisteddfod	5	478	351	-	829	3,875	(3)	-	3,873
Gweithgareddau masnachu	6	15	-	-	15	16	-	-	16
Incwm o fuddsoddiadau	7	-	-	15	15	-	-	21	21
Cyfanswm incwm		**2,208**	**540**	**15**	**2,763**	**6,076**	**103**	**239**	**6,419**
GWARIANT									
Gweithgraeddau codi arian	8	15	-	-	15	12	-	-	12
Gweithgareddau elusennol:									
Gŵyl yr Eisteddfod	8	1,527	-	-	1,527	6,054	-	42	6,096
Cyfanswm gwariant		**1,542**	-	-	**1,542**	**6,066**	-	**42**	**6,108**
Enillion ar fuddsoddiadau		-	-	20	20	41	-	33	74
Incwm/Gwariant Net		**666**	**540**	**35**	**1,241**	**51**	**103**	**230**	**385**
Enillion cydnabyddedig eraill									
(Lleihad)/Cynnydd actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	16	(320)	-	-	(320)	40	-	-	40
Symudiad net yn y cronfeydd		**346**	**540**	**35**	**921**	**91**	**103**	**230**	**425**
Cysoni'r Cronfeydd									
Balansau ddygwyd ymlaen 1 Ionawr		641	370	1,379	2,390	550	267	1,148	1,965
Balansau gariwyd ymlaen 31 Rhagfyr		**987**	**910**	**1,414**	**3,311**	**641**	**370**	**1,379**	**2,390**

MANTOLEN AR 31 RHAGFYR 2020

	Nodyn	2020 £ 000	2019 £ 000
Asedau sefydlog			
Asedau anniriaethol	10	2	12
Eiddo parhaol	10	432	480
Buddsoddiadau	11	1,181	566
		1,615	1,058
Asedau cyfredol			
Dyledwyr	12	941	1,289
Buddsoddiadau tymor byr	11	888	232
Banc		69	23
		1,898	1,544
Credydwyr: Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn	13	(141)	(472)
Asedau cyfredol net		1,756	1,072
Cyfanswm yr asedau llai dyledion cyfredol		3,371	2,130
Cynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio	16	(60)	260
Asedau net		**3,311**	**2,390**
Cronfeydd Cadw			
Cronfeydd Gwaddol		1,414	1,379
Cronfeydd Cyffredinol		1,957	751
Cronfa Bensiwn	16	(60)	260
Cyfanswm Cronfeydd		**3,311**	**2,390**

Cymeradwywyd y cyfrifon yma gan Fwrdd yr ymddiriedolwyr ar 16 RHAGFYR 2021.

Ashok Ahir
Llywydd

Gwenno Williams
Trysorydd

DATGANIAD O'R LLIF ARIAN
AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

	2020 £ 000	2019 £ 000
Llif arian o Weithgareddau Gweithredol	1,279	(397)
Llif arian o Weithgareddau buddsoddi		
Enillion ar fuddsoddiadau	15	21
Taliadau am eiddo parhaol	-	(67)
Derbyniadau trwy werthu buddsoddiadau	100	401
Taliadau am fuddsoddiadau newydd	(300)	(196)
Mewnlif/(allanlif) net ariannol o weithgareddau buddsoddi	1,095	(238)
Arian a chyfwerthoedd arian ar 1 Ionawr	**256**	**494**
Arian a chyfwerthoedd arian ar 31 Rhagfyr	**1,351**	**256**

Cysoniad y llif arian a'r symudiad mewn gweithgareddau gweithredol

	2020 £ 000	2019 £ 000
Incwm net	1,241	385
Dibrisiad asedau diriaethol	47	45
Amorteiddiad asedau anniriaethol	9	9
(Enillion) ar fuddsoddiadau	(20)	(74)
Llog a dderbynnir	(15)	(21)
Lleihad / (Cynnydd) mewn dyledwyr cyfredol	348	(819)
(Lleihad) / Cynnydd mewn credydwyr cyfredol	(331)	78
Mewnlif net ariannol o weithgareddau gweithredol	1,279	(397)

Dadansoddiad o arian a chyfwerthoedd arian

	2020 £ 000	2019 £ 000
Buddsoddiadau eiddo parhaol - COIF ac arian buddsoddi	394	1
Buddsoddiadau tymor byr - Cyfrif banc	888	232
Banc	69	23
Cyfanswm arian a chyfwerthoedd arian	**1,351**	**256**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN GORFFEN 31 RHAGFYR 2020

1. Polisïau Cyfrifo

a. Sail paratoi

Paratowyd y cyfrifon (datganiadau ariannol) yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifo ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011 ac Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig fel y mae'n berthnasol o 1 Ionawr 2015.

Mae'r cyfrifon (datganiadau ariannol) wedi'u paratoi sy'n rhoi darlun 'cywir a theg' ac maent wedi ymadael o Reoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 dim ond i'r graddau y mae eu hangen i ddarparu 'darlun cywir a theg'. Mae'r ymadawiad hwn wedi cynnwys dilyn Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 yn hytrach na'r Cyfrifon ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Argymhellir Ymarferwch yn effeithiol o 1 Ebrill 2005 sydd wedi'i dynnu'n ôl ers hynny.

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Mae'r Asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cydnabod ar gost hanesyddol neu eu gwerth trafodiad oni nodir yn wahanol yn y nodyn polisi cyfrifyddu(au) perthnasol.

b. Incwm

Cydnabyddir incwm pan fydd gan yr elusen yr hawl i dderbyn yr arian a bod unrhyw amod ynghlwm wrth yr eitem neu eitemau o incwm wedi cael eu bodloni, ac yn debygol y bydd yr incwm yn cael eu derbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy.

Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

Cydnabyddir incwm ewyllys a chymynroddion pan fydd gan yr elusen yr hawl i'r incwm, mae derbyn yr arian yn debygol a gellir mesur y swm yn ddibynadwy.

Lle mae cymynroddion wedi eu hysbysu i'r elusen, neu mae'r elusen yn ymwybodol o'r profiant, a'r meini prawf ar gyfer cydnabod incwm wedi heb gael eu bodloni, yna mae'r gymynrodd yn cael ei thrin fel ased wrth gefn a ddatgelir os yn berthnasol.

c. Llogau a dderbynnir

Mae llog ar gyfrifon cadw yn cael ei gynnwys pan gaiff ei dderbyn a gall y swm ei fesur yn ddibynadwy gan yr elusen; mae hyn fel arfer ar hysbysiad am y llog a delir neu yn daladwy gan y banc.

ch. Cronfeydd

Cronfeydd anghyfyngedig - ar gael i'w defnyddio, yn ôl disgresiwn yr ymddiriedolwyr, i unrhyw un o ddibenion elusennol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Mae'r cronfeydd penodol yn cynrychioli incwm anghyfyngedig lle mae'r ymddiriedolwyr yn ôl eu disgresiwn, wedi ei roi o'r neilltu i'w ddefnyddio at ddiben penodol.

Mae'r cronfeydd gwaddol yn cynnwys rhoddion lle mae'r rhoddwr wedi nodi eu bod yn cael eu defnyddio yn unig ar gyfer pwrpas penodol o waith yr elusen neu ar gyfer prosiectau artistig penodol a wneir gan yr elusen.

d. Gwariant a TAW na ellir ei adennill

Mae gwariant yn cael ei gydnabod unwaith mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i wneud taliad i drydydd parti, ac yn debygol y bydd setliad yn ofynnol a swm y rhwymedigaeth yn cael ei fesur yn ddibynadwy. Mae'r gwariant wedi'i ddosbarthu o dan y penawdau gweithgarwch canlynol:

- Costau codi arian yn cynnwys costau masnachu masnachol ar gyfer loteri'r Eisteddfod.
- Mae gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau o berfformiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau addysgol eraill a wnaed i hyrwyddo dibenion yr elusen a'u costau cymorth cysylltiedig.
- Mae gwariant arall yn cynrychioli eitemau hynny nad ydynt yn dod i mewn i unrhyw bennawd arall.

dd. Dyrannu costau cefnogi

Costau cynnal yw'r costau hynny sy'n cynorthwyo gwaith yr elusen ond nid ydynt yn uniongyrchol yn ymgymryd â gweithgareddau elusennol. Maent yn cynnwys costau swyddfa, cyllid, personél, cyflogau a llywodraethu sy'n cefnogi gwaith yr elusen. Mae'r costau hyn wedi cael eu dyrannu o dan gweithgareddau elusennol.

e. Prydlesi gweithredol

Prydlesi gweithredol yw offer lle mae'r teitl i'r offer yn parhau gyda'r prydleswr. Mae taliadau rhent yn cael eu cyflwyno i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol ar sail llinell syth dros dymor y brydles.

f. Asedau treftadaeth

Cofnodir asedau treftadaeth yn ôl y gost wreiddiol. Gan fod asedau treftadaeth yr elusen wedi eu cynnal dros gyfnod o gan mlynedd a mwy mae'r gost wreiddiol yn rhy fach i gofnodi yn y Fantolen.

ff. Asedau anniriaethol

Mae'r Eisteddfod yn cyfrifo am ei feddalwedd fel asedau anniriaethol. Cynhwysir asedau anniriaethol ar eu cost hanesyddol. Mae'r asedau yma'n cael eu hamorteiddio drwy randaliadau cyfartal blynyddol droes eu hoes economaidd defnyddiol amcangyfrifedig o bum mlynedd.

g. Asedau parhaol

Polisi'r Eisteddfod yw cofnodi asedau sefydlog ar y gost wreiddiol hyd yma, llai'r dibrisiant a grynhowyd.

ng. Dibrisiant

Mae'r prif gyfraddau, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, fel a ganlyn:

Moduron, dodrefn ac offer swyddfa	-	20%
Adeiladau parhaol	-	2%
Adeiladau ac eiddo arall	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cyffredinol)	-	10%
Eiddo i'r Orsedd (Cylch ur Orsedd symudol)	-	Dim

h. Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau yn ôl gwerth y farchnad. Mae hyn yn golygu cadw cofnodion prisio cyfoes, felly pan fydd buddsoddiadau yn cael ei gwerthu nid oed enillion na cholledion mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol. Cydnabuwyd unrhyw enillion neu golled yn eu gwerth yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

i. Stoc

Mae stoc yn cael ei gynnwys ar yr isaf o'r gost neu'r gwerth gwireddadwy net.

j. Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod ar y swm sy'n ddyledus ar ôl setlo unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Mae rhagdaliadau wedi eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw, net o unrhyw ostyngiadau masnachol sy'n ddyledus.

l. Arian yn y banc ac mewn llaw

Mae arian yn y banc ac arian mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau byr rhybudd hylifol iawn gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael neu agor y cyfrif.

ll. Credydwyr

Mae credydwyr a darpariaethau yn cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiad yn y gorffennol a fydd yn ôl pob tebyg yn arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti ac mae'r swm sy'n ddyledus i setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei fesur neu amcangyfrif yn ddibynadwy. Fel arfer, mae credydwyr ac unrhyw ddarpariaethau eraill yn cael eu cydnabod fel y swm setliad ar ôl caniatáu ar gyfer unrhyw ostyngiadau dyledus.

m. Tanysgrifiadau am Oes

Trosglwyddir tanysgrifiadau aelodau newydd y Llys, sy'n dymuno ymaelodi am oes, sef £100, i gyfrif Tanysgrifiadau am Oes yn y credydwyr. Rhyddheir un rhan o ddeg pob blwyddyn i'r Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol.

n. Offerynnau ariannol

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol sylfaenol sydd gan yr elusen. Mae offerynnau ariannol sylfaenol yn cael eu cydnabod ar werth trafodiad ac wedyn mesur ar eu gwerth anheddiad.

o. Costau pensiwn

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn gyda Chyngor Sir Caerdydd, sy'n statudol cyfrannol lle mae'r budd wedi'i ddiffinio ac sy'n seiliedig ar gyflog terfynol. Gweinyddir gan Gyngor Sir Caerdydd. Cyfrannodd yr elusen 25.5% (2019: 25.5%) o gyflogau pensiynadwy i'r cynllun am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2020, sef £0.12m (2019: £0.14m).

Mae'r rhwymedigaeth a gydnabyddir yn y fantolen o ran y cynllun buddion diffiniedig yw'r gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y dyddiad adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Mae'r rhwymedigaeth buddion diffiniedig yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Yn flynyddol mae'r elusen yn defnyddio actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth. Mae'r gwerth presennol yn cael ei gyfrifo drwy ddisgowntio'r taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon uchel sy'n cael eu cadw mewn sterling a thelerau sy'n debyg i gyfnod amcangyfrifedig y taliadau yn y dyfodol ('cyfradd ddisgownt').

Mae gwerth teg asedau'r cynllun yn cael ei fesur gyda'r hierarchaeth gwerth teg FRS102 ac yn unol â pholisi'r elusen ar gyfer asedau a gedwir yn yr un modd. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o dechnegau prisio priodol.

Mae enillion a cholledion sy'n deillio o addasiadau profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd yn cael eu codi neu eu credydu i incwm cynhwysfawr arall. Mae'r symiau hyn ynghyd â'r adenillion ar asedau'r cynllun, llai symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu fel 'ar ōl ailbrisio atebolrwydd net diffiniedig'.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel costau gweithwyr, ac eithrio pan maent wedi ei gynnwys yng nghost yr ased, yn cynnwys:

- y cynnydd yn rhwymedigaeth budd pensiwn yn deillio o wasanaeth gweithiwr yn ystod y cyfnod; a
- cost y cyflwyniadau cynllun, newidiadau budd-dal, cwtogiadau ac aneddiadau.

Mae cost llog net wedi ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i gyfanswm net y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig a gwerth teg asedau'r cynllun. Mae'r gost hon yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o'r Gweithgareddau Ariannol fel 'draul cyllid'.

p. Treth

Mae'r Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn elusen gofrestredig ac felly, nid yw'n gorfod talu treth gorfforaethol ar ei gweithgareddau elusennol.

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

2. Rhoddion

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	2020 £ 000	2019 £ 000
Y Cronfeydd Lleol a Chyffredinol	9	172	181	507
Ymddiriedolaeth Edwin Griffiths, UDA	200	-	200	193
Rhoddion trwy ewyllys	45	-	45	373
Rhoddion gan gwmnïau a sefydliadau eraill	30	17	47	18
Cronfeydd Gwobrau	-	-	-	42
Tanysgrifiadau aelodaeth	6	-	6	7
Rhoddion eraill	6	-	6	-
	296	189	**485**	**1,140**

Cronfeydd penodol:

Incwm a dderbyniwyd yn y gorffennol ar gyfer yr Eisteddfod gyfredol:	£	£
Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019	-	(240)
Incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol:		
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022	94	345
Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023	95	1
Symudiad net	189	106

3. Grantiau

Mae incwm oddi wrth y llywodraeth a grantiau eraill, boed yn grantiau 'cyfalaf' neu'n grantiau 'refeniw' yn cael ei gydnabod yn y flwyddyn y cynhelir yr Eisteddfod.

		2020 £ 000	2019 £ 000
Llywodraeth Cymru	Grant Hybu a Hwyluso defnydd y Gymraeg	603	603
Llywodraeth Cymru	Cymorth oherwydd gohirio Eisteddfod 2020	500	-
Llywodraeth Cymru	Cronfa Adferiad Diwylliannol Cymru	150	-
Llywodraeth y DU	Cynllun Cadw Swyddi	91	-
Cyngor Celfyddydau Cymru	Gweithgareddau artistig Eisteddfod AmGen	75	75
Llywodraeth Cymru	Prosiectau arbennig	-	243
Llywodraeth Cymru	Uned Digwyddiadau Mawr (Y Tylwyth)	-	120
Llywodraeth Cymru	Croeso Cymru - Prosiect Agora	-	110
Cyfanswm y grantiau		**1,419**	**1,151**

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

4. Cymynroddion

Yn ystod 2020, derbyniwyd y cyfansymiau canlynol:

	Cronfeydd Gwaddol £ 000	2020 £ 000	2019 £ 000
Gwobr Goffa Edwin Williams	-	-	218
	-	-	218

5. Gweithgareddau elusennol:

Gŵyl yr Eisteddfod:	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Penodol £ 000	2020 £ 000	2019 £ 000
Incwm o'r Ŵyl	90	44	134	2,028
Incwm o'r Maes	30	71	101	912
Awdurdodau a chynghorau Lleol	351	1	352	345
Cynlluniau nawdd	7	13	20	395
Maes Carafanau	-	222	222	193
Cyfanswm	478	351	**829**	**3,873**

Cronfeydd penodol:

	£	£
Incwm a dderbyniwyd yn y gorffennol ar gyfer yr Eisteddfod gyfredol:		
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022	-	(3)
Incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ar gyfer Eisteddfodau'r dyfodol:		
Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2022	351	-
Symudiad net	351	(3)

6. Gweithgareddau masnachu

	2020 £ 000	2019 £ 000
Cynllun loteri	**15**	**16**

7. Incwm o fuddsoddiadau

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	2020 £ 000	2019 £ 000
Llog y buddsoddiadau	-	15	15	21

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

8. Gwariant

	Costau Staff £ 000	Costau Uniongyrchol £ 000	Costau Cynnal £ 000	2020 £ 000	2019 £ 000
Gweithgareddau codi arian					
Cynllun loteri	-	11	-	11	12
Ffi broceriaid buddsoddiadau	-	4	-	4	-
Cyfanswm	-	15	-	15	12
Gweithgareddau elusennol					
Gŵyl yr Eisteddfod	653	607	267	1,527	6,096
Cyfanswm	653	622	267	**1,542**	**6,108**

Mae'r gwariant yn cynnwys tâl i'r archwiliwyr am wasanaethau archwilio cyfrifon 2020 o £8,300 (2019: £12,750) a £14,200 (2019 - £4,995) ar gyfer gwasanaethau arbenigol treth ar werth.

9. Costau staff

	2020 £ 000	2019 £ 000
Cyflogau gros	484	550
Cyfraniadau Yswiriant Cenedlaethol y cyflogwr	45	53
Cost pensiwn y cyflogwr	124	135
	653	738

Yn ystod y flwyddyn cyflogwyd, ar gyfartaledd misol, 14 o swyddogion cyflogedig llawn amser (2019 - 17) yn y meysydd canlynol:

	2020	2019
Gweithgareddau'r elusen	12	15
Gweinyddiaeth a rheoli	2	2

Personél Rheoli Allweddol

Y personél rheoli allweddol yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ymddiriedolwyr ynghyd a'r Tim Rheoli sydd yn gweithredu trwy'r Bwrdd Rheoli.

Mae aelodau'r Tim Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, Trefnydd a'r Pennaeth Artistig, Pennaeth Gweithredu Cymunedol, Pennaeth Cyfathrebu a'r Pennaeth Cyllid. Cyfanswm y tâl gros a buddion i weithwyr y personél rheoli allweddol oedd £272,250 - 5 aelod. (2019: £274,409 - 5 aelod).

Nifer o gyflogeion yr oedd eu taliadau, yn cynnwys gwerth trethadwy nwyddau mewn da ond heb gynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, o fewn yr ystodau canlynol:

	2020	2019
£60,000 - £69,000	1	1

Mae pob cyflogeion sydd yn ennill dros £60,000 yn aelod o gynllun pensiwn lle mae'r budd wedi'i ddiffinio.

Ymddiriedolwyr - Ni chafodd yr ymddiriedolwyr unrhyw dâl yn ystod y flwyddyn (2019: Dim) Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiriedolwr dâl am wasanaethau proffesiynol a gyflenwyd i'r elusen (2019: £ dim).

Costau teithio i'r ymddiriedolwyr ac aelodau eraill yn ystod 2020 oedd: £ Dim (2019: £6,964).

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

10. Eiddo parhaol

Asedau treftadaeth

Gan nad oes cost ar gyfer regalia'r Orsedd (sydd yn cynnwys y Cleddfyf Mawr a'r Corn Hirlas) nid ydym yn cynnwys yr eitemau hyn fel eiddo. Amcangyfrif gwerth ariannol y regalia ar gyfer pwrpas yswiriant yw £222,000 (Mehefin 2016).

Asedau anniriaethol

	Gwefan £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost		
1 Ionawr 2019	46	46
Ychwanegiadau	-	-
31 Rhagfyr 2019	46	46
Amorteiddiad		
1 Ionawr 2019	34	34
Cost am y flwyddyn	10	10
31 Rhagfyr 2019	44	44
Gwerth net yr asedau		
31 Rhagfyr 2020	**2**	**2**
31 Rhagfyr 2019	12	12

Asedau parhaol

	Adeiladau Parhaol £ 000	Adeiladau Eraill £ 000	Peiriannau/ Offer Maes £ 000	Dodrefn Llwyfan £ 000	Dodrefn Swyddfa £ 000	Eiddo i'r Orsedd £ 000	Cyfanswm £ 000
Cost							
1 Ionawr 2020	570	142	861	19	160	73	1,825
Ychwanegiadau	-	-	-	-	-	-	-
Gwarediadau	-	(56)	-	-	(1)	(40)	(97)
31 Rhagfyr 2020	570	86	861	19	159	33	1,728
Dibrisiad							
1 Ionawr 2020	254	95	810	19	123	45	1,344
Cost am y flwyddyn	17	8	8	-	13	1	47
Gwarediadau	-	(56)	-	-	(1)	(40)	(97)
31 Rhagfyr 2020	271	47	818	19	135	6	1,294
Gwerth net yr eiddo							
31 Rhagfyr 2020	**299**	**39**	**43**	-	**24**	**27**	**432**
31 Rhagfyr 2019	316	47	51	-	38	28	480

11. Buddsoddiadau

Dewiswyd y buddsoddiadau i gwrdd â gofynion yr Eisteddfod am logau sylweddol, diogelwch cyfalaf, a'r rhwyddineb i droi rhai ohonynt yn arian yn ôl gofynion y llif arian.

Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cronfeydd Anghyfyngedig £ 000	Cronfeydd Gwaddol £ 000	Gwerth y Farchnad **2020** Cyfanswm £ 000	**2019** Cyfanswm £ 000	Y Gost 2020 £ 000	Llog 2020 £ 000
COIF Cyfrif Cadw *(Charities Official Investment Fund)*	253	119	372	1	372	-
Llog Sefydlog	-	193	193	152	188	3
Cyfranddaliadau	-	539	539	372	494	11
Eiddo	-	26	26	26	27	1
Buddsoddiadau eraill	-	29	29	15	28	1
Arian ar gyfer dibenion buddsoddi	-	22	22	-	22	-
Cyfanswm Buddsoddiadau parhaol	253	928	**1,181**	566	1,130	15
Buddsoddiadau Tymor Byr	888	-	**888**	232	888	-
Cyfanswm Buddsoddiadau	1,141	928	2,069	798	2,018	15

Mae'r arian yng ngyfrif COIF Cadw yn arian hylifol iawn ar gyfer buddsoddi yn y tymor hwy.

Mae'r arian a gynhwysir fel Buddsoddiadau Tymor Byr yn cynrychioli'r arian a dderbyniwyd i'w ddefnyddio ar gyfer yr Eisteddfodau a gynhelir yn y dyfodol agos.

Symudiadau yn y Buddsoddiadau Eiddo Parhaol

	Cyfanswm £ 000
Gwerth y Farchnad - 31 Rhagfyr 2019	566
Gwerthu buddsoddiadau (Gwerth y farchnad)	(100)
Prynu buddsoddiadau newydd (Cost)	302
Trosglwyddiad arian i'r Cyfrif Cadw COIF	371
Trosglwyddiad arian o ddyledwyr ar gyfer dibenion buddsoddi	22
Enillion ar fuddsoddiadau	20
Gwerth y Farchnad - 31 Rhagfyr 2020	**1,181**

12. Dyledwyr

	2020	2019
	£ 000	£ 000
Dyledwyr - Masnachol	126	155
Dyledwyr - Grantiau	309	151
Dyledwyr - Eraill	404	576
Ad-daliad Treth Incwm a TAW	90	388
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	12	19
	941	1,289

13. Credydwyr: Dyledus mewn llai na blwyddyn

	2020	2019
	£ 000	£ 000
Credydwyr Masnachol	84	418
Credydwyr eraill	25	28
Croniadau	21	13
Tanysgrifiadau am Oes	11	13
	141	472

14. Dadansoddiad o'r Asedau net

	Cronfeydd Anghyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	2020	2019
	£ 000	£ 000	£ 000	£ 000
Eiddo anniriaethol	2	-	2	12
Eiddo Parhaol	432	-	432	480
Buddsoddiadau	252	928	1,180	566
Asedau cyfredol	1,412	486	1,898	1,544
Credydwyr cyfredol	(141)	-	(141)	(472)
Cynllun pensiwn	(60)	-	(60)	260
	1,897	1,414	3,311	2,390

15. Cytundebau prydles

Dadansoddiad o'r rhent sydd i'w dalu o dan gytundebau prydles am y ceir swyddogol:

	2020	2019
Y cytundeb yn dod i ben:	£ 000	£ 000
Mewn llai na blwyddyn	6	16
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	-	6
Rhwng dwy a phum mlynedd	-	5
	6	27

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

16. Cynllun Pensiwn

Mae'r Eisteddfod yn gweithredu cynllun pensiwn Enillion Ailbrisiedig Gyrfa Cyfartalog (CARE). Gweinyddir y Gronfa gan Adran Bensiynau Cyngor Dinas Caerdydd. Mae'r asedau'r cynllun wedi'u cadw mewn cronfeydd ar wahân.

Mae'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar werth actiwaraidd llawn y gronfa ar 31 Mawrth 2019 a ddiweddarwyd i 31 Rhagfyr 2020 gan actiwari annibynnol.

	2020	2019	2018
Cyfradd gostyngiad	1.4%	2.0%	2.8%
Chwyddiant Mynegai Pris Defnyddwyr (CPI)	2.1%	2.2%	2.2%
Cyfradd cynnydd mewn tâl pensiynau	2.1%	2.2%	2.2%
Cyfradd cynnydd mewn pensiynau wedi'u gohirio	2.1%	2.2%	2.2%
Cyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.1%	3.2%	3.2%

Ar sail y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer disgwyliadau einioes, disgwylir i bensiynwr sydd yn 65 ar 31 Ragfyr i fyw am:

		2020	2019
Gwrywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	22.2	22.1
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	23.2	22.7
Benywaidd	Aelod sydd yn 65 ar 31 Ragfyr	24.6	24.5
	Aelod sydd yn 45 ar 31 Ragfyr	26.0	25.6

Cyfradd adennill a ddisgwyliad ar 31/12/2020:

	Canran asedau ar 2020 (%)	Gwerth 2020 (£m)	Canran asedau ar 2019 (%)	Gwerth 2019 (£m)
Buddsoddiadau ecwiti	63.8	4.22	65.7	4.06
Eiddo	7.1	0.47	7.2	0.45
Bondiau'r llywodraeth	11.3	0.75	10.3	0.64
Bondiau corfforaethol	16.5	1.09	15.9	0.98
Arian	1.3	0.09	0.8	0.05
Arall	0.0	0.0	0.1	0.01
Cyfanswm	100	6.19	100	6.19

Sefyllfa y gronfa ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru:

	2020 £m	2019 £m
Canran o'r asedau	6.55	6.19
Amcangyfrif o'r rhwymedigaethau	6.61	5.93
(Rhywedigaeth)/Ased a gydnabyddir ar y fantolen	(0.06)	0.26

Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y cyfrif elw a cholled fel y canlynol:

	2020 £m	2019 £m
Cost gwasanaeth presennol	0.20	0.14
Cost gwasanaeth y gorffennol	0.00	0.05
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	0.00	(0.01)
Cyfanswm cost gweithredu	0.20	0.18

NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 RHAGFYR 2020

Newidiadau i werth presennol oblygiadau'r budd diffiniedig yn ystod y flwyddyn:

	2020	2019	2018
	£m	£m	£m
Oblygiadau agoriadol y budd diffiniedig	5.93	5.21	5.43
Cost gwasanaeth presennol	0.20	0.14	0.15
Llog ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn	0.12	0.14	0.13
Cyfraniadau gan aelodau'r cynllun	0.04	0.04	0.04
Cynnydd actiwaraidd ar rwymedigaethau	0.42	0.47	(0.22)
Buddion a dalwyd	(0.10)	(0.12)	(0.32)
Oblygiadau terfynol y budd diffiniedig	6.61	5.93	5.21

Newidiadau i werth farchnad asedau'r cynllun yn ystod y flwyddyn:

	2020	2019	2018
	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod	6.19	5.43	5.83
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.12	0.15	0.14
Cynnydd actiwaraidd ar asedau	0.18	0.55	(0.40)
Cyfraniadau'r cyflogwr	0.12	0.14	0.14
Cyfraniadau'r cyflogedig	0.04	0.04	0.04
Buddion a dalwyd	(0.10)	(0.12)	(0.32)
Gwerth farchnad asedau'r cynllun ar ddiwedd y cyfnod	6.55	6.19	5.43

Gwir enillion asedau'r cynllun:

	2020	2019	2018
	£m	£m	£m
Enillion disgwyliedig asedau'r cynllun	0.12	0.15	0.14
Cynnydd (Colled) actiwaraidd ar asedau	0.18	0.55	(0.40)
Gwir (colledion)/enillion ar asedau'r cynllun	0.30	0.70	(0.26)

Dadansoddiad hanesyddol gwerthoedd asedau, rhywmedigaethau'r cynllun, cyfanswm y diffyg a phrofiad enillion a cholledion:

	2020	2019	2018	2017	2016
	£m	£m	£m	£m	£m
Gwerth farchnad asedau'r cynllun	6.55	6.19	5.43	5.83	5.26
Rhywmedigaethau'r cynllun	6.61	5.93	5.21	5.43	5.87
Gweddill/(Diffyg) yn y cynllun	(0.06)	0.26	0.22	0.40	(0.61)

Nid yw'r wybodaeth a gynhwysir yn yr atodiadau yn rhan o'r datganiadau ariannol archwiliedig.

ATODIAD A

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

CYFARFOD BLYNYDDOL LLYS YR EISTEDDFOD 2020

Cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd dros y llwyfan digidol *Zoom*, Ddydd Gwener, 7 Awst 2020.

1. Croeso

Croesawodd Llywydd Llys yr Eisteddfod, Ashok Ahir, tua 50 o aelodau'r Llys i'r Cyfarfod Blynyddol. Nododd bod y Llys yn creu hanes trwy gwrdd yn ddigidol am y tro cyntaf. Soniodd am yr heriau a wynebwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn sgil COVID-19, ac na ellid gorbwysleisio cyfnod mor heriol a fu. Llwyddwyd i ail-negodi'r holl gytundebau gyda chontractwyr a diogelu sefyllfa ariannol yr Eisteddfod yn y tymor byr, ond byddai'n rhaid gwneud penderfyniadau anodd pellach yn ystod y flwyddyn nesaf.

Roedd y Bwrdd Rheoli wedi blaenoriaethu cadw brand yr Eisteddfod yn weledol yn ystod y cyfnod clo a chynnal ein diwylliant. Ganwyd Yr Eisteddfod AmGen o ganlyniad i hyn, a chyhoeddwyd bod dros hanner miliwn wedi gwylio'r arlwy dros y dyddiau diwethaf.

2. Cofnodion

Cyflwynwyd Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Llys a gynhaliwyd ar faes Eisteddfod Genedlaethol Conwy ar 9 Awst 2019. **DERBYNIWYD** y cofnodion fel rhai cywir.

3. Materion yn Codi o'r Cofnodion

Ni chodwyd unrhyw faterion o'r cofnodion.

4. Diweddariad gan y Prif Weithredwr

Ymhelaethodd y Prif Weithredwr, Betsan Moses, ar yr heriau dros y misoedd nesaf. Roedd partneriaethau'r Eisteddfod gydag arianwyr a chontractwyr wedi bod yn allweddol o ran gallu parhau i fasnachu. Crëwyd yr Eisteddfod AmGen er mwyn cynnal y brand a chyfrannu at fywyd diwylliannol y genedl. Cadwyd yn driw at ethos a thraddodiadau'r Eisteddfod, ond cyflwynwyd yr arlwy mewn modd newydd gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Roedd y staff yn ymwybodol iawn hefyd o'r tlodi digidol sy'n bodoli, ac nad yw pawb yn gyfarwydd â thechnoleg newydd, ac felly cydweithiwyd gyda Radio Cymru ac S4C trwy gydol y cyfnod i sicrhau bod yr arlwy yn hygyrch i bawb. Cynhaliwyd penwythnos Gŵyl AmGen mewn partneriaeth gyda Radio Cymru, ac roedd S4C wedi comisiynu nifer o raglenni i ddathlu amrywiol elfennau o'r Eisteddfod.

Derbyniwyd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru i ddigolledu'r costau gohirio, a manteisiwyd ar gynllun gwarchod swyddi y Llywodraeth. O ran y dyfodol, roedd y gwaith wedi dechrau o ran ceisio gwireddu Eisteddfod 2021. Yn realistig, digwyddiadau mawr fyddai un o'r elfennau olaf i ddod allan o'r cyfyngiadau oherwydd y modd mae'r feirws yn lledaenu; ond mae'r Eisteddfod yn cydweithio'n agos gyda'r Llywodraeth a digwyddiadau eraill er mwyn rhannu arfer da a sicrhau y gellir gwireddu digwyddiadau mawr yn y dyfodol.

Mynegodd nifer o'r aelodau eu gwerthfawrogiad o waith y Prif Weithredwr a'r staff, a llongyfarchwyd hwy ar safon yr arlwy amgen.

5. Strategaeth 2020-25

Cylchredwyd y Strategaeth ymlaen llaw, ac fe'i cyflwynwyd gan Lywydd y Llys. Nododd bod yr holl ansicrwydd diweddar wedi ei gwneud yn fwy pwysig i lunio strategaeth er mwyn gallu cyflwyno gweledigaeth gadarn i holl randdeiliad ac arianwyr yr Eisteddfod. Ymgynghorwyd yn

helaeth wrth ddatblygu'r Strategaeth, gan gynnwys mewn cyfarfod arbennig o Gyngor yr Eisteddfod, ac roedd yn falch i gyflwyno'r ddogfen gerbron Aelodau'r Llys. Gwahoddwyd sylwadau a chwestiynau, a cymeradwywyd y Strategaeth yn ei chyfanrwydd.

6. Adroddiad Blynyddol 2019 yn cynnwys Cyfrifon y Llys

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol gan Lywydd y Llys. Nododd ei ddiolchgarwch i Eric Davies, oedd yn dod i ddiwedd ei gyfnod fel Trysorydd, ac a fu'n gwasanaethu'r Eisteddfod ers 1979.

Cyflwynodd y Trysorydd yr Adroddiad Blynyddol. Nododd bod Eisteddfod Sir Conwy wedi bod yn llwyddiannus yn ariannol er gwaethaf yr heriau o ran symud safle'r Maes. Byddai'r Eisteddfod wedi gwneud gweddill oni bai am y problemau tywydd gwael a arweiniodd at orfod gohirio Maes B ddiwedd yr wythnos. Dyma oedd i gyfrif am y diffyg o oddeutu £200K dros wythnos yr ŵyl, ond roedd yr Eisteddfod yn ei chyfanrwydd wedi creu gweddill o £400K, yn bennaf oherwydd rhoddion ewyllys. Derbyniwyd £374K yn ewyllys William Joshua, Treforys, a £218K pellach gan deulu Rennie Middleton Williams, er byddai'n rhaid cadw'r ail rodd mewn cronfa waddol.

Bu'n rhaid gwerthu rhywfaint o fuddsoddiadau'r Eisteddfod yn ystod y flwyddyn oherwydd colledion Llanrwst, ond roedd y rhoddion ewyllys wedi mwy nag adfer y sefyllfa.

Nodwyd hefyd bod gweddill o £40K yn y gronfa bensiwn, a bod y sefyllfa ariannol dros 2019 yn ei chyfanrwydd yn well nag y byddai neb wedi ei ragweld.

Dymunodd Eric bob lwc i'w olynydd, Gwenno Williams, a nododd ei ddiolchgarwch personol i bawb a fu'n gymorth iddo dros y blynyddoedd. Diolchodd yn arbennig i Peter Davies, Pennaeth Cyllid yr Eisteddfod, a nododd y bu'n bleser cydweithio ag ef. Eglurodd ei fod wedi cytuno i gynorthwyo'r Trysorydd newydd i gymryd yr awenau dros y flwyddyn nesaf.

Ac yn olaf, nododd bwysigrwydd rhoddion ewyllys i'r Eisteddfod, ac anogodd holl aelodau'r Llys i wneud cyfraniad i'r Eisteddfod yn eu hewyllysiau.

Diolchwyd i Eric am ei waith diflino dros ddegawdau, ac am helpu'r Elusen i wrthsefyll sawl storm. Diolchwyd hefyd iddo am ei gyfeillgarwch a'i arweiniad ariannol cadarn.

CYMERADWYODD y Cyfarfod Blynyddol yr Adroddiad Blynyddol ynghyd â'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd.

7. Ethol Swyddogion y Llys 2020 - 2021

Eglurodd yr Ysgrifennydd, Llŷr Roberts, y cyflwynir enwau swyddogion y Llys i'w cadarnhau yn flynyddol yng Nghyfarfod Blynyddol y Llys. Y Panel Enwebu sy'n gyfrifol am yr enwebiadau, a chylchredwyd manylion yr holl enwebiadau i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Fel y crybwyllwyd, y prif newid eleni oedd bod cyfnod Eric Davies fel Trysorydd yn dod i ben. Cafodd y rôl ei hysbysebu yn gyhoeddus yn unol ag arfer da a chanllawiau'r Comisiwn Elusennol. Derbyniwyd cais gan Gwenno Williams oedd yn Gyfrifydd Siartredig gyda phrofiad helaeth o gynghori cwmnïau a sefydliadau bach a mawr ac o reoli gweithgareddau cyllid o ddydd-i-ddydd. Cyflwynodd Gwenno ei hunan i'r aelodau, a chroesawyd y ffaith bod ganddi ddealltwriaeth dda o'r Eisteddfod yn ogystal â chyllid.

Nid oedd y Panel yn argymell gwneud unrhyw newidiadau eraill o ran y swyddogion, ac felly enwebwyd y canlynol i wasanaethu fel Swyddogion y Llys yn 2020-21:

- Llywydd y Llys a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli: Ashok Ahir
- Ysgrifennydd: Llŷr Roberts
- Is-ysgrifennydd: Gwawr Taylor
- Trysorydd: Gwenno Williams
- Cadeirydd y Cyngor: Gethin Thomas
- Is-gadeirydd y Cyngor: Heulwen Jones
- Cyfreithwyr Mygedol: Emyr Lewis, Philip George ac Aled Walters

ETHOLWYD yr holl swyddogion yn ddiwrthwynebiad.

8. Penodi Ymddiriedolwyr

Cylchredwyd manylion yr enwebiadau ymlaen llaw. Adroddodd yr Ysgrifennydd ei bod yn ofynnol i ddau o'r chwe ymddiriedolwr etholedig ymddeol bob blwyddyn, ac mai tro Eric Davies a Dyfrig Roberts oedd hi i ymddeol eleni. Nid oeddynt yn gymwys i'w hail ethol gan iddynt wasanaethu am fwy na thri thymor. Diolchwyd i Dyfrig am flynyddoedd o wasanaeth fel Ymddiriedolwr a Chadeirydd Pwyllgor Technegol yr Eisteddfod.

Eglurwyd bod tymor Trystan Lewis, Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Sir Conwy, hefyd yn dod i ben, ond ei fod yn gymwys i'w ail ethol. Penodwyd Trystan yn Gadeirydd Pwyllgor Diwylliannol yr Eisteddfod ym mis Medi 2019, ac mae Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod yn nodi bod rhaid i Gadeirydd y Pwyllgor fod yn Ymddiriedolwr. Enwebwyd Trystan Lewis, felly, i wasanaethu fel Ymddiriedolwr Elusen ac Aelod o Fwrdd Rheoli'r Eisteddfod am ail dymor o 3 blynedd.

Yn ogystal, enwebwyd Gwenno Williams i wasanaethu fel Ymddiriedolwr Elusen ac Aelod o Fwrdd Rheoli'r Eisteddfod am dymor o 3 blynedd yn lle Eric Davies.

Eglurwyd y bydd y Panel Enwebu yn ystyried sut i sicrhau bod gan y Bwrdd Rheoli ddigon o arbenigedd a gwybodaeth dechnegol yn dilyn ymadawiad Dyfrig Roberts yn ystod yr hydref.

CYMERADWYWYD y penodiadau yn ddiwrthwynebiad, a chroesawyd y cydbwysedd da o ran rhywedd y Swyddogion a'r Ymddiriedolwyr yn dilyn y penodiadau.

9. Ethol aelodau i gynrychioli'r Llys ar y Cyngor

Eglurodd yr Ysgrifennydd bod gan Aelodau'r Llys yr hawl i ethol 6 o'u plith i wasanaethu ar y Cyngor yn flynyddol. Cylchredwyd hysbyseb a swydd ddisgrifiad ar gyfer y rôl i holl Aelodau'r Llys ac yn ehangach trwy'r cyfryngau torfol ym mis Mehefin. Dim ond 5 cais a dderbyniwyd, ac felly roedd y canlynol wedi eu hethol yn ddiwrthwynebiad i gynrychioli Aelodau'r Llys ar Gyngor yr Eisteddfod dros y tair blynedd nesaf:

- Eirwen Williams - 2il Dymor
- Gwyn Lewis – 3ydd Tymor
- Trystan Lewis - 3ydd Tymor
- Gethin Thomas – 3ydd Tymor
- Heulwen Jones - 2il Dymor

Nodwyd bod cyfnod gwasanaethu Selwyn Evans a Phyllis Ellis wedi dod i ben, a diolchwyd iddynt am eu cyfraniad i waith yr Eisteddfod dros nifer o flynyddoedd. A nodwyd y bydd y Panel Enwebu yn trafod llefydd gwag ar y Cyngor yn yr hydref, ac y bydd modd cyfethol aelodau ychwanegol pe dymunir i lenwi bylchau o ran cefndir a sgiliau

10. Materion yn codi o gyfarfod blynyddol Gorsedd y Beirdd

Cafwyd diweddariad gan Gofiadur yr Orsedd, Christine James, am gyfarfod blynyddol yr Orsedd a gynhaliwyd y diwrnod blaenorol. Roedd yr Aelodau wedi cadarnhau'r newidiadau canlynol

- i beidio â phenodi Swyddog Cyfraith newydd yn lle'r diweddar Robyn Llŷn, gan fod Cyfansoddiad yr Orsedd yn eistedd dan ymbarél Rheolau Sefydlog yr Eisteddfod; mae dau o gyfreithwyr mygedol yr Eisteddfod yn aelodau o'r Orsedd a gellid troi atynt petai angen
- i estyn tymor yr Archdderwydd, swyddogion ac aelodau'r Bwrdd yn sgil yr orfodaeth i ohirio Eisteddfod Ceredigion
- i ychwanegu'r Bardd Cenedlaethol a Bardd Plant Cymru at y rhai i'w hurddo i'r Wisg Werdd
- i urddo hefyd, oherwydd amgylchiadau eithriadol eleni, enillydd y Stôl Barddoniaeth a Dysgwr yr Ŵyl AmGen (mae enillydd y Stôl Rhyddiaith eisoes yn aelod o'r Orsedd).

Yn ogystal, amlinellodd y Cofiadur weledigaeth yr Archdderwydd o ddatblygu dolenni rhwng Cymru a gwledydd eraill trwy gydweithrediad rhwng yr Orsedd a'r Eisteddfod. Awgrymir mabwysiadu un wlad yn flynyddol gan ddechrau, o bosibl, gyda'r Eidal yn Eisteddfod Ceredigion. Bydd y syniad yn cael ei wyntyllu ymhellach yng nghyfarfod nesaf Bwrdd yr Orsedd cyn ei gyflwyno'n fwy ffurfiol i ystyriaeth yr Eisteddfod.

Derbyniwyd yr adroddiad.

11. Unrhyw Fater Arall

Ni chodwyd unrhyw faterion.

12. Diolchiadau

Diolchwyd i bawb am ymuno. Nododd y Llywydd ei obaith y byddai modd cyfarfod wyneb yn wyneb yn Nhregaron y flwyddyn nesaf, ac anogodd bawb i gadw'n iach a diogel dros y misoedd nesaf.

Llŷr Roberts (Ysgrifennydd)

Awst 2020

ATODIAD B

Eisteddfod Genedlaethol Cymru

SWYDDOGION Y LLYS A'R CYNGOR 2020

Cymrodyr	Aled Lloyd Davies R. Alun Evans Geraint R Jones John Gwilym Jones Garry Nicholas D Hugh Thomas
Llywydd	Ashok Ahir
Is-lywyddion	Myrddin ap Dafydd (Archdderwydd) Elin Jones (Cadeirydd Eisteddfod Ceredigion 2022) Michael Strain (Cadeirydd Eisteddfod 2023)
Cadeirydd y Cyngor	Gethin Thomas
Is-gadeirydd y Cyngor	Heulwen Jones
Trysorydd	Gwenno Williams
Cyfreithwyr Mygedol	Emyr Lewis, Philip George, Aled Walters
Ysgrifennydd	Llŷr Roberts
Is-Ysgrifennydd	Gwawr Taylor
Archdderwydd	Myrddin ap Dafydd
Cofiadur yr Orsedd	Christine James

Staff:

Prif Weithredwr	Betsan Moses
Trefnydd a Phennaeth Artistig	Elen Huws Elis
Pennaeth Cyfathrebu	Gwenllïan Carr
Pennaeth Cyllid	Peter Rhys Davies
Dirprwy Bennaeth Artistig	Sioned Edwards
Swyddog Cystadlaethau	Lois Jones
Swyddog Technegol	Tony Thomas